
# adroddiad blynyddol **2008/9**

Ofcom



# Prif Swyddfeydd Ofcom


**LLOEGR**
Tŷ Riverside
2a Heol Bont Southwark
Llundain SE1 9HA
T 020 7981 3000
neu 0300 123 3000
Ff 020 7981 3333

**YR ALBAN**
Tŷ Sutherland
149 Stryd St Vincent
Glasgow G2 5NW
T 0141 229 7400
Ff 0141 229 7433

**CYMRU**
2 Pentir Caspian
Ffordd Caspian
Caerdydd CF10 4DQ
T 029 2046 7200
Ff 029 2046 7233

**GOGLEDD IWERDDON**
Tŷ Landmark
5 Cei Cromac
Y Gweithfeydd Nwy
Heol Ormeau
Belfast BT7 2JD
T 028 9041 7500
Ff 028 9041 7533

**TÎM YMGYNGHOROL OFCOM**
Ffôn 020 7981 3040
neu 0300 123 3333
Cym 020 7981 3042



Cynlluniwyd gan wonderlandWPA
a Stills Caerdydd

# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Ofcom

ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2008 i 31 Mawrth 2009

© Hawlfraint Ofcom 2009
Gellir atgynhyrchu'r cynnwys yn y ddogfen hon (heblaw am logo Ofcom) mewn unrhyw ffordd am ddim, ond iddo gael ei hatgynhyrchu'n gywir a heb ei defnyddio mewn unrhyw ffordd gamarweiniol. Rhaid cydnabod y wybodaeth fel hawlfraint Ofcom a rhaid nodi teitl y ddogfen.

# Cynnwys

## Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon

ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2008 i 31 Mawrth 2009

### Adran A Cyflwyniad


4 Neges y Cadeirydd

6 Adroddiad y Prif Weithredwr

10 Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Cynnwys


### Adran B Meysydd Gweithgarwch Craidd


14 Bwrw Ymlaen ag Ymagwedd at y Sbectrwm sy'n Seiliedig ar y Farchnad

16 Hybu Cystadleuaeth ac Arloesi mewn Marchnadoedd sy'n Cydgyfeirio

18 Gwireddu Amcanion Budd Cyhoeddus Wrth i Blatfformau a Gwasanaethau Gydgyfeirio

23 Grymuso Dinasyddion a Defnyddwyr a Gwella Cydymffurfio Rheoleiddiol lle bo Angen

29 Lleihau Rheoleiddio a Sicrhau Cyn Lleied o Feichiau Gweinyddol ag y bo Modd

29 Sicrhau Cymaint o Ddylanwad ag y bo Modd ar Ddatblygu Polisi Rhyngwladol


### Adran C Adolygiad Gweithredu ac Adolygiad Ariannol


32 Perfformiad a Gwerthuso

41 Data Ystadegol

52 Perfformiad Ariannol


### Adran Ch Adolygiad o Gyfrifon a Llywodraethu Corfforaethol


56 Rhagair

60 Bwrdd Ofcom

62 Llywodraethu Corfforaethol

64 Pwyllgorau'r Bwrdd

67 Byrddau nad ydynt yn rhai Bwrdd

70 Datganiad o Gyfrifoldebau

71 Datganiad ar Reolaeth Fewnol

76 Adroddiad Tâl


### Adran D Cyfrifon ar gyfer y Cyfnod 1 Ebrill 2008 i 31 Mawrth 2009


83 Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr ac Archwiliwr Cyffredinol i'r Senedd

85 Cyfrif Incwm a Gwariant

86 Datganiad Cyfanswm Enillion a Cholledion Cydnabyddedig

87 Mantolen

88 Datganiad Llif Arian

89 Nodiadau'r Cyfrifon

Neges y Cadeirydd



# Colette Bowe

Her i'r sector cyfathrebu, newid yn Ofcom. Er gwell neu er gwaeth, mae sector cyfathrebu'r DU wedi symud i gyfnod newydd. Mae'r oes ddigidol lawn, y mae cymaint o sôn amdani, yn prysur ddod yn realiti. Erbyn diwedd eleni, er enghraifft, bydd bron i un cartref o bob pump yn derbyn y teledu drwy signal digidol yn unig.

**Mae'r newid hwn i'r digidol hefyd yn cyd-daro â chyfnod o newid economaidd aruthrol. Ers i Ofcom gael ei sefydlu, mae'r economi wedi mwynhau twf economaidd cryf a pharhaus. Wrth i economi'r DU a llawer o economïau eraill ar draws y byd grebachu, mae pob sector yn teimlo'r effeithiau. Yr ydym eisoes wedi gweld swyddi'n cael eu colli a mesurau darbodaeth gan rai o ddarparwyr cyfathrebu mwyaf y DU. Ni ddylid tybio na fydd rhagor o galedi a newid o'n blaenau.**

Y mae'r gystadleuaeth y mae Ofcom wedi ceisio'i chyflwyno i'r sector yn gweithio er budd y defnyddiwr a budd y dinesydd yn yr amseroedd anodd hyn yn ogystal â'r amseroedd da. Ond mae angen i ni hefyd fod yn fwy ar ein gwyliadwriaeth pan mae'r buddiannau hyn yn cael eu niweidio. Yn ystod y flwyddyn nesaf, bydd llawer o waith Ofcom yn canolbwyntio ar gynnal y buddsoddiad yn y sector a bodloni buddiannau'r defnyddiwr a'r dinesydd mewn byd o newid strwythurol a chylchol enfawr.

Beth bynnag a ddaw yn y dyfodol, rwy'n benderfynol y bydd Ofcom yn asiant pwerus a huawdl ar ran dinasyddion a defnyddwyr. Rwy'n dod yn gadeirydd sefydliad sydd mewn sefyllfa dda i gyflawni yn erbyn yr amcanion hynny. Mae fy rhagflaenydd a Chadeirydd cyntaf Ofcom, David Currie, wedi creu sefydliad effeithlon a darbodus sydd wedi lleihau ei niferoedd staff a'i gyllideb wrth reoleiddio sector sy'n dod yn fwyfwy arwyddocaol i fywydau pobl yn y DU. Wrth inni baratoi i ysgwyddo cyfrifoldebau newydd, hoffwn dalu teyrnged arbennig iddo am y gwaith y mae wedi'i wneud dros y chwe blynedd diwethaf, yn sefydlu a rhedeg Ofcom a sefydlu fframwaith ar gyfer darparu cystadleuaeth a diogelu defnyddwyr a dinasyddion. Rydym i gyd yn ddyledus i David am ei waith rhagorol.

# Neges y Cadeirydd

## Cynnydd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, y blaenoriaethau ar gyfer y nesaf

Yn ystod y deuddeng mis diwethaf, rydym wedi gallu bwrw ymlaen mewn sawl maes pwysig, o fesurau newydd i fynd i'r afael â cham-werthu gwasanaethau ffôn symudol, i ddyrannu capasiti newydd ar gyfer darllediadau Manylder Uwch ar Deledu Daearol Digidol, i enwi dim ond dau.

Roedd y cerrig milltir pwysig yn cynnwys sefydlu fframwaith pendant gennym ar gyfer cam cyntaf y seilwaith sy'n ofynnol ar gyfer band eang cyflym iawn, sy'n darparu band eang yn llawer cyflymach na'r hyn sy'n bosibl ar hyn o bryd. Bellach, mae'r ffordd yn glir i BT ac eraill ddefnyddio'r gwasanaeth ar raddfa eang, a gall defnyddwyr ddisgwyl i'r busnes telegyfathrebu gyflawni.

Ym mis Ionawr, cyhoeddasom ein datganiad terfynol ar ddyfodol darlledu gwasanaeth cyhoeddus, gan gynnwys argymhellion i'r Senedd a'r Llywodraeth. Rwy'n falch fod prosiect Prydain Ddigidol y Llywodraeth yn adeiladu ar y sylfeini cadarn hyn.

Mae Prydain Ddigidol ei hun yn dyst i bwysigrwydd cynyddol y maes cyfathrebu i economi a chymdeithas y DU. Bydd Ofcom yn gweithio gyda'r Llywodraeth a'r Senedd i weithredu'r llu o newidiadau sy'n ofynnol i gyflawni'r dyhead o roi'r DU ar flaen y gad yn y chwyldro digidol byd-eang.

Un mater pwysig a fydd yn cael sylw gennym flwyddyn nesaf fydd ein hadolygiad o gyfryngau lleol, maes o ddiddordeb enfawr i ddinasyddion a defnyddwyr a mater sy'n wynebu newidiadau a heriau enfawr. A byddwn yn parhau i baratoi ar gyfer Gemau Olympaidd a Gemau Paralympaidd Llundain yn 2012 a'r ehangu posibl yn ein cylch gwaith i gynnwys cyfrifoldeb am y sector post.

Yn Ewrop, rydym wedi parhau i gymryd rhan weithredol ar draws yr ystod lawn o feysydd polisi, gan gynnwys yr adolygiad parhaus o'r Fframwaith ar gyfer gwasanaethau a chyfathrebu electronig ac adolygiadau i'r Cyfarwyddebau ar GSM a Thrawsrwydweithio Dramor. Gyda'r Senedd newydd gael ei hethol ym mis Mehefin, ac wedyn coleg Comisiynwyr newydd ym mis Tachwedd, bydd 2009 yn flwyddyn o newid mawr yn Ewrop. Byddwn yn parhau i gefnogi'r gwaith o siapio'r agendâu newydd yn Ewrop er budd defnyddwyr a dinasyddion y DU.

Ym mhopeth a wna Ofcom, mae'n cael ei gefnogi gan waith amhrisiadwy ei Bwyllgorau a'r Byrddau.


Eleni fe wnaethom ffarwelio â Philip Rutnam, sydd wedi bod yn Bartner Sbectrwm Ofcom ers ei ddyddiau cyntaf ac yn fwy diweddar fel aelod o'r Bwrdd. Mae Philip wedi bod â rôl allweddol yn ein rhaglen barhaus o lacio'r rheolau yn ymwneud â sbectrwm, maes sy'n dal yn un o brif flaenoriaethau Ofcom. Dymunwn y gorau iddo yn ei rôl newydd yn y Llywodraeth.

Rydym hefyd wedi croesawu dau aelod gweithredol newydd i'r Bwrdd sef Peter Phillips a Stuart McIntosh. Mae Peter wedi bod gydag Ofcom ers 2006 a chanddo ef y mae'r cyfrifoldeb cyffredinol dros y timau sy'n ymwneud â strategaeth, technoleg, polisi defnyddwyr, ymchwil y farchnad a thîm y prif economegydd. Ymunodd Stuart ag Ofcom y llynedd fel ein Partner Cystadleuaeth ac fe'i penodwyd i'r Bwrdd yn fuan wedyn. Edrychaf ymlaen at barhau i weithio gyda'r ddau a chyda gweddill y Bwrdd.

Mae'r Bwrdd Cynnwys, ochr yn ochr â'r cyngor a ddarpara i'r prif Fwrdd, wedi parhau i gyflawni'i ddyletswyddau'n ddiwyd. Hoffwn hefyd gydnabod gwaith Bwrdd Ymgynghori Ofcom ar faterion Sbectrwm a'r Pwyllgorau Ymgygynghori Cenedlaethol dros Gymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban, yn ogystal â'r Pwyllgor Ymgynghori ar gyfer Pobl Hŷn a Phobl Anabl. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf hefyd cafwyd adolygiad sylweddol o Banel Defnyddwyr annibynnol Ofcom dan gadeiryddiaeth Anna Bradley, gan gynnwys newid ei enw i'r Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau. Hoffwn ddiolch i aelodau'r cyrff hyn ac i'm cyd-aelodau ar y Bwrdd am eu gwaith a'u cyfraniad yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Edrychaf ymlaen yn fawr at weithio gyda chi yn 2009/10.

**Colette Bowe** Cadeirydd

Datganiad y Prif Weithredwr



# Ed Richards

Yn Ofcom, un o'n nodau yw deall sector cyfathrebu'r DU gystal ag unrhyw un arall. Gwnawn hyn drwy wneud ymdrech enfawr i ddadansoddi'r marchnadoedd yr ydym yn eu rheoleiddio er mwyn canfod tueddiadau newydd, y newidiadau technolegol diweddaraf, newidiadau yn ymddygiad defnyddwyr a chyfnodau newydd yn y sector yr ydym yn ei reoleiddio.

**Erbyn hyn mae gwerth y sector cyfathrebu yn £51.2bn. Felly, mae'n hanfodol ein bod yn deall y sector yn drwyadl er mwyn inni allu creu amgylchedd rheoleiddio sy'n gadael i'r diwydiant ffynnu ac yn gadael i ddefnyddwyr fedi'r manteision.**

Yn ystod y cyfnod sy'n cael sylw yn yr adroddiad hwn, roedd Ofcom yn bum mlwydd oed. Mae seilio ein polisïau a'n penderfyniadau ar dystiolaeth gadarn – yn hytrach nag ar ddamcaniaethu a dyfaliadau gorau – wedi bod yn nodwedd o'n holl waith ers y cychwyn.

Ac Ofcom bellach yn bump oed, mae wedi symud i gyfnod newydd yn ei ddatblygiad.

## Trobwynt o flwyddyn

Credaf i 2008/9 – y flwyddyn pan welwyd Cadeirydd cyntaf Ofcom David Currie yn trosglwyddo'r awenau i Colette Bowe – fod yn drobwynt i'r sefydliad.

Nodweddwyd Cam 1, sef pum mlynedd gyntaf Ofcom, gan y gwaith o ddatrys problemau'r ddau ddegawd blaenorol, ac yn benodol chwalu rhwystrau er mwyn gallu cyflwyno cystadleuaeth. Rydym wedi cael peth llwyddiant yn y maes hwn.

Un o'r ffeithiau mwyaf trawiadol di-sôn-amdano yw bod nifer y llinellau heb eu bwndelu – lle mae darparwr gwasanaeth cyfathrebu'n gosod ei gyfarpar mewn cyfnewidfa ffôn BT ar gyfer cynnig ei wasanaethau adwerthu ei hun – wedi tyfu o lai na chwarter miliwn i bron i chwe miliwn mewn llai na

## Datganiad y Prif Weithredwr

phedair blynedd, canlyniad uniongyrchol ymyrraeth gynnar gan Ofcom.

Byddwn yn parhau â'r ymgyrch hon i hybu cystadleuaeth, i sicrhau y gall defnyddwyr fwynhau manteision dewis, prisiau is ac arloesedd. Byddwn yn anelu at wneud hyn lle mae'n briodol ar draws y sector cyfathrebu, gan gynnwys meysydd megis cynnwys teledu talu premiwm ac yn ein gwaith i osod prisiau cyfanwerthu cynaliadwy i gael mynediad i rwydwaith copr BT.

### Cefnogi defnyddwyr

Rydym hefyd wedi gwella wrth ddiogelu buddiannau defnyddwyr.

Yn y maes telegyfathrebu, rydym wedi cymryd camau i wneud cyflymderau bang eang yn fwy tryloyw. Rydym wedi mynd i'r afael â cham-werthu, gyda rheolau newydd a chamau gorfodi llym. Ac rydym yn gweithio i sicrhau y gellir defnyddio ffonau symudol ar y rhwydweithiau sydd ar gael er mwyn delio â galwadau i'r gwasanaethau brys.

Yn y maes darlledu, rydym wedi helpu i adfer hyder pobl mewn rhaglenni ffonio i mewn ar y teledu ac wedi cyflwyno sancsiynau i helpu i gynnal safonau uchel ar y teledu a'r radio. Ac rydym wedi sicrhau darllediadau Manylder Uwch drwy'r erial teledu – rhywbeth y dywedwyd wrthym nad oedd yn bosibl ei wneud llai na blwyddyn yn ôl.

### Annog Buddsoddi

Ond yn 2008/9 fe symudasom i gyfnod newydd yn ein gwaith. Mae hyn yn cynnwys cynnal a datblygu cystadleuaeth a *hefyd* hybu'r buddsoddiad sy'n ofynnol i gyflwyno'r genhedlaeth nesaf o rwydweithiau a gwasanaethau ar gyfer y DU.

Mae'r ail gyfnod hwn yn bwysig iawn gan fod economi'r DU mewn dirwasgiad, sy'n rhoi pwysau ar gwmnïau i dorri costau a chyfyngu ar fuddsoddi.

Mae ein datganiad ym Mawrth 2009 ar fand eang cyflym iawn yn enghraifft dda o brosiect sy'n adlewyrchu'r cam newydd hwn o'n gwaith. Mae'n cynnig ysgogiad i fuddsoddi drwy gael gwared â rhwystrau rheoleiddio er mwyn caniatáu i gwmnïau fuddsoddi mewn rhwydweithiau band eang a fydd yn gallu darparu cyflymderau 10 gwaith yn fwy na lefel gwasanaethau heddiw.

Yn ystod y flwyddyn dan sylw, cafwyd rhai arwyddion calonogol iawn bod cwmnïau'n fodlon buddsoddi tra mae'r economi'n dirywio'n gylchol. Dechreuodd Virgin Media gyflwyno ei rwydwaith cyflym iawn ei hun, cyhoeddodd BT gynllun buddsoddi sylweddol, a dechreuodd nifer o gwmnïau llai datblygu rhwydweithiau ar raddfa leol a rhanbarthol.

Yn 2008/9 fe wnaethom gynnydd hefyd gyda'r gwaith sydd ar y gweill i ryddhau rhywfaint o'r sbectrwm radio mwyaf gwerthfawr – y deunydd crai sy'n gallu darparu amrywiaeth o wasanaethau di-wifr megis band eang, teledu, fideo a radio.

Ar gyfer band eang cyflym iawn a sbectrwm, mae ein nod yn syml iawn. A'r nod hwnnw yw creu fframwaith sy'n hyrwyddo buddsoddi, gan sicrhau'r un pryd y gall cystadleuaeth ffynnu.

### Cynnal darlledu gwasanaeth cyhoeddus

Ar gyfer darlledu gwasanaeth cyhoeddus, sy'n wynebu heriau strwythurol enfawr yn ogystal â heriau cylchol, mae'n rhaid inni fod yn fwy ymarferol.

Ym mis Ionawr 2008, cyhoeddasom ein glasbrint ar gyfer darlledu gwasanaeth cyhoeddus am y degawd nesaf. Roedd hwn yn rhoi sylw i'r her ganolog o sut y gallai system gref a llwyddiannus yn hanesyddol lywio o'r analog i'r digidol.

Roedd ein glasbrint yn cynnwys cyfres o fesurau tymor byr i ryddhau'r rhwydweithiau masnachol er mwyn iddynt allu gwneud y mathau o raglenni y mae gan y gwylwyr feddwl mawr ohonynt.

### Llais gwasanaeth cyhoeddus gwahanol yn lle'r BBC

Roedd y datganiad yn cynnwys cyfres o argymhellion yn y tymor hwy i'r Llywodraeth a'r Senedd ar ddull newydd o ddarparu darlledu gwasanaeth cyhoeddus ar ôl 2012. Roedd hyn yn cynnwys cynlluniau ar gyfer ail sefydliad darlledu gwasanaeth cyhoeddus o gwmpas Channel 4. Fe wnaethom argymell y gellid ei greu drwy ffurfio partneriaethau, mentrau ar y cyd neu gyfuno, a hynny rhwng Channel 4 a sefydliadau eraill.

Datganiad y Prif Weithredwr

## Darparu newyddion yn y gwledydd a'r rhanbarthau

Roedd ein glasbrint hefyd yn cyflwyno cynigion ar gyfer consortia newyddion wedi'i ariannu'n annibynnol, wedi'i ariannu drwy dendro cystadleuol ac â slot darlledu ar Channel 3 yn ddelfrydol.

Rydym yn awr yn gweithio gyda'r Llywodraeth i fwrw ymlaen â'r argymhellion i helpu i gyflawni gweledigaeth o gynnwys darlledu gwasanaeth cyhoeddus amrywiol, bywiog a diddorol ar draws ystod o gyfryngau digidol.

## Mwy am lai

Ariennir Ofcom gan daliadau oddi wrth drwyddedigion darlledu a darparwyr gwasanaethau cyfathrebu, yn ogystal â thaliadau ar gyfer rheoli sbectrwm y DU a grantiau gan y llywodraeth am brosiectau penodol.

Oherwydd bod ein gweithgareddau'n cael effaith uniongyrchol ar linell waelod y cwmnïau yr ydym yn eu rheoleiddio ac ar y pwrs cyhoeddus, rydym wastad wedi ymrwymo i leihau ein costau gweithredu i'r eithaf drwy weithredu mor effeithlon ag y bo modd. Mae ein record yn dangos hyn.

Yn y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2009 gwnaethom arbedion o £6.1 miliwn yn erbyn ein cyllideb ar gyfer 2008/9, gyda'r alldro'n £127.6 miliwn o'i gymharu â'n cyllideb o £133.7 miliwn. Ad-dalwyd yr arbediad hwn yn uniongyrchol i randdeiliaid, gan gynnwys arbediad £4.9 miliwn i'r trethdalwr.

Hefyd, fe wnaethom barhau â'n hymrwymiad i leihau ein baich drwy gyhoeddi toriad tebyg-am-debyg am y pumed tro'n olynol yn ein cyllideb weithredu flynyddol.

Mae ein cyllideb ar gyfer 2009/10 yn £136.8 miliwn. Dyma gynnydd £3.1 miliwn ar gyllideb 2008/9, ond mae'n cynnwys paratoi ar gyfer integreiddio Postcomm a chynllunio'r defnydd o'r sbectrwm ar gyfer Gemau Olympaidd a Gemau Paralympaidd Llundain yn 2012, gyda gwaith sylweddol yn dechrau yn 2009/10. Heb y cyfrifoldebau ychwanegol hyn, byddai ein cyllideb wedi gostwng gan £4.7 miliwn.

Ar sail tebyg-am-debyg, mae ein cyllideb bellach 4 y cant yn is o ran ei gwir werth nag yn 2008/09 a 21 y cant yn is o ran ei gwir werth na chyllideb wreiddiol Ofcom a osodwyd yn 2004/05.

Trwy gymryd y mesurau hyn, a thrwy ganolbwyntio ar werth am arian yn ogystal ag ansawdd ein gwaith, rydym wedi llwyddo i wneud mwy am lai. Yn ystod y pum mlynedd diwethaf, rydym yn gynyddol wedi lleihau ein cost i randdeiliaid o £117 miliwn, gan gynnwys arbedion o ryw £68 miliwn i drethdalwyr.

Mae'r adroddiad hwn yn cael ei gyhoeddi pan mae rhagor o bwysau ar gyllid cyhoeddus ac ar lawer o gwmnïau yn y sector cyfathrebu. Rydym yn wynebu'r cyfnod cyntaf o chwyddiant negyddol ers 1960.

Oherwydd y rhesymau hyn, penderfynodd Pwyllgor Taliadau Ofcom ar ôl y cyfnod sy'n cael ei arolygu, rewi cyflogau staff yn 2009/10. Hefyd, cytunodd pum aelod Pwyllgor Gweithredol Ofcom na ddylent gael eu hystyried ar gyfer bonws yn 2009/10 a lleihau'r cyfanswm a bennir ar gyfer bonysau 50 y cant. Mae hyn yn adlewyrchu ein barn gref y dylai Ofcom ymateb i'r amgylchiadau economaidd ehangach y mae ein rhanddeiliaid yn eu hwynebu.

## Darparu'r post a mynd i'r afael â lladrad (piracy)

Yn ystod 2008/9, cyhoeddwyd y dylai Ofcom ysgwyddo'r cyfrifoldeb am reoleiddio gwasanaethau post. Hwn oedd un o brif argymhellion Adolygiad Hooper a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2008, a dderbyniwyd gan y Llywodraeth.

Disgwyliwn ysgwyddo'r holl gyfrifoldeb yn 2009/10 unwaith y bydd y Mesur Gwasanaethau Post wedi cael Cydsyniad Brenhinol. Drwy hyn bydd pwerau'n cael eu trosglwyddo'n ffurfiol o'r corff rheoleiddio presennol, Postcomm, i Ofcom.

Rydym hefyd wedi ymgymryd â rôl newydd yn mynd i'r afael â lladrad anghyfreithlon ar y rhyngrwyd, drwy gefnogi menter gan y Llywodraeth a'r diwydiant i sefydlu côd ymarfer i fynd i'r afael â'r broblem.

## Datganiad y Prif Weithredwr

### Creu Prydain Ddigidol

Cyflwynodd y Llywodraeth gynigion ychwanegol i Ofcom chwarae rhan ehangach yn mynd i'r afael â lladrad fel rhan o'i menter Prydain Ddigidol, gyda'r adroddiad cyntaf wedi'i gyhoeddi ym mis Ionawr 2009.

Dyma fenter i'w chroesawu. Mae Prydain Ddigidol, dan arweiniad cyn gydweithiwr i mi yn Ofcom, yr Arglwydd Carter, yn gosod gweledigaeth ar gyfer dyfodol digidol y DU, gan roi sylw'n benodol i feysydd allweddol y mae'r Llywodraeth yn gwneud penderfyniadau yn eu cylch.

Mae hyn yn cynnwys rhyddhau sbectrwm i hybu band eang symudol a gwasanaethau eraill. Mae'r fenter yn rhoi cyfle i ddod o hyd i ateb sydyn i nifer o faterion cymhleth, a fydd, yn y pendraw, yn dod â budd i ddefnyddwyr pan fydd gwasanaethau newydd yn cael eu lansio a fydd yn manteisio ar y sbectrwm hwn.

Mae Prydain Ddigidol yn mynd i'r afael â'r syniad o fand eang a fydd ar gael i bawb. Â band eang bellach yn rhan hanfodol o fod wedi cysylltu, mae Colette a minnau wedi dangos cefnogaeth yn gyhoeddus i'r gwaith o archwilio i'r mater hwn.

Rwy'n falch hefyd fod y Llywodraeth wedi ymrwymo i sicrhau dyfodol darlledu gwasanaeth cyhoeddus a'i bod yn gwneud defnydd o'n hadolygiad cynhwysfawr ni.

Rydym hefyd yn croesawu pwyslais y Llywodraeth o'r newydd ar lythrennedd yn y cyfryngau – rhywbeth y mae Ofcom wedi'i hyrwyddo'n llwyddiannus ers pum mlynedd – gyda'r cyfle i fynd â'r syniad hwn i lefel newydd.

### Cynllun gwaith am y flwyddyn

Rydym wedi cyhoeddi ein Cynllun Blynyddol ar gyfer 2009/10, sy'n gosod ein blaenoriaethau am y flwyddyn.

Crynhoir y rhain drwy gyfrwng y themâu canlynol:

- Sbarduno dull gweithredu seiliedig-ar-y-farchnad ar gyfer sbectrwm. Mae hyn yn cynnwys rhyddhau sbectrwm – gan gynnwys y Difidend Digidol – a fydd yn cael ei ryddhau drwy drosglwyddo'n gyfan gwbl i deledu digidol, hyrwyddo masnach a pharhau â'r broses ryddfrydoli.
- Hyrwyddo cystadleuaeth ac arloesedd mewn marchnadoedd sy'n cydgyfeirio. Mae hyn yn cynnwys annog cystadleuaeth mewn telegyfathrebiadau sefydlog a'r sector teledu talu, cael proses reoleiddio glir ar gyfer rhwydweithiau craidd a mynediad cenhedlaeth nesaf, ac asesu ein dull rheoleiddio yng nghyswllt y sector symudol.
- Cyflenwi amcanion budd y cyhoedd wrth i lwyfannau a gwasanaethau gydgyfeirio. Mae hyn yn cynnwys gweithio gyda'r Llywodraeth a'r Senedd ar sut y dylid darparu darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn y dyfodol, datblygu dull gweithredu ar gyfer datblygu gwasanaethau radio, cynnal adolygiad o'r Côd Darlledu, a hyrwyddo mynediad a chynhwysiant.
- Grymuso dinasyddion a defnyddwyr a gwella cydymffurfiad rheoleiddiol. Mae hyn yn cynnwys hyrwyddo llythrennedd yn y cyfryngau, datblygu a gorfodi polisïau diogelu defnyddwyr, gorfodi materion cystadleuaeth a datrys anghydfodau, a hyrwyddo gwybodaeth i ddefnyddwyr a gwella'r gweithdrefnau newid.

Mae ein Cynllun yn cynnwys dau weithgarwch ychwanegol: cynllunio ar gyfer defnyddio'r sbectrwm ar gyfer Gemau Olympaidd a Pharalympaidd Llundain yn 2012 ac integreiddio Postcomm.

Credaf y bydd ein cynllun gwaith helaeth ni, ynghyd â Phrydain Ddigidol, sy'n manteisio ar bwerau deuol y Ddeddf Cyfathrebiadau a deddfwriaeth arall y tu allan i gylch gwaith Ofcom, yn dylanwadu ar nifer o faterion hollbwysig yn y sector cyfathrebu yn y flwyddyn i ddod.

**Ed Richards** Prif Weithredwr

I gael rhagor o fanylion am waith Ofcom yn 2008/9, gweler Adran B yr adroddiad hwn, yn dechrau ar dudalen 13.



# Philip Graf

Blwyddyn o newid amlwg a blwyddyn o lanw a thrai fu hon o ran cynnwys y cyfryngau: newid ym mhatrymau gwylio a gwrando, mwy o symud drosodd i lwyfannau digidol, ar-lein a symudol; cynllunio ar gyfer y newid yn strwythurau'r diwydiant drwy gyfrwng adolygiad Ofcom o Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus, a hynny'n arwain at brosiect Prydain Ddigidol y Llywodraeth; ac yn anad dim y newid yng ngallu ariannol cwmnïau masnachol i ddarparu cynnwys, gyda'r cyfryngau a noddir drwy hysbysebion yn dioddef yn enbyd ac yn fuan wrth i'r DU fynd ar ei phen i ddirwasgiad.

**Cylch gorchwyl y Bwrdd Cynnwys yw bod wrth wraidd datblygu polisïau Ofcom a'i broses penderfynu ynglŷn â chynnwys. Mae gan aelodau'r Bwrdd amrywiaeth o feysydd arbenigedd i'w cynnig yn y maes hwn – yn y cyfryngau traddodiadol ac yn y ffurfiau mwy newydd, ac maent yn cynrychioli buddiannau cynulleidfaoedd. A minnau'n Gadeirydd y Bwrdd Cynnwys ac yn Ddirprwy Gadeirydd prif Fwrdd Ofcom, fy swyddogaeth i yw sicrhau bod y prif fwrdd yn cadw golwg manwl ar waith y bwrdd Cynnwys, a bod ei drafodaethau a'i benderfyniadau'n ganolog i weithgareddau Ofcom. Gallaf gadarnhau mai felly y mae.**

**Yn benodol, cyfrifoldeb y Bwrdd Cynnwys yw dylanwadu ar lefelau uwch yn Ofcom – gan adlewyrchu safbwyntiau gweldydd a rhanbarthau'r DU. Mae gan bob un o'r pedair gwlad aelod i'w chynrychioli.**

## Cynnal safonau

Roedd y Bwrdd Cynnwys yn goruchwylio gwaith Ofcom o ran safonau darlledu – gofynion y Côd, gan gynnwys, er enghraifft, osgoi niwed a thramgwydd, pleidgarwch gwleidyddol a cham-fanteisio'n fasnachol ar wrandawyr a gwylwyr. Ceir rhagor o fanylion am ymdrin ag achosion sy'n ymwneud â safonau ar dudalen 49 yr Adroddiad Blynyddol hwn.

Mae'r rhan fwyaf helaeth o'r cynnyrch darlledu'n cydymffurfio â'r Côd. Serch hynny, yn yr enghreifftiau cymharol brin hynny lle nad yw'r deunydd yn cydymffurfio, ac yn ddifrifol felly, bydd gan aelodau'r Bwrdd Cynnwys hynny sy'n ymuno â'r Pwyllgor Sancsiynau ar Gynnwys, pwyllgor y byddaf i'n ei gadeirio, gyfrifoldeb arbennig. Yn ystod y flwyddyn, sancsiynwyd 30 o achosion gan y Pwyllgor. Roedd y sancsiynau hynny'n amrywio o gyfarwyddyd i'r BBC ddarlledu datganiad ynglŷn â'n canfyddiadau gyda golwg ar iaith dramgwyddys a ddarlledwyd cyn y trothwy

Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Cynnwys

naw o'r gloch ar *Live Earth*, i ddirwy o £3,000,000 i un o drwyddedeion ITV, LWT, am gamymddwyn a hynny'n gysylltiedig â gwasanaethau ffôn premiwm ar *Ant and Dec's Saturday Night Takeaway*. Mae Ofcom wedi cymryd camau yn amodau newydd y drwydded darlledu er mwyn atal camymddwyn pellach yn y meysydd hyn.

Roedd nifer o faterion a oedd yn ymwneud â chystadlaethau ac â llinellau ffôn y gyfradd bremiwm yn berthnasol i'r BBC. Mewn achosion a oedd yn ymwneud â'r BBC, roeddem yn arbennig o ymwybodol, er bod y Senedd wedi gosod dyletswydd glir arnom i gosbi'r BBC os byddant yn torri'r rheolau'n ddifrifol, bod eu dirwyo'n tynnu arian oddi ar wasanaethau i'r sawl sy'n talu ffi'r drwydded (er bod yr arian yn cael ei dalu'n ôl i'r Trysorlys, ac felly i drethdalwyr). Felly, mae'r dirwyon a godir ar y BBC yn llai na'r dirwyon a godir ar wasanaethau masnachol.

Hefyd, gosododd Ofcom sancsiynau am y tro cyntaf ar gwmnïau am fethu â chyflawni'r gofynion o ran eu cwota rhaglenni. Rhoddwyd cosbau ariannol i ITV plc ac i drwyddedeion eraill Sianel 3 am fethu droeon â chyflawni'r cwota gwario ar raglenni a wneir i'r rhwydwaith y tu allan i'r M25.

Cyfrifoldeb allweddol arall yw amddiffyn y rheini sy'n ymwneud yn uniongyrchol â rhaglenni. Bu fy nghyd-aelod ar y bwrdd Cynnwys, Kath Worrall, yn cadeirio'r Pwyllgor Tegwch; y Dirprwy Gadeirydd yw Richard Ayre. Y Pwyllgor hwn yw'r corff uchaf sy'n gwneud penderfyniadau yn Ofcom ynglŷn ag achosion Tegwch a Phreifatrwydd; bu'n ymwneud ag 17 o achosion, a chadarnhawyd 9 o'r rheini, naill ai'n llwyr neu'n rhannol.

## Canolbwyntio ar y gwledydd a'r rhanbarthau

Yn ystod 2008/9, bu aelodau cenedlaethol y Bwrdd Cynnwys yn cynnal cynadleddau yng Nghaeredin, yng Nghaerdydd ac ym Melfast. Cynhaliwyd cyfarfodydd y Bwrdd hefyd yng Nghaeredin, yng Nghaerdydd ac ym Manceinion, ac roedd yr olaf o'r rheini'n cyd-daro â chynhadledd teledu'r gwledydd a'r rhanbarthau yn Salford. Mae'r aelodau cenedlaethol, ynghyd â chyd-aelodau eraill y Bwrdd Cynnwys, wedi bod yn weithgar iawn hefyd yn rhoi tystiolaeth i ddeddfwrfeydd a llywodraethau'r gwledydd datganoledig, ac yn cynnal cysylltiadau â'r llywodraethau hynny.

Gwnaeth y ddeialog hon ar lefel y gwledydd gyfraniad gwerthfawr i'r Adolygiad Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus, yn benodol o ran cynigion Ofcom ar gyfer Consortia Newyddion sy'n cael Nawdd Annibynnol. Bydd y rhain yn sicrhau bod gwasanaethau newyddion o safon yn dal i gael eu darparu ar gyfer y gwledydd a'r rhanbarthau, pan na fydd modd cynnal model Sianel 3 fel y mae ar hyn o bryd – ac mae'r pwynt hwnnw'n prysur nesáu. Byddai'r consortia'n defnyddio ffurfiau newydd ar wasanaethau ariannol ac, o bosib, yn defnyddio ystod eang o ddarparwyr – y wasg ranbarthol, er enghraifft. Byddent yn darparu gwasanaethau dros amrywiaeth o lwyfannau, nid dim ond ar deledu llinellol. Bu'r ddeialog hon gyda'r gwledydd yn sbardun hefyd i'n cynigion ar gyfer sefydlu cronfeydd yn y gwledydd i gefnogi cynnwys ar wahân i newyddion, megis drama ac adloniant. Yn yr Alban, mae hyn yn adeiladu ar gysyniad Rhwydwaith Digidol Comisiwn Darlledu'r Alban.

Aeth yr adolygiad o Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus i'r afael hefyd â'r problemau tymor byr sy'n pwyso ar Sianel 3 yn y gwledydd a'r rhanbarthau. Mae angen i Ofcom gysoni'r costau a ysgwyddir gan ddarlledwyr yn sgil eu dyletswyddau Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus wrth i'r asedau sy'n gwneud y trwyddedau'n werth eu cadw gan y darlledwyr golli eu gwerth. Cynhaliwyd ein dadansoddiad economaidd ar gefnlen lle mae'r farchnad yn prysur ddirywio o ran refeniw hysbysebion darlledu. Er ein bod yn cydnabod bod angen toriadau sylweddol yn lefel yr adnoddau'n gyffredinol, lluniwyd ein newidiadau i'r dyletswyddau dan y drwydded er mwyn manteisio i'r eithaf ar adnoddau newyddiadurol ar lawr gwlad, a hefyd ar nifer y gwasanaethau rhanbarthol ac isranbarthol ar wahân sydd ar gael, wrth inni ddisgwyl am yr ateb mwy hirdymor y cyfeiriwyd ato uchod.

Bydd atebion tymor hwy hefyd yn cynnwys cyfryngau ar y lefel leol fwy penodol. Mae aelodau'r Bwrdd Cynnwys yn ymwneud llawer ag Adolygiad o Gyfryngau Lleol Ofcom, a lansiwyd ddiwedd 2008/9.

## Datblygu radio ar draws y DU

Ymunodd rhai o aelodau'r Bwrdd Cynnwys â mi ar y Pwyllgor Trwyddedu Radio, sef Pam Giddy, Stewart Purvis a Joyce Taylor, ochr yn ochr â chydweithwyr o Ofcom. Yn ystod 2008/2009 dyfarnodd y Pwyllgor drwyddedau radio masnachol lleol FM newydd ar gyfer Plymouth a Gogledd a Chanolbarth Cymru. Y rhain

fydd y trwyddedau radio masnachol FM olaf am y tro. Dyfarnwyd tair trwydded radio lleol DAB; a'r rhain hefyd fydd yr olaf am y tro. Fodd bynnag, mae radio cymunedol wedi dal i ehangu ar garlam, gyda 25 o drwyddedau newydd am leoedd yng Nghanolbarth, De a Dwyrain Lloegr. Y pwysau ariannol ar y diwydiant radio masnachol oedd rhai o'r ffactorau a arweiniodd at bedwar cais am newid fformat rhaglenni neu am gydleoli stiwdios.

Cynigiodd Ofcom ei gynigion ar gyfer Radio yn y Brydain Ddigidol i'r Llywodraeth.

## Sicrhau llythrennedd yn y cyfryngau

Un o gyfrifoldebau mawr Ofcom yw hybu llythrennedd yn y cyfryngau, ac mae hyn yn cael ei ddirprwyo i'r Bwrdd Cynnwys gan y prif Fwrdd. Ddechrau'r flwyddyn, cyfrannwyd at adolygu blaenoriaethau Ofcom o ran llythrennedd yn y cyfryngau, drwy ffurfio is-grŵp i dywys y tîm llythrennedd yn y cyfryngau. Yn rhan ola'r flwyddyn, cyfrannodd y Bwrdd Cynnwys at Weithgor Llythrennedd yn y Cyfryngau Prydain Ddigidol wrth ddrafftio'r cyngor ar Gynllun Cenedlaethol ar gyfer Llythrennedd yn y Cyfryngau. Cyfrannodd y Bwrdd Cynnwys yn sylweddol hefyd at ymchwil ym maes llythrennedd yn y cyfryngau, ac, yn benodol at ail don yr Archwiliad i Lythrennedd yn y Cyfryngau.

## Hybu hyfforddiant a chyfle cyfartal

Mae'n ddyletswydd ar Ofcom i hybu cyfle cyfartal i bobl sy'n gweithio yn y sector darlledu o ran hyfforddiant. Yn 2005, sefydlwyd corff cyd-reoleiddio – Corff Rheoli Hyfforddiant a Sgiliau ym maes Darlledu (BTSR) – i fynd ar drywydd yr amcan hwn gyda'r darlledwyr. Ym mis Medi 2008, cwblhaodd y Bwrdd Cynnwys adolygiad o dair blynedd cyntaf cyd-reoeleiddio yng ngoleuni'r amcanion a bennwyd gan ei bartneriaid yn y system cyd-reoleiddio. Gwelsom, er mai megis dechrau datblygu yr oedd cyd-reoleiddio o hyd, ei fod eisoes yn cyflawni mwy nag yr oedd y rheoleiddio uniongyrchol gynt, o ran gwella a dadansoddi'r adborth ynglŷn ag anghenion hyfforddi darlledwyr.

Mae'r 12 mis diwethaf wedi bod yn drobwynt o ran sut mae Ofcom yn hybu datblygu cyfle cyfartal – o ran rhyw, ethnigrwydd ac anabledd – yn y sector darlledu. Ar ôl ymgynghori'n eang â'r partïon perthnasol, casgliad y Bwrdd Cynnwys oedd nad oedd y trefniadau blaenorol yn ddigonol ac y gallai fod manteision sylweddol o fynd ati mewn ffordd wahanol, sef cyd-reoleiddio. Ym mis Gorffennaf 2008, gwahoddwyd y BTSR i lunio cynigion ar gyfer cyd-reoleiddio, a fyddai'n cynnwys darlledwyr a grwpiau buddiant eraill. Cadarnhawyd cynigion ar gyfer cyd-reoleiddio gan y Bwrdd i ddechrau ar 1 Ebrill 2009.

## Gwaith y Bwrdd Cynnwys


Yn sgil y cyfuniad o wahanol bwyllgorau y bu'r Bwrdd Cynnwys yn ymwneud ag ef, y gwahanol grwpiau prosiect y bu'r aelodau'n cyfrannu atynt, a'r cyfarfodydd gwneud penderfyniadau a llunio polisi misol rheolaidd, roedd y llwyth gwaith yn eithaf sylweddol ac yn tyfu o hyd. Er enghraifft, roedd y 30 achos sancsiynu a wrandawyd yn gynnydd ar yr 11 a gafwyd yn y flwyddyn flaenorol. Roedd y llwyth gwaith hwn yn arbennig o drwm i'r aelodau anweithredol. Rwyf yn ddiolchgar iawn felly am gefnogaeth barhaus fy nirprwy Adam Singer, a'r tîm sefydlog – a thalentog iawn – o aelodau drwy'r flwyddyn.

**Philip Graf** Cadeirydd, Bwrdd Cynnwys

# Adran B


Mae'r adran hon o'r adroddiad Blynyddol yn disgrifio prif feysydd gwaith Ofcom rhwng mis Ebrill 2008 a mis Mawrth 2009.

Fe'i trefnir dan rai o'r meysydd blaenoriaeth a geir yng Nghynllun Blynyddol Ofcom ar gyfer 2008/9.





Dyma'r meysydd hynny:

- Bwrw ymlaen ag ymagwedd at y sbectrwm sy'n seiliedig ar y farchnad
- Hybu cystadleuaeth ac arloesi mewn marchnadoedd sy'n cydgyfeirio
- Gwireddu amcanion budd cyhoeddus wrth i blatfformau a gwasanaethau gydgyfeirio
- Grymuso dinasyddion a defnyddwyr a gwella'r cydymffurfio rheoleiddiol lle bo angen
- Lleihau rheoleiddio a sicrhau cyn lleied o feichiau gweinyddol ag y bo modd
- Sicrhau cymaint o ddylanwad ag y bo modd ar ddatblygu polisi rhyngwladol



# **Bwrw ymlaen** ac ymagwedd at y sbectrwm sy'n seiliedig ar y farchnad




## Rhyddhau'r sbectrwm ar gyfer arloesi

### Y DIFIDEND DIGIDOL

Mae'r DU yn troi'n ddigidol. Mae gan oddeutu 89 y cant o aelwydydd deledu digidol ac mae'r nifer honno'n codi bob mis wrth inni ddynesu at 2012, pan fydd y DU yn troi'n llwyr at ddarlledu teledu digidol.

Mantais amlwg newid i'r digidol yw y bydd mwy o sianeli ar gael – gydag oddeutu 17 ar Freeview a mwy o lawer ar loeren a chebl.

Ond mae un fantais fawr arall na ddaw'n amlwg ar unwaith. Bydd y newid yn rhyddhau rhywfaint o'r sbectrwm radio mwyaf gwerthfawr i'w ddefnyddio at ddibenion newydd.

Mae'r sbectrwm yn adnodd cyfyngedig hynod werthfawr. Dyma'r deunydd crai hanfodol ar gyfer pob gwasanaeth di-wifr. Mae Ofcom yn paratoi ar gyfer rhyddhau'r sbectrwm a fydd ar gael yn sgil y newid – a gelwir hynny'n ddifidend digidol.

Y llynedd, penderfynwyd y dylid rhyddhau'r rhan fwyaf o'r sbectrwm drwy arwerthiant.

Eleni, rydym wedi bod yn paratoi'r tir drwy gynnal amrywiaeth o ymgynghoriadau. Roedd un o'r rheini'n ystyried sut y dylid pecynnu'r sbectrwm i'w ddyfarnu a chynigiwyd cyfyngu ar faint o'r difidend digidol y gallai un sefydliad ei feddu, er mwyn ceisio sicrhau cystadleuaeth iach o ran ei ddefnyddio. Roedd un arall yn rhestru cynigion ar gyfer sefydlu 'rheolwr bandiau' i ofalu am anghenion sbectrwm grŵp penodol o ddefnyddwyr – gwneuthurwyr rhaglenni a threfnwyr digwyddiadau arbennig yn bennaf.

Mewn ymgynghoriad a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2009, rhestrwyd cynigion i gysoni mwy o'r difidend digidol â gwledydd eraill yn Ewrop. Gallai hyn ategu'n sylweddol y potensial o greu gwerth drwy ddefnyddio'r sbectrwm hwn ar gyfer gwasanaethau di-wifr newydd, yn enwedig band eang symudol yn y DU a ledled Ewrop.

### ARWERTHIANT SBECTRWM MWYAF Y DU

Daeth y rhagolygon ar gyfer gwasanaethau band eang symudol cyflym iawn a chanddynt gapasiti mawr iawn yn gliriach o lawer ym mis Ebrill 2008, pan gadarnhaodd Ofcom gynlluniau ar gyfer rhyddhau'r sbectrwm radio mwyaf ar yr un tro yn y DU hyd yn hyn.

Cyhoeddwyd cynllun i gynnal arwerthiant o'r sbectrwm a elwir yn fand 2.6 GHz. Gallai fod sawl ffordd o ddefnyddio'r sbectrwm hwn gan gynnwys gwasanaethau symudol uwch sy'n defnyddio technolegau megis WIMAX ac esblygu technoleg 3G.

Daeth y cynnig i ryddhau'r sbectrwm yn destun camau cyfreithiol yn yr Uchel Lys gan rai gweithredwyr symudol. Ar ôl cyfnod yr Adroddiad Blynyddol dan sylw, gwnaethom gais am ohirio'r achos am gyfnod byr nes cyhoeddi adroddiad terfynol Prydain Ddigidol gan y Llywodraeth. Y rheswm dros hyn oedd bod Prydain Ddigidol yn ymwneud â llawer o'r materion sy'n berthnasol i'r sbectrwm.

Bwrw ymlaen ac ymagwedd at y sbectrwm sy'n seiliedig ar y farchnad

### Y SBECTRWM SYMUDOL

Roedd y potensial ar gyfer gwasanaethau band eang di-wifr cyflymach, mwy dibynadwy ar gyfer pobl ac ar gyfer busnesau'n destun ymgynghoriad gan Ofcom ym mis Chwefror 2009.

Roedd y cynigion yn canolbwyntio ar agor y sbectrwm sydd ar hyn o bryd wedi'i gyfyngu i 2G (a ddefnyddir ar gyfer gwasanaethau llais a gwasanaethau data cyfyngedig) ar gyfer ffyrdd llawer ehangach o'i ddefnyddio, gan gynnwys y rheini y defnyddir mathau 3G ar eu cyfer. Roedd yn adeiladu ar waith cynharach gan Ofcom i ryddhau'r sbectrwm hwn.

Roedd ein hymgynghoriad yn cynnig, yn ogystal ag ehangu defnyddio'r sbectrwm 2G, y dylai dau gwmni – Vodafone ac O2 – ildio rhywfaint o'u sbectrwm er mwyn iddo fod ar gael i weithredwyr eraill ac er mwyn iddo allu cael ei ddefnyddio mewn ffordd fwy effeithlon.

Roedd y cynigion hefyd yn gefnlen i'r trafodaethau a ddigwyddodd dan gynllun Prydain Ddigidol y Llywodraeth gyda'r nod o ryddhau'r dagfa o broblemau a oedd i bob golwg yn effeithio ar y sbectrwm symudol.

## Dyfarnu'r sbectrwm

Parhaodd Ofcom â'i raglen i arwerthu'r sbectrwm eleni. Mae rhyddhau'r sbectrwm drwy arwerthiant yn gymorth i sicrhau ei fod yn mynd i ddwylo'r cyrff hynny'n sy'n rhoi'r gwerth mwyaf arno ac a fydd yn ei ddefnyddio i ddarparu gwasanaethau y mae defnyddwyr yn eu hystyried yn werthfawr iawn.

### DYFARNU'R SBECTRWM L-BAND

Ym mis mai 2008, dyfarnwyd trwydded i Qualcomm UK Spectrum Limited ddefnyddio'r sbectrwm rhwng1452 ac 1492 MHz. Gelwir y sbectrwm hwn yn 'L-Band', ac mae'n addas ar gyfer amrywiaeth o wasanaethau megis teledu symudol, band eang di-wifr a radio lloeren.

### DYFARNU SBECTRWM Y DIFIDEND DIGIDOL

Ddechrau Chwefror 2009, dyfarnodd Ofcom ei sbectrwm difidend digidol cyntaf. Trwydded oedd hon i ddefnyddio ychydig bach o'r sbectrwm rhyngddalennog. Mae hyn yn gweithio fel byffer rhwng trosglwyddyddion teledu er mwyn eu hatal rhag tarfu ar ei gilydd. Mae'r sbectrwm hwn yn addas ar gyfer defnydd pŵer-is.

Dyfarnwyd y drwydded gyntaf i ddefnyddio'r sbectrwm hwn i Channel M Television, sy'n caniatáu i'r orsaf ddarlledu'n ddigidol yn ardal Manceinion.

Dyfarnodd Ofcom drwydded sbectrwm rhyngddalennog debyg hefyd i Cube Interactive Limited i ddarparu gwasanaethau digidol newydd yn ardal Caerdydd.

## Camau gorfodi yng nghyswllt y sbectrwm

### DARLLEDU ANGHYFREITHLON

Parhaodd Ofcom â'i ymdrechion yn ystod 2008/9 i fynd i'r afael â darlledu anghyfreithlon drwy dynnu gorsafoedd radio anghyfreithlon oddi ar yr awyr.

Gall gorsafoedd anghyfreithlon darfu'n ddifrifol ar y systemau radio a ddefnyddir gan wasanaethau diogelu bywyd ac weithiau, gallant foddi gorsafoedd radio cyfreithlon.

Yn ystod y flwyddyn, cymerodd Ofcom 432 o gamau gorfodi unigol yn erbyn darlledwyr anghyfreithlon. Roedd hyn yn cynnwys 26 cyrch ar stiwdios ac atafaelu 406 o drosglwyddyddion anghyfreithlon.

Mewn sawl ymchwiliad, rhaid cyfeirio'r achosion i'r llysoedd a sicrhaodd Ofcom 39 o euogfarnau llwyddiannus yn ystod 2008/09.

### OFFER ANGHYFREITHLON

Mae Ofcom yn gyfrifol hefyd am gymryd camau yn erbyn gwerthu a defnyddio offer nad yw'n cydymffurfio â rheoliadau'r DU ac Ewrop – gall dyfeisiau di-wifr anghyfreithlon darfu ar ddefnyddwyr radio eraill.

Yn ystod 2008/9 canolbwyntiwyd ein gweithgareddau ymchwilio a gorfodi ar werthu offer jamio ffonau symudol a systemau llywio lloerennau ac ar gynnyrch y bwriedir iddynt weithio ar y bandiau anghywir neu ar bŵer gormodol.

Yn ystod y flwyddyn, cymerwyd 106 o gamau gorfodi (gan arwain at 807 eitem o offer anghyfreithlon yn cael eu tynnu oddi ar y farchnad). Sicrhawyd pump euogfarn.

# Hybu **cystadleuaeth ac arloesi** mewn marchnadoedd sy'n cydgyfeirio




## Hybu buddsoddi a chystadleuaeth mewn band eang

### SBARDUNO BAND EANG CYFLYM IAWN

Mae'r wobr yn amlwg: bydd cenhedlaeth nesaf band eang cyflym iawn yn cynnig band eang sydd lawer gwaith yn gyflymach na'r band eang sydd gennym heddiw.

Bydd yn caniatáu i wahanol aelodau ar aelwyd fanteisio ar amrywiaeth o wasanaethau â chanddynt led-band uchel ar yr un pryd. Gallai hyn olygu gwylio teledu manylder uwch, chwarae gemau rhyngweithiol a llifo neu lwytho cerddoriaeth, rhaglenni teledu a ffilmiau i lawr dros y rhyngrwyd.

Yn y gwaith, bydd modd defnyddio gwasanaethau cydamserol megis gwneud galwadau fideo dwy ffordd a gwell ffyrdd o adfer data, yn ogystal â chynnig mwy o gyfleoedd ar gyfer gweithio gartref.

Ar ôl dau ymarfer ymgynghori i geisio barn cwmnïau ac unigolion, cyhoeddwyd ein datganiad yn nodi sut yr eir ati i reoleiddio rhwydweithiau band eang cyflym iawn yn y dyfodol. Agorodd hyn y llwybr i gwmnïau fuddsoddi mewn gwasanaethau band eang cyflym iawn heb ddim rhwystrau rheoleiddiol.

Yn ystod 2008/9 cyhoeddodd BT a Virgin Media gynlluniau i ledaenu rhwydwaith band eang cyflym iawn ledled y DU a dechreuodd nifer o gwmnïau llai datblygu rhwydweithiau lleol a rhanbarthol. Gellir darparu band eang cyflym iawn drwy gyfrwng cysylltiadau ffibrau a cheblau, gwifrau copr, systemau di-wifr sefydlog a lloeren.

Bydd cwmnïau'n gallu darparu band eang y genhedlaeth nesaf mewn dwy ffordd dros rwydwaith mynediad ffibr. Y ffordd gyntaf yw drwy 'fynediad gweithredol', lle bydd darparwyr yn cael mynediad at rwydwaith ffibrau newydd BT ar sail gyfanwerthol drwy brynu cynnyrch gan BT Openreach (cangen mynediad lleol BT). Yr ail 'mynediad goddefol', yw lle y gallai darparwyr gyfuno'u helectroneg hwy eu hunain â'r seilwaith ffisegol a rentir oddi wrth BT er mwyn darparu gwasanaethau.

Roedd ein datganiad yn disgrifio ymagwedd gyffredinol at reoleiddio gwasanaethau band eang cyflym iawn yn y dyfodol. Roedd yn cynnwys pum prif elfen.

Hybu buddsoddi:

- **Rhyddid o ran prisio.** Bydd darparwyr megis BT yn cael y rhyddid i brisio'r cynnyrch cyfanwerthol cyflym iawn sydd ar waith ganddynt ac ni fydd unrhyw ymyrraeth reoleiddiol.
- **Prisio mewnbynnau goddefol sy'n adlewyrchu'r risg.** Os bydd mwy o gystadleuaeth yn codi yn nes ymlaen (gan gwmnïau sy'n cynnig band eang cyflym iawn drwy gyfrwng mynediad goddefol), bydd darparwyr rhwydweithiau'n cael y cyfle i wneud elw sydd yn wir yn adlewyrchu eu costau a'r lefel risg gysylltiedig.
- **Rhwydweithiau effeithlon.** Anogir darparwyr i osgoi aneffeithlonrwydd (megis dyblygu tasgau neu gael systemau cymorth gormodol) a allai greu rhwystr rhag buddsoddi.

Sicrhau cystadleuaeth:

- **Mynediad ar sail gyfanwerthol i bawb.** Byddwn yn mynnu bod Openreach yn cynnig gwasanaethau band eang seiliedig ar ffibrau i ddarparwyr eraill – gan gynnwys i adrannau Manwerthu BT – ar yr un telerau a heb ffafriaeth.
- **Annog cystadleuaeth yn y dyfodol.** Caniateir i gwmnïau fuddsoddi ochr yn ochr â BT pan adeiledir y rhwydweithiau. Hefyd, bydd angen i seilwaith newydd gefnogi rhagor o fuddsoddi cystadleuol, os bydd galw'n codi amdano.

Hybu cystadleuaeth ac arloesi mewn marchnadoedd sy'n cydgyfeirio

### CYNNAL MARCHNAD EFFEITHLON AR GYFER Y GENHEDLAETH BAND EANG BRESENNOL

Hybu cystadleuaeth iach – a'r dewis a'r gwerth cynyddol y mae'n ei gynnig i ddefnyddwyr – sydd wrth wraidd ymagwedd Ofcom at reoleiddio.

Un enghraifft amlwg oedd 'dadfwndelu'r dolenni lleol', sy'n rhoi'r cyfle i ddarparwyr gwasanaethau cyfathrebu i gynnig eu gwasanaethau gan ddefnyddio rhwydwaith copr BT. Ers creu Ofcom, mae'r llinellau heb eu bwndelu wedi tyfu o 123,000 i bron chwe miliwn.

Mae Ofcom yn rheoleiddio'r pris y bydd Openreach yn ei godi ar ddarparwyr eraill am ei wasanaethau cyfanwerthu.

Ym mis Rhagfyr 2008, cynigiwyd ystod newydd o brisiau y caniateid i Openreach eu codi. Cynlluniwyd cynigion i hybu cystadleuaeth barhaus mewn gwasanaethau llais a band eang gan sicrhau ar yr un pryd bod gan Openreach y cymhellion priodol i fuddsoddi yn y gwasanaethau y mae'n eu darparu ar gyfer ei gwsmeriaid.

Roedd y taliadau terfynol i'w pennu yng ngwanwyn 2009 ar ôl ymgynghori â rhanddeiliaid.

### DADREOLEIDDIO BAND EANG GYFANWERTH

Mae Ofcom yn benderfynol o ddadreoleiddio lle bynnag y bo hynny'n briodol. Ym mis Mai 2008, cyhoeddwyd dileu'r rheoliadau ar fynediad at band eang gyfanwerth mewn 70 y cant o'r wlad lle ceir cystadleuaeth iach. Mae'r rhain yn ardaloedd dwys eu poblogaeth, lle ceir cystadleuaeth gref.

Fodd bynnag, mewn ambell ardal, megis Hull, ni cheir cystadleuaeth ar yr un lefel. Mewn ardaloedd o'r fath, mae rheoleiddio'n dal ar waith er mwyn sicrhau bod y ddau ddarparwr mwyaf – BT a KCOM – yn cynnig cynnyrch cyfanwerthu i ddarparwyr eraill ar sail deg a rhesymol.

## Cystadleuaeth effeithiol yn y maes darlledu

### YMCHWILIAD I DELEDU AM DÂL

Yn ystod 2008/9 parhawyd â'n hymchwiliad i'r sector teledu am dâl.

Dilynodd hyn gyflwyniad yn y cyfnod adrodd blaenorol gan BT, Setanta, Top Up TV a Virgin Media yn gofyn am ymchwiliad i'r farchnad.

Ym mis medi 2008 cyhoeddwyd ymgynghoriad i gynigion i gynyddu'r mynediad gan ddefnyddwyr at gynnwys premiwm penodol ar deledu am dâl, megis gemau pêl-droed yr Uwch Gynghrair a ffilmiau Hollywood a ddangosir am y tro cyntaf. Yn benodol, ymgynghorwyd ynglŷn â'n safbwynt bod gan BSkyB bŵer dros y farchnad o ran cyflenwi'r cynnwys hwn ar sail gyfanwerthol, a bod ganddo gymhelliant i gyfyngu ar y dosbarthiad i'w gystadleuwyr.

Ymgynghorwyd hefyd ynglŷn â chynnig y dylai BSkyB ddarparu'r cynnwys hwn yn fwy eang ar sail gyfanwerthol i fanwerthwyr eraill.

Mewn ymgynghoriad ar wahân, ystyriwyd cynnig gan BSkyB ac Arqiva am wasanaethu teledu am dâl newydd ar deledu daearol digidol, dan y teitl "Picnic".

Yng nghyswllt y mater hwn, ymgynghorwyd ynglŷn â chynnig y dylid caniatáu i BSkyB lansio Picnic ar yr amod bod y sianeli premiwm chwaraeon a ffilmiau a gynigir ar gael ar sail gyfanwerthol i fanwerthwyr eraill.

### ASESU EFFAITH Y BBC AR Y FARCHNAD

Ym mis Tachwedd 200, cyhoeddodd Ofcom gasgliadau ei Asesiad Effaith ar y Farchnad gan ystyried effeithiau posibl cynigion y BBC i lansio gwasanaethau fideo ar-lein lleol.

Roedd yr Asesiad yn rhan o Brawf Gwerth Cyhoeddus Ymddiriedolaeth y BBC ar gyfer un o wasanaethau newydd y gorfforaeth, ond fe'i cynhaliwyd yn gwbl annibynnol ar y BBC.

Canfu Ofcom y byddai'r fersiwn well a gynigid ar gyfer gwefannau "Lleol y BBC", a fyddai ar gael ar unrhyw ddyfais a allai gysylltu â'r rhyngrwyd, yn cael effaith sylweddol o negyddol ar ddarparwyr masnachol. Gall refeniw blynyddol ostwng hyd at 4 y cant, ac yn fwy sylweddol, byddai gwasanaethau Fideo Lleol y BBC yn amharu'n sylweddol ar arloesi gan y sector masnachol yn y dyfodol ym maes gwasanaethau newyddion, chwaraeon a thywydd lleol ar-lein.

Ac ystyried ein tystiolaeth, gwrthododd Ymddiriedolaeth y BBC gynigion y BBC yn eu ffurf wreiddiol.

## Sicrhau cystadleuaeth a buddiannau defnyddwyr yn y maes symudol

### ASESU'R SECTOR SYMUDOL

Mae'r sector symudol yn y DU bellach wedi tyfu i'r pwynt lle mae'n fwy tebygol bod ffôn symudol ar aelwyd na ffôn sefydlog.

Mewn poblogaeth o oddeutu 60 miliwn o bobl, ceir dros 70 miliwn o danysgrifiadau ffôn symudol. Mae gan oddeutu 85 y cant o boblogaeth oedolion y DU ffôn symudol ac mae'n ddyfais sy'n cael ei defnyddio

fwyfwy ar gyfer mwy na dim ond gwneud galwadau ffôn. Heddiw, gallwch anfon e-bost, tynnu lluniau, gwrando ar gerddoriaeth, gwylio fideos, storio'ch lluniau, gweld mapiau a mynd ar y rhyngrwyd drwy'ch ffôn symudol wrth ichi symud o le i le.

Sector symudol yn y DU yw un o'r rhai mwyaf cystadleuol yn Ewrop, gyda phum rhwydwaith a nifer o weithredwyr rhith rwydweithiau yn cystadlu i'n denu fel cwsmeriaid.

Mae Ofcom am sicrhau bod y dewis gorau ar gael i ddefnyddwyr a'u bod yn cael gwerth am arian gan eu gwasanaethau symudol, ond eu bod hefyd yn cael eu gwarchod rhag arferion amhriodol megis cam-werthu. Rydym hefyd am sicrhau bod y diwydiant yn dal i ffynnu ac arloesi, a bod cystadleuaeth iach yn sbarduno hynny.

Dyna pam y cyhoeddwyd ein Hasesiad o'r Sector Symudol ym mis Awst 2008. Ymgynghoriad cychwynnol oedd hwn i asesu sut mae'r sector symudol yn diwallu anghenion dinasyddion a defnyddwyr y DU gan ofyn cwestiynau am ddyfodol cystadleuaeth a pholisi rheoleiddio a sut y dylai hyn esblygu.

Yn benodol, roedd yn edrych ar:

- sut y gellir gwneud y rheolau i amddiffyn defnyddwyr yn glir ac yn berthnasol;
- a yw'r system cyfraddau terfynu (y taliadau y bydd gweithredwyr yn eu codi am gysylltu galwadau â rhwydweithiau ei gilydd) yn briodol ar gyfer y dyfodol; a
- sut y gellid mynd i'r afael â 'mannau gwan' (ardaloedd lle nad oes modd defnyddio ffonau symudol).

Cyhoeddwyd mwy o waith am hyn ar ôl y cyfnod dan sylw.

# Gwireddu **amcanion budd cyhoeddus** wrth i blatfformiau a gwasanaethau gydgyfeirio

## Sicrhau dyfodol darlledu cyhoeddus

### GLASBRINT DARLLEDU GWASANAETH CYHOEDDUS OFCOM

Rhowch eich teledu ymlaen heno, fflicíwch drwy'r sianeli o un i bump ac rydych yn debygol o weld arlwy amrywiol a chyfoethog o raglenni teledu darlledu gwasanaeth cyhoeddus.

Newyddion, rhaglenni dogfen, dramâu wedi'u gwneud yn y DU, rhaglenni i blant a rhaglenni sy'n adlewyrchu bywyd yn y DU: dyma'r mathau o raglenni y mae gwylwyr yn rhoi gwerth arnynt yn ôl rhaglen ymchwil fwyaf a gynhaliwyd erioed i geisio barn pobl am y pwnc.

Ym mis Ionawr 2009, cyhoeddwyd *Rhoi Gwylwyr yn Gyntaf*, ein glasbrint ar gyfer cynnal a chryfhau darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn y degawd nesaf wrth iddo lywio dros y bont o'r byd analog i'r byd digidol. Roedd hyn yn dilyn ymgynghoriadau cyhoeddus – y diweddaraf ym mis Medi 2008 – i'n cynigion.

Roedd y glasbrint yn mynd i'r afael â newidiadau strwythurol a chylchol dwys yn y sector darlledu masnachol. Mae'r rhain yn cynnwys newid i'r digidol a'r pwysau ar hysbysebu ar y teledu, a fydd yn creu diffyg o hyd at £235m y flwyddyn erbyn 2012. Oni eir i'r afael â hyn, dim ond ar y BBC y ceir y mathau o raglenni y mae pobl yn rhoi gwerth arnynt, yn ôl yr hyn a ddywedwyd wrthym.

Dyma'n prif argymhellion:

- **Cadw'r BBC wrth wraidd darlledu cyhoeddus**, gyda ffi'r drwydded yn talu amdani.
- **Rhyddhau ITV a Five fel rhwydweithiau masnachol cryf**, a fyddai'n gwneud cynnwys o'r DU sy'n cynnig adloniant ac yn meithrin cysylltiad â'r gynulleidfa, gan gynnwys newyddion cenedlaethol a rhyngwladol, ond heb fawr o ymrwymiadau gwasanaeth cyhoeddus.

Gwireddu amcanion budd cyhoeddus wrth i blatfformiau a gwasanaethau gydgyfeirio

- **Gwarantu dewis o ran darlledu newyddion** yn yr Alban, yng Nghymru ac yng Ngogledd Iwerddon ac yn rhanbarthau Lloegr drwy gynllunio ar gyfer ffordd newydd o ddarparu newyddion, drwy gyfrwng consortia a ariennir drwy dendr cystadleuol.
- **Sianel 4:** creu llais gwasanaeth cyhoeddus cryf amgen i'r BBC, gyda Sianel 4 wrth ei wraidd – a gorau oll os digwydd hynny drwy gyfrwng partneriaethau, cydfentrau neu hyd yn oed drwy uno cwmnïau.
- **Rhaglenni plant a rhaglenni heblaw am newyddion i'r gwledydd datganoledig:** ystyried ariannu ar gyfer cynnwys, os na fydd argymhellion eraill yn diwallu anghenion gwylwyr ac os gellir dod o hyd i adnoddau.

Dywedasom fod angen i'r Llywodraeth benderfynu ynglŷn â llawer o'r materion hyn yn ystod y flwyddyn nesaf gan nad oes modd cynnal y model darlledu gwasanaeth cyhoeddus presennol. Mae Ofcom yn awr yn gweithio gyda'r Llywodraeth i fwrw ymlaen â'r argymhellion.

Cyhoeddwyd hefyd nifer o newidiadau a roddid ar waith ar unwaith, newidiadau a gynigid yn yr ymgynghoriad ym mis Medi 2008, i ganiatáu ar gyfer ad-drefnu newyddion rhanbarthol ITV yn Lloegr ac yn ardal Ffin yr Alban.

Bydd hyn yn sicrhau bod ITV yn blaenoriaethu rhaglenni y mae cynulleidfaoedd yn rhoi'r gwerth mwyaf arnynt, megis newyddion rhanbarthol ar oriau brig a chynnwys gwreiddiol o'r DU.

### TELEDU MANYLDER UWCH AR FREEVIEW

Mae Teledu Daearol Digidol yn un o hanesion llwyddiant darlledu'r oes fodern, gyda Freeview bellach mewn 17.7 miliwn o gartrefi yn y DU.

Mae Ofcom yn adeiladu ar sail y llwyddiant hwnnw drwy ad-drefnu'r ffordd y darlledir y sianeli dros y tonnau i greu capasiti ychwanegol ar gyfer sianeli teledu Manylder Uwch newydd.

Ym mis Hydref 2008, cyhoeddodd Ofcom y byddai capasiti'n cael ei neilltuo ar gyfer Sianel 4/S4C ac i Drwyddedeion Sianel 3 ddarlledu gwasanaethau Manylder Uwch ar Freeview.

Byddant yn ymuno â'r BBC i lansio tri gwasanaeth Manylder Uwch ar deledu daearol digidol. Disgwylir i hyn ddechrau yn rhanbarth Granada yn hydref 2009, ac iddo gael ei ledaenu drwy'r wlad pan gwblheir y newid i'r digidol yn 2012.

## Hysbysebu ar y teledu ar gyfer yr oes ddigidol

Yn ystod 2008, cynhaliwyd Adolygiad dau gam gan Ofcom ar Reoleiddio Hysbysebu ar y Teledu. Yn benodol, roedd yn canolbwyntio ar sut yr amserlennir hysbysebu, ac ar faint o hysbysebu a thelesiopa a ganiateir ar y teledu.

Ym mis Gorffennaf, cyhoeddwyd côd byrrach a symlach sy'n llywodraethu amserlennu'r hysbysebion. Roedd yn cynnwys y newidiadau a ganlyn:

- dileu'r rheol ei bod yn rhaid cael bwlch 20 munud rhwng egwyliau hysbysebu mewn rhaglen;
- caniatáu i ddarlledwyr ddarlledu un egwyl hysbysebu ar gyfer pob 30 munud o ffilm, yn hytrach nag ar gyfer pob 45 munud; a
- therfynu'r cyfyngiadau penodol ar egwyliau hysbysebu mewn rhaglenni dogfen, materion cyfoes a rhaglenni crefydd, sydd o bosib yn gwneud darlledwyr yn gyndyn o gynnwys rhaglenni o'r math yn eu hamserlen.

Ym mis Hydref 2008, dilynwyd y côd diwygiedig hwn gydag ymgynghoriad a oedd yn canolbwyntio ar y materion mwy eang, sef:

- **faint o hysbysebu sydd ar y teledu.** Dan ddeddfwriaeth Ewrop, gellid dangos mwy o hysbysebion ar sgriniau'r DU. Fodd bynnag, mae llawer o grwpiau o randdeiliaid gan gynnwys gwylwyr, darlledwyr, asiantaethau hysbysebu a hysbysebwyr wedi gwrthwynebu'r cynnig i gael rhagor o hysbysebu. Dewis Ofcom yn y lle cyntaf hefyd oedd na ddylid newid pethau.
- **hysbysebu ar oriau brig.** Gofynnodd Ofcom am farn pobl ynglŷn ag a ddylid caniatáu i'r prif sianeli neilltuo cyfanswm eu lwfans wythnosol mewn ffordd fwy hyblyg, er enghraifft, drwy ddangos mwy o hysbysebu ar y naill ddiwrnod nag ar y llall.
- **nifer yr egwyliau hysbysebu.** Roedd Ofcom yn anghytuno â'r darlledwyr sy'n meddwl na ddylid cael rheolau ynglŷn â nifer yr egwyliau mewn rhaglen, a gofynnodd am farn pobl ynglŷn â pha reolau y dylid eu cael.
- **telesiopa.** Gofynnwyd am farn pobl ynglŷn â faint o delesiopa y dylid ei ganiatáu, gan fod cyfyngiadau blaenorol wedi'u llacio dan ddeddfwriaeth newydd yn Ewrop.

## Sancsiynau am dorri ymddiriedaeth mewn darlledu

Yn ystod 2008 cwblhaodd Ofcom ei ymchwiliadau i'r honiadau bod darlledwyr wedi camarwain eu cynulleidfaoedd mewn cystadlaethau a phleidleisiau ar y teledu. Gwelsom gyfres o enghreifftiau difrifol iawn o dorri'r Côd Darlledu a rhoddodd Ofcom rai o'r dirwyon mwyaf iddo'i roi hyd yn hyn.

Mewn meysydd eraill, parhaodd Ofcom i gynnal safonau darlledu, ond llwyddodd hefyd i ddiogelu rhyddid mynegiant i ddarlledwyr ac i'r gynulleidfa drwy sicrhau bod modd i raglenni heriol barhau i ffynnu.

Gwireddu amcanion budd cyhoeddus wrth i blatfformiau a gwasanaethau gydgyfeirio

**DIRWY I ITV AM GAMDDEFNYDDIO GWASANAETHAU'R GYFRADD BREMIWM**

Ym mis Mai 2008, rhoddodd Ofcom gyfanswm dirwy o £5.675m i ITV plc, am dorri'r côd mewn nifer o raglenni. Roedd hyn ar ôl canfod bod ITV wedi torri Côd Darlledu Ofcom mewn modd difrifol dro ar ôl tro drwy gamddefnyddio gwasanaethau ffôn ar y gyfradd bremiwm (PRS).

Digwyddodd y tramgwyddo ar ddyddiadau amrywiol rhwng Ionawr 2003 a Hydref 2007 mewn rhaglenni a oedd yn cynnwys *Ant & Dec's Saturday Night Takeaway* (£3m), *Ant & Dec's Gameshow Marathon* (£1.2m), *Soapstar Superstar* (£1.2m) a *Playalong, The Mint, Make Your Play a Glitterball* (£275,000). Rhai o'r tramgwyddau difrifol oedd:

- dewis pobl ar gyfer rownd terfynol cystadleuaeth cyn cyhoeddi bod y llinellau ffôn wedi cau;
- dewis pobl ar gyfer rownd terfynol fesul tipyn ac felly nid oedd cyfle teg a chyfartal i wylwyr a oedd yn cystadlu ennill;
- dewis pobl ar gyfer rownd terfynol yn ôl eu haddasrwydd i fod ar y teledu ac yn ôl lle'r oeddent yn byw, yn hytrach nag ar hap;
- rhoi unigolyn yr oedd y tîm cynhyrchu'n ei adnabod eisoes ar restr fer ar gyfer y rownd derfynol, a hwnnw wedyn wedi mynd rhagddo i 'ennill' cystadleuaeth; ac
- anwybyddu pleidlais y gwylwyr a phenderfynu ar y canlyniadau terfynol cyn i'r llinellau gau.

Wrth benderfynu ar lefel y ddirwy, ystyriodd Ofcom y ffaith bod ITV wedi rhoi ei ymchwiliad ei hun ar waith ac wedi addo darparu £7.8m ychwanegol ar gyfer iawndaliadau i wylwyr a rhoddion i elusennau.

**DIRWY I GCAP AM GYSTADLAETHAU ANNHEG**

Ym mis Mehefin 2008, gorfododd Ofcom gyfanswm dirwy o £1.11m ar 30 o orsafoedd radio lleol a oedd yn rhan o rwydwaith One GCap Media. Canfuwyd iddynt dorri Côd Darlledu Ofcom sy'n ymwneud â'r gofyniad ei bod yn rhaid cynnal cystadlaethau'n deg, ac, os defnyddir rhifau'r gyfradd bremiwm, ei bod yn rhaid cydymffurfio â'r Côd Ymarfer a gyhoeddir gan PhonepayPlus.

Canfu Ofcom yng nghystadleuaeth Secret Sound GCap, fod pobl a oedd wedi anfon yr ateb anghywir mewn neges testun wedi'u rhoi ar yr awyr yn fwriadol er mwyn i'r wobr ar gyfer y gystadleuaeth bara'n hwy. Yn sgil hynny, roedd rhai gwrandawyr a oedd wedi talu i gystadlu wedi gwneud hynny heb fod cyfle iddynt ennill.

Roedd difrifoldeb y methiannau hyn yn waeth yn sgil rhai o'r camau a gymerodd GCap ei hun ar ôl i'r digwyddiadau ddod i'r golwg.

## Ymchwiliadau i raglenni

Mae rhegi, rhyw a thrais ar ddarllediadau'n ennyn ymateb cryf.

Mae Côd Darlledu Ofcom yn cynnwys rheolau clir sy'n llywodraethu cynnwys a allai fod yn heriol ei natur, a bwriad y trothwy 9pm ar y teledu yw gwarchod plant rhag cael eu gadael yn agored i ddeunydd anaddas.

Yn yr un modd, nid yw rhegi, rhyw a thrais wedi'u gwahardd oddi ar donnau awyr y DU. Mae'r Côd yn bodoli hefyd er mwyn rhoi'r rhyddid i ddarlledwyr wneud rhaglenni heriol a mentro'n greadigol. Nid yw'r Côd felly'n gwahardd deunydd y gallai rhai pobl ei ystyried yn dramgwyddus. Fodd bynnag, rhaid gallu cyfiawnhau'r math hwn o gynnwys o safbwynt golygyddol, rhaid ei ddarlledu ar adeg briodol, a rhaid cynnig gwybodaeth i'r gynulleidfa am y rhaglen petai hynny o gymorth.

Y digwyddiad amlycaf a gododd wrychyn pobl yn 2008 oedd y digwyddiad ar BBC Radio 2 a oedd yn cynnwys y digrifwr Russell Brand a'i ŵr gwadd Jonathan Ross pan ddarlledwyd cyfres o negeseuon di-flewyn-ar-dafod a'u gadael ar beiriant ateb yr actor Andrew Sachs.

Yn fuan ar ôl y darllediad, cyhoeddodd Ofcom y cynhelid ymchwiliad, a, ddechrau mis Ebrill 2009, ychydig ar ôl y cyfnod adrodd dan sylw, rhoddodd Ofcom ddirwyon i'r BBC, cyfanswm o £150,000 am dorri'r Côd.

Canfuwyd fod y galwadau nid yn unig wedi tarfu ar breifatrwydd ond eu bod yn sarhaus, yn fychanol ac yn waradwyddus. Yn ystod ein hymchwiliad, gwelsom hefyd nifer o namau difrifol yn systemau cydymffurfio'r BBC.

**RHAGLENNI ERAILL**

Yn 2008, parhaodd Ofcom i gael cwynion gan aelodau'r cyhoedd am gynnal cystadlaethau a phleidleisiau mewn rhaglenni. Ar ôl ymchwilio'n fanwl i raglenni megis *The X Factor* a *Big Brother*, canfu Ofcom fod darlledwyr wedi sicrhau bod eu rhaglenni'n cael eu cynnal yn deg a bod ganddynt systemau ar waith i sicrhau gwarchodaeth i'r gynulleidfa.

Roedd rhaglenni eraill yn denu nifer fawr o gwynion, lle bu'n rhaid i Ofcom gadw'r ddysgl yn wastad rhwng tramgwyddo rhai gwylwyr ar y naill law a sicrhau rhyddid mynegiant ar y llall. Er enghraifft, cawsom gwynion gan nifer o wylwyr am stori ynglŷn â phaedoffilia yn *Eastenders*. Fodd bynnag, gwrthodwyd y cwynion gan ddweud, er ein bod yn deall bod y rhaglenni o bosibl yn gwneud y gwylio'n anghyfforddus, bod y pwnc wedi'i drin yn briodol ac yn sensitif.

A dweud y gwir, gall storïau o'r fath, sy'n gallu cyrraedd cynulleidfa fawr, gael dylanwad cadarnhaol. Gwrthododd

## Gwireddu amcanion budd cyhoeddus wrth i blatfformiau a gwasanaethau gydgyfeirio

Ofcom gwynion hefyd am raglen Channel 4 *The Alternative Christmas Message* a roddwyd gan Arlywydd Iran. Yn yr achos hwn, casglwyd bod Channel 4, drwy roi gwybodaeth i wylwyr am yr Arlywydd dadleuol hwn, wedi rhoi'r rhaglen yn ei chyd-destun. Mewn meysydd eraill, parhaodd penderfyniadau Ofcom i gefnogi hawl darlledwyr i archwilio pynciau anodd a chynnal ymchwiliadau dilys.

### Trwyddedu radio

Un o'r hanesion llwyddiant mawr yn y byd darlledu yn y DU yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf fu'r gorsafoedd radio cymunedol sydd wedi codi fel grawn unnos.

Gorsafoedd heb fryd ar wneud elw yw gorsafoedd radio cymunedol a'r rheini'n gwasanaethu ardal ddaearyddol fach. Bydd y gorsafoedd hyn fel rheol yn cael eu cynnal gan oddeutu 75 o wirfoddolwyr, gan ddarlledu ar gyfartaledd 81 awr o allbwn gwreiddiol a gwahanol bob wythnos.

Ym mis Mawrth 2009, cyhoeddodd Ofcom ei Adroddiad Blynyddol Cyntaf ar radio cymunedol, gan dynnu sylw at y ffaith bod 130 o orsafoedd cymunedol ar yr awyr bellach, a bod ganddynt ddarpar gynulleidfa o wyth miliwn o wrandawyr.

Mae'r gorsafoedd erbyn hyn yn feicrocosm o ddiwylliannau a chwaethau lleol ar draws y DU, yn amrywio o gerddoriaeth drefol (New Style, Birmingam) i'r lluoedd arfog (Garrison FM, Caeredin) i gymunedau crefyddol (Cross Rhythms, Stoke-on-Trent). Maent hefyd yn cynnig maes hyfforddi gwerthfawr i gyw ddarlledwyr a chynhyrchwyr. Er enghraifft, mae WCR Radio Wolverhampton yn darparu hyfforddiant radio achrededig, ac erbyn hyn mae gan 44 o'i 49 hyfforddai gymhwyster cynhyrchu radio.

Ar ddiwedd y flwyddyn adrodd, roedd 50 gorsaf arall yn paratoi i lansio.




**TRWYDDEDAU RADIO CYMUNEDOL**

Yn ystod y flwyddyn, dyfarnodd Ofcom drwyddedau radio cymunedol i 27 o orsafoedd newydd. Y gorsafoedd hynny oedd:

**Ebrill 2008**
- Amber Sound FM (Ripley, Amber Valley, Swydd Derby)
- Erewash Sound (llkeston, Swydd Derby)
- Tulip Radio (Spalding, South Holland, Swydd Lincoln)
- Takeover Radio (Sutton-in-Ashfield, Swydd Nottingham)

**Mai 2008**
- TCR FM (Tamworth, Swydd Stafford)
- Switch Radio (Castle Vale, Birmingham)
- Ambur Radio (Walsall)
- SACDA Radio (Sandwell, Gorllewin Canolbarth Lloegr)
- Raaj FM (Sandwell, Gorllewin Canolbarth Lloegr)

**Mehefin 2008**
- EAVA FM (Caerlŷr)
- Demon FM (Caerlŷr)
- Kohinoor FM (Caerlŷr)

**Gorffennaf 2008**
- Hermitage FM (Coalville, Ibstock ac Ashby-de-la-Zouch)
- Cross Rhythms (Coventry)
- The Hillz Radio (Coventry)
- Inspiration FM (Northampton)

**Medi 2008**
- Corby Radio (Northants)

**Tachwedd 2008**
- Gaydio (Manceinion)
- Unity Radio (Manceinion)

**Chwefror 2009**
- Blyth Valley Radio (Southwold)
- Radio West Suffolk (Bury St Edmunds)
- Felixstowe Radio (Felixstowe)
- Zeta Digital FM (Forest Heath)

**Mawrth 2009**
- CAM (Caergrawnt)
- Wayland Radio (Swaffham a Watton, Norfolk)
- Carolina FM (East Braintree, Essex)
- Future Radio (Norwich)

## Gwireddu amcanion budd cyhoeddus wrth i blatfformiau a gwasanaethau gydgyfeirio

### DYFARNIADAU TRWYDDEDAU LLEOL DAB

Dyfarnwyd tair trwydded DAB leol gan Bwyllgor Trwyddedu Radio Ofcom yn ystod y flwyddyn:

**Ebrill 2008**

**Lleoliad** : Surrey a Gogledd Sussex

**Trwyddedai** : MuxCo Surrey & North Sussex Limited

**Mai 2008**

**Lleoliad** : Gwlad yr Haf

**Trwyddedai** : MuxCo Somerset Limited

**Mehefin 2008**

**Lleoliad** : Gogledd Cymru

**Trwyddedai** : MuxCo Wales Limited

### DYFARNU TRWYDDEDAU FM

Dyfarnwyd dwy drwydded FM leol gan Bwyllgor Trwyddedu Radio Ofcom yn ystod y flwyddyn:

**Gorffennaf 2008**

**Lleoliad** : Plymouth

**Trwyddedai** : Radio Plymouth Limited

**Rhagfyr 2008**

**Lleoliad** : Gogledd a Chanolbarth Cymru

**Trwyddedai** : Real Radio Limited



# **Grymuso dinasyddion a defnyddwyr,** a gwella cydymffurfio rheoleiddiol lle bo angen

## Rhoi gwybodaeth i ddefnyddwyr er mwyn iddynt allu gwneud penderfyniadau doeth

### CYFLYMDER BAND EANG – Y DARLUN GO IAWN

Nid yw pob band eang yn gyfartal. Mae ffactorau megis lle'r ydych chi'n byw a hyd yn oed yr amser o'r dydd effeithio ar gyflymder eich gwasanaeth band eang. Felly, er bod rhai Darparwyr Gwasanaethau Rhyngrwyd yn hysbysebu gwasanaethau "hyd at 8 Mbit/s", gall union brofiadau cwsmeriaid amrywio.

Gyda hyn mewn golwg, cyhoeddodd Ofcom Gôd Ymarfer gwirfoddol newydd i'r ISPs ym mis Mehefin 2008, a chytunodd y sawl a'i llofnododd:

- i roi amcangyfrif cywir i'w cwsmeriaid, wrth werthu'r gwasanaeth iddynt, beth fyddai'r cyflymder uchaf y byddai eu llinell yn gallu darparu ar ei gyfer;
- datrys y problemau technegol sy'n rhwystro cyflymu'r ddarpariaeth, a chynnig dewis i gwsmeriaid symud i becyn arafach os yw'r amcangyfrifon yn anghywir;
- sicrhau bod staff gwerthu'n llwyr ddeall y gwasanaethau y maent yn eu gwerthu, ac yn esbonio ystyr yr amcangyfrifon i gwsmeriaid; a
- rhoi gwybodaeth i gwsmeriaid am y terfynau ar ddefnyddio a'u rhybuddio pan fyddant yn croesi'r terfynau hynny.

Daeth y côd i rym ym mis Rhagfyr 2008, ac erbyn hynny roedd 95 y cant o'r ISPs wedi'i lofnodi. Ym mis Ionawr 2009, cyflwynwyd y canfyddiadau i un o'r rhaglenni ymchwil fwyaf cynhwysfawr a gynhaliwyd erioed ymhlith defnyddwyr ynglŷn â chyflymder band eang.

Fe'i cynhaliwyd ar y cyd â'r arbenigwr ar berfformiad band eang, SamKnows, a'r cwmni ymchwil marchnad GfK. Cynhaliwyd yr astudiaeth dros gyfnod o 30 diwrnod gan wneud mwy na 10 miliwn o wahanol brofion ar ystod o wasanaethau cyflenwyr.

Datgelodd y canlyniadau fod defnyddwyr y DU yn cael cyflymder ar gyfartaledd o 3.6 Mbit/s, o'i gymharu â'r cyflymder uchaf posibl ar gyfartaledd o 4.3 Mbit/s. O blith defnyddwyr sy'n defnyddio'r pecyn "hyd at 8 Mbit/s" (pecyn y mae 60 y cant o ddefnyddwyr yn ei brynu), y cyflymder cyfartalog a gaiff un o bob pump mewn gwirionedd yw 2Mbit/s. Ar gyfartaledd, mae'r union gyflymder a gaiff cwsmeriaid yn 45 y cant o'r cyflymder a hysbysebir yn y penawdau.

### EGLURDER YNGHYLCH PRISIAU GALWADAU 087

Ym mis Mai 2008, cyhoeddodd Ofcom gynigion i wneud costau galw rhifau 0870 yn gliriach, ac i gryfhau'r warchodaeth i ddefnyddwyr sy'n defnyddio rhifau 0871. Roedd hyn yn rhan o ymgynghoriad ehangach ar rifau 'annaearyddol', gan ymateb i bryderon defnyddwyr.

Yn hanesyddol, prisiwyd galwadau i rifau 0870 ar lefelau a oedd yn galluogi busnesau a sefydliadau i rannu'r refeniw a gynhyrchid ganddynt. Cynigiwyd gennym na ddylai ffonio rhifau 0870 gostio mwy na ffonio rhifau daearyddol 01 a 02. Fodd bynnag, petai darparwyr yn dewis codi mwy, byddai'n rhaid iddynt lynu wrth reolau caeth ynglŷn â rhoi cyhoeddusrwydd i'w costau, a byddent yn wynebu dirwyon posibl petaent yn methu â gwneud hynny.

Cyflwynwyd y cynigion yn fuan ar ôl y cyfnod dan sylw.


## CYMHARU PRISIAU

Mae safleoedd o safon sy'n cymharu prisiau'n gyfrwng defnyddiol i ddefnyddwyr sydd am weld beth sydd ar gael a sicrhau'r fargen orau.

Ym mis Awst 2008, dyfarnodd Ofcom ei achrediadau cyntaf i ddau wasanaeth cymharu prisiau sy'n cynorthwyo defnyddwyr i ddewis darparwr cyfathrebiadau, sef Broadband Choices a Simplifydigital.

Archwiliwyd yn drwyadl y gwasanaethau hyn, sy'n rhoi gwybodaeth am wasanaethau linellau sefydlog, symudol, band eang a theledu digidol ac fe'n bodlonwyd bod y wybodaeth y maent yn ei darparu'n hygyrch, yn gywir, yn dryloyw, yn gynhwysfawr ac wedi'i diweddaru.

Mae'r achrediadau'n para am flwyddyn. Bryd hynny byddwn yn eu hadolygu ac yn cynnal archwiliadau newydd.




## SICRHAU BOD Y PRINT MÂN AM DALIADAU'N EGLURACH

Fel un o gwsmeriaid gwasanaethau telathrebu, gallwch eich cael eich hun yn talu taliadau ychwanegol am sawl rheswm – ac mae'r wybodaeth am y taliadau hyn yn aml ynghudd ym mhrint mân eich contract. Weithiau, codir tâl ychwanegol arnoch, er enghraifft, os dewiswch dalu gydag arian parod neu gyda siec, os dewiswch beidio â thalu drwy ddebyd uniongyrchol, os ydych am gael bil ar bapur, os byddwch yn talu'n hwyr neu os byddwch yn gadael darparwr cyn i'ch contract ddod i ben.

Ym mis Rhagfyr 2008, cyhoeddodd Ofcom sut y mae'n meddwl y dylai darparwyr ymddwyn er mwyn cyflawni eu dyletswyddau dan Reoliadau Telerau Annheg mewn Contractau Defnyddwyr 1990. Er enghraifft, dywedwyd:

- dylid ei gwneud yn glir faint a godir ar bobl am beidio â thalu drwy ddebyd uniongyrchol, a dylid cyfyngu hynny i union gost ymdrin â thaliadau o'r fath;
- fel rheol, ni ddylid codi mwy na £1.50 y bil am filiau sy'n rhestru pob eitem;
- ni ddylid codi mwy am daliadau hwyr na chost uniongyrchol casglu'r gweddill sy'n ddyledus;
- ni ddylai defnyddwyr sy'n terfynu contract yn fuan byth orfod talu mwy na'r taliadau sydd ar ôl dan y contract – yn wir, yn aml dylent dalu llai, i adlewyrchu'r costau y mae'r darparwr yn eu harbed; ac
- mae contractau cyfnod penodol sy'n cael eu hadnewyddu'n awtomatig yn debygol o fod yn annheg onid ydynt yn cynnig rhyw fudd i ddefnyddwyr yn eu sgil, a chyfle teg i ddewis gadael.

Grymuso dinasyddion a defnyddwyr

## Gwella'r drefn gwyno

Rydym am ei gwneud yn haws i ddefnyddwyr ddatrys anghydfodau a all fod rhyngddynt â'u darparwr cyfathrebiadau.

Dan ein rheolau, rhaid i bob darparwr gael Côd Ymddygiad ar gyfer ymdrin â chwynion cwsmeriaid a rhaid iddo gydymffurfio â'r Côd hwnnw. Hefyd, rhaid iddynt fod yn aelod o'r cynllun Datrys Anghydfod drwy ddulliau Amgen sydd wedi'i gymeradwyo gan Ofcom. Ar hyn o bryd, rydym yn cydnabod dau gynllun – CISAS ac Otela – sy'n cynnig gwasanaethau datrys am ddim i gwsmeriaid sy'n cwyno.

Ym mis Gorffennaf 2009, aethom ati i fynd i'r afael â'r diffyg ymwybyddiaeth ymhlith defnyddwyr ei bod yn rhaid i ddarparwyr gael Côd Ymarfer, a'r ffaith mai prin oedd yr ymwybyddiaeth o fodolaeth cynlluniau Datrys Anghydfod drwy ddulliau Amgen. Canolbwyntiwyd hefyd ar wella effeithiolrwydd y cynlluniau hynny, drwy gynnig cyfres o reolau i wella'r broses ADR.

## Rheolau i atal camwerthu

### MYND I'R AFAEL Â SLAMIO

'Slamio' yw'r arfer y cwynir mwyaf yn ei gylch ym maes cyfathrebu drwy linell sefydlog. Yn Ofcom, cawsom oddeutu 1,000 o gwynion y mis yn ystod y flwyddyn adrodd gan bobl a oedd cael eu slamio (sef, yn cael eu symud o'r naill ddarparwr at un arall heb yn wybod iddynt a/neu heb eu caniatâd).

Ym mis Mawrth 2009, cyhoeddodd Ofcom gynigion i sathru ar slamio a mathau eraill o gam-werthu yn y farchnad telathrebu drwy linell sefydlog. Dyma rai o'r cynigion:

- cadw recordiad o alwadau, gan fynnu bod darparwyr yn cadw gwell cofnod o bob sgwrs sy'n ymwneud â gwerthu. Bydd cofnodion o well ansawdd yn arwain at drefn gorfodi fwy effeithiol;
- gwaharddiad llwyr ar gam-werthu fel rhan o reoliadau symlach y mae'n rhaid i bob darparwr lynu wrthynt, a
- rheidrwydd i ddarparwyr roi cyngor clir, gan atgoffa defnyddwyr y gall newid darparwr arwain at ganlyniadau negyddol, megis gorfod talu, o bosib, am derfynu contract yn fuan.

Roeddem yn dal i ymgynghori ynglŷn â'r cynigion hyn ar ddiwedd y flwyddyn adrodd, ond, unwaith inni eu rhoi ar waith, byddwn yn disgwyl i'r cwynion ynglŷn â cham-werthu ostwng yn sylweddol.

### CYNLLUNIAU ARIAN-YN-ÔL AR FFONAU SYMUDOL

Yn sgil cwynion am gam-werthu yn y diwydiant symudol, ar ffurf cynlluniau arian-yn-ôl a thechnegau eraill, cynigiodd Ofcom Amod Cyffredinol gorfodol ar gyfer y sector.

Arweiniodd y cyhoeddiad at ostyngiad sylweddol yn nifer y cwynion am gynigion arian-yn-ôl er bod pobl yn dal i gwyno am resymau eraill. Bydd y rheolau newydd yn dod i rym ym mis Medi 2009.

## Camau yn erbyn camwerthu

Cyhoeddwyd elfennau da, drwg a hyll profiadau cwsmeriaid gyda darparwyr gwasanaethau cyfathrebu yn *Profiad y Defnyddiwr* gan Ofcom ym mis Tachwedd 2008.

Roeddem yn falch o sôn am lawer o elfennau cadarnhaol sy'n egino yn y sector, er bod y problemau oesol – sef camwerthu a galwadau mud – yn dal i sbarduno nifer annerbyniol o fawr o gwynion.

Gwelwyd gwir gynnydd o ran rhyddhau cwsmeriaid rhag problemau hanesyddol newid o'r naill ddarparwr band eang i'r llall. Gwelwyd gostyngiad hefyd yn nifer y cwynion am fargeinion arian-yn-ôl ar ffonau symudol – ffynhonnell cryn niwed – o 600 y mis ym mis Medi 2007 i 70 y mis flwyddyn wedyn.

Tueddiadau eraill o bwys oedd:

- cynnydd yn nifer y defnyddwyr a oedd yn troi at 'chwarae triphlyg' (cyfuniad o deledu digidol, llinell sefydlog, gwasanaethau symudol neu fand eang) o 18 i 32 y cant, ac roedd hyn gan amlaf yn arwain at arbedion sylweddol;
- sbarduno mwy o ymwybyddiaeth o gyflenwyr yn y marchnadoedd sefydlog a symudol; a
- y gwefannau cymharu prisiau cyntaf wedi'u hachredu gan Ofcom, gan dywys defnyddwyr at wasanaethau cymharu sy'n hygyrch, yn gywir, yn dryloyw, yn gynhwysfawr ac wedi'u diweddaru.

Agwedd lai cadarnhaol yw bod galwadau mud wedi parhau'n broblem go iawn: rhwng mis Medi 2007 a 2008, cododd nifer cwynion defnyddwyr i Ofcom o oddeutu 300 i 1,050 y mis. Gall y galwadau hyn amrywio yn eu heffaith ar y bobl sy'n eu derbyn o godi gwrychyn i beri ofn difrifol.

Systemau deialu awtomatig sy'n gyfrifol am y rhan fwyaf o'r galwadau mud, ac mae'r rhain weithiau'n ffonio rhywun hyd yn oed os nad oes asiant yn rhydd yn y ganolfan alwadau i siarad. Os felly, ac os bydd y ganolfan alwadau'n methu chwarae neges wybodaeth yn lle hynny, fe all arwain at alwad mud.

Mewn ymateb i hynny, dechreuodd Ofcom fynd ati o ddifrif i fonitro a gorfodi'r canllawiau gyda'r nod o liniaru problem ddifrifol y galwadau mud.

Aethom ati hefyd i weithredu'n fwy llym yng nghyswllt torri cyfraith gwarchod defnyddwyr.

Mae'r adran sy'n ymwneud â gorfodi isod yn sôn am ein gwaith gorfodi yn ystod 2008/9.

## YMCHWILIO A GORFODI YNG NGHYSWLLT ACHOSION DEFNYDDWYR

Roedd gorfodi'r gyfraith gwarchod defnyddwyr yn flaenoriaeth uchel i Ofcom yn 2008/9. Yn ystod y flwyddyn:

- Anfonwyd rhybuddion ynglŷn â chamddefnyddio'n rheolaidd a rhoddwyd cosbau ariannol – cyfanswm o £131,000 fel rhan o'n rhaglen gorfodi yng nghyswllt galwadau mud a therfynu galwadau i:
  - Barclays Bank plc (yn masnachu fel Barclaycard)
  - Ultimate Credit Services Limited (UCS)
  - Equidebt Limited

  Anfonwyd rhybudd gorfodi at UCS hefyd yn sgil tystiolaeth nad oedd wedi cymryd camau priodol i roi'r gorau i'r camddefnyddio a nodwyd yn y rhybudd a anfonwyd.
- Anfonwyd rhybudd ynglŷn â thorri'r rheolau camwerthu at Axis Telecom Limited.
- Anfonwyd rhybudd at Universal Telecom Limited a Telephonics Integrated Telephony Limited am dorri'r rheolau sy'n ymwneud â throsglwyddo cwsmeriaid rhwng cwmnïau.
- Anfonwyd rhybuddion am dorri'r rheolau dan ei raglen symud o'r naill wasanaeth band eang i'r llall am fethu â darparu codau MAC o fewn pum niwrnod gwaith ar ôl derbyn cais i:
  - Prodigy Internet Limited
  - Pipex Internet Limited a Pipex UK Limited

  Roedd yr hysbysiad a anfonwyd at Prodigy hefyd yn ymwneud â'i fethiant i roi Cynllun Datrys Anghydfod ar waith a chydymffurfio ag ef er mwyn datrys anghydfodau rhwng Prodigy a'i gwsmeriaid domestig a busnesau bach.
- Anfonwyd rhybudd o dorri'r rheolau at THUS plc am fethu â rhoi gwybodaeth am Leoliad Galwr i'r gwasanaethau argyfwng adeg galwadau 999.
- Ar ôl ymchwiliad ar y cyd â Safonau Masnach swydd Stafford, sicrhawyd ymrwymiad cyfreithiol rwymol gan Phones 4U yn ei ymrwymo i newid nifer o'i arferion a oedd yn torri cyfreithiau gwarchod defnyddwyr o ran gwerthu setiau llaw a chontractau.
- Ymatebwyd i gŵyn ddifrifol a ffeiliwyd gan y Cyngor Defnyddwyr Cenedlaethol am bris galwadau o garchardai. Wrth inni asesu'r dystiolaeth a oedd ar gael yn ystod ein hymchwiliad 90 diwrnod, awgrymwyd bod nifer o faterion yn y trefniadau presennol ar gyfer darparu gwasanaethau ffôn i garcharorion yng Nghymru, Lloegr a'r Alban y gallai fod angen cymryd camau pellach yn eu cylch. Roeddem o'r farn mai'r ffordd fwyaf priodol a mwyaf effeithiol o fynd i'r afael â'r materion a nodwyd, o leiaf yn y lle cyntaf, fyddai bod cyrff y Llywodraeth a oedd yn gyfrifol am gaffael ac am reoli'r trefniadau contractaidd ar gyfer darparu gwasanaethau ffôn mewn carchardai yng Nghymru, Lloegr a'r Alban yn gwneud hynny: Y Weinyddiaeth Cyfiawnder (sy'n cynnwys Gwasanaeth Carchardai EM) a Gwasanaeth Carchardai'r Alban.

Grymuso dinasyddion a defnyddwyr

## Sicrhau bod modd i bobl gael gafael ar wasanaethau cyfathrebu

### GWASANAETH ARGYFWNG SYMUDOL CRWYDROL

Os oes angen ichi wneud galwad argyfwng pan fyddwch ar eich ffôn symudol, mae'n bosibl y bydd rhywbeth yn eich rhwystro rhag cysylltu: os nad yw eich darparwr yn darparu gwasanaeth yno, ni fydd eich galwad yn llwyddo.

Ym mis Mawrth 2009, cyhoeddodd Ofcom gynigion i gyflwyno 'gwasanaeth trawsrwydweithio mewn argyfwng'. Ystyr hynny yw, os nad yw eich darparwr yn darparu gwasanaeth, y bydd eich galwad argyfwng yn 'trawsrwydweithio' i rwydwaith sydd yn gwneud hynny.

Ar ddiwedd y flwyddyn adrodd, roedd Ofcom yn gweithio gyda gweithredwyr ffonau symudol y DU, a hefyd yn astudio profiadau trawsrwydweithio symudol 999 mewn gwledydd eraill yn Ewrop. Gobeithiwn y bydd y gwasanaeth yn fyw erbyn diwedd 2009, a dibynnu ar y treialon technegol.

### DYLETSWYDD I DDARPARU GWASANAETH I BAWB A'R NIFER SY'N MANTEISIO AR FAND EANG

Un llinyn yn unig o astudiaeth eang i'r pethau hynny sy'n rhwystro pobl rhag cael gafael ar wasanaethau cyfathrebu oedd astudio trawsrwydweithio mewn argyfwng, a sut mae chwalu'r rhwystrau hynny. Ym mis Mawrth 2009, cyhoeddwyd hefyd adolygiad cynhwysfawr o'r Ddyletswydd i Ddarparu Gwasanaeth i Bawb (Y Ddyletswydd).

Mae'r Ddyletswydd yn sicrhau bod pawb yn gallu cael gafael ar set sylfaenol o wasanaethau llinell sefydlog am bris fforddiadwy. Mae hyn yn cynnwys rhoi tariffiau arbennig i bobl ar incwm isel, mynediad rhesymol at flychau ffôn cyhoeddus, a gwasanaethau teleffoni sylfaenol sydd wedi'u teilwra ar gyfer pobl anabl.

Bydd yr astudiaeth, y fwyaf cynhwysfawr ers 1997, yn ystyried pa mor effeithiol yw'r Ddyletswydd yn ogystal â baich y gost sy'n disgyn ar BT, ac, yn Hull, ar KCOM.

Asesodd Ofcom ymchwil hefyd i ganfod pam nad oes gan rai pobl fand eang gartref, gan gynnwys y rheini na allant mo'i fforddio, y rheini na allant gael gafael arno, neu'n syml y rheini nad oes mo'i eisiau arnynt.

### LLYTHRENNEDD YN Y CYFRYNGAU

Llythrennedd yn y cyfryngau, sef, yn ôl ein diffiniad, y gallu i fanteisio ar wasanaethau cyfathrebu, eu deall a'u creu, mewn amrywiaeth o gyd-destunau, yw un o brif flaenoriaethau Ofcom yn 2008/9. Darparwyd adnoddau ychwanegol i ddatblygu ein gwaith yn y maes hwn.

Galwodd Adroddiad Interim Prydain Ddigidol a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2009 ar Ofcom i weithio gyda'r BBC ac eraill i argymell diffiniad ac uchelgais newydd ar gyfer Cynllun Cenedlaethol Llythrennedd yn y Cyfryngau. Cynullwyd a chadeiriwyd gweithgor gan Ofcom a oedd yn cynnwys aelodau o'r Llywodraeth, byd addysg, diwydiant a'r trydydd sector i lunio ystod o ddewisiadau strategol a fyddai'n sbarduno ymwneud pob carfan o'r gymdeithas â'r byd digidol.

Cynrychiolir Ofcom ar y bwrdd gweithredol ac ar weithgorau Cyngor y DU ar gyfer Diogelwch Plant ar y Rhyngrwyd yn dilyn Adolygiad Byron o ddiogelwch plant ar y rhyngrwyd ac mewn gemau.

Drwy gydol y flwyddyn, cyhoeddwyd ymchwil sylweddol gennym i ddeall yn well berthynas pobl â'r cyfryngau ac â thelathrebu. Yn ail don ein Harchwiliadau Llythrennedd yn y Cyfryngau a gyhoeddwyd yn 2008, nodwyd y newid sydd wedi bod ers cyhoeddi'r archwiliad cyntaf yn 2006 o ran defnyddio, deall a chreadigrwydd ar draws teledu, radio, y rhyngrwyd a ffonau symudol. Cafodd yr ymchwil i ddefnyddio technolegau digidol ar gyfer rhwydweithio cymdeithasol ac ymgysylltu democrataidd, groeso cynnes gan randdeiliaid.

Eleni hefyd gwelwyd sefydlu rhwydweithiau ar gyfer llythrennedd yn y cyfryngau yn yr Alban ac yng Ngogledd Iwerddon yn dilyn llwyddiant rhwydwaith Llythrennedd yn y Cyfryngau Cymru a sefydlwyd yn 2007.

Drwy ein gwaith i feithrin cysylltiad â rhanddeiliaid ledled yr UE ac yn rhyngwladol sefydlwyd Fforwm Ymchwil Rhyngwladol ar gyfer Llythrennedd yn y Cyfryngau er mwyn dwyn ynghyd ymchwilwyr, llunwyr polisïau a rheoleiddwyr i rannu'r arferion gorau o ran hybu llythrennedd yn y maes hwn.

## HELPU'R DEFNYDDIWR

Mae swyddogaeth Gweithrediadau Canolog Ofcom yn ymwneud â chwestiynau a chwynion gan wylwyr, gwrandawyr, cwsmeriaid cwmnïau telathrebu a defnyddwyr a thrwyddedeion gwasanaethau cyfathrebu di-wifr.

Yn ystod y cyfnod dan sylw, cofnodwyd dros 149,400 o achosion gan ein Gweithrediadau Canolog yn sgil ymholiadau dros y ffôn a chafwyd dros 72,700 o ffurflenni rhyngrwyd a oedd wedi'u llenwi, negeseuon e-bost, llythyrau a ffacsys. O blith y rheini, roedd oddeutu:

- 140,000 yn ymwneud â thelathrebu;
- 49,800 yn ymwneud a materion cysylltiedig â'r sbectrwm a thrwyddedu;
- 3,200 yn ymholiadau cyffredinol; a
- 29,100 yn ymwneud â darlledu.

### Telathrebu

Roedd oddeutu 13 y cant o gwynion cwsmeriaid yn ymwneud â chamwerthu. Roedd y rhain yn cynnwys digwyddiadau lle'r oedd cwsmeriaid yn cael eu trosglwyddo i wasanaeth newydd heb yn wybod iddynt neu heb eu caniatâd, lle'r oedd cwsmeriaid wedi ymrwymo i wasanaeth ar sail gwybodaeth y sylweddolwyd wedyn ei bod yn gelwydd, neu lle'r oedd cwsmeriaid wedi cael addewid o 'arian yn ôl' ac na chawsant yr arian hwnnw.

Hefyd, roedd 8 y cant o'r holl gwynion yn y maes telathrebu'n ymwneud â sefyllfa lle'r oedd y cwsmeriaid wedi cael problem wrth newid eu gwasanaeth band eang neu wrth gael darparu gwasanaeth mewn eiddo newydd. Rhai o'r problemau oedd 'tag ar lein' a phroblemau gyda Chodau Awdurdodi Symud – cyfeiriad sy'n galluogi cwsmeriaid i newid eu darparwr band eang yn hwylus heb fawr o darfu.

Roedd 7 y cant o'r cwynion yn ymwneud â galwadau mud.

Drwyddi draw, roedd cwynion defnyddwyr yn ymwneud â:

- newid o'r naill wasanaeth band eang i'r llall;
- camwerthu;
- oedi wrth osod gwasanaeth;
- y taliadau a godir pan na fydd pobl yn talu biliau drwy ddebyd uniongyrchol;
- galwadau mud;
- gwasanaeth annigonol i gwsmeriaid gan ddarparwyr gwasanaethau;
- problemau o ran colli gwasanaeth; a
- materion yn ymwneud â thelerau contract.

Lle bo hynny'n briodol, bydd ein Gweithrediadau Canolog yn cyfarfod â chwmnïau i drafod sut y gellid gwella'u gwasanaeth i gwsmeriaid. Trosglwyddir manylion cwmnïau y bydd cwsmeriaid yn cwyno amdanynt yn rheolaidd i Grŵp Cystadleuaeth Ofcom er mwyn iddo ystyried a ddylid o bosib cynnal ymchwiliad ffurfiol.

### Sbectrwm

Mae Canolfan Drwyddedu Ofcom (OLC) yn rhan o'r Gweithrediadau Canolog ac fe ymdriniodd â mwy na 49,800 o ymholiadau gan ddefnyddwyr a darparwyr gwasanaethau radiogyfathrebu, yn ogystal â chan aelodau eraill y cyhoedd. Roedd y rhain yn ymwneud ag:

- arweiniad i ddefnyddwyr radiogyfathrebu ynglŷn â materion trwyddedu sy'n ymwneud â'r Ddeddf Telegraffi Di-wifr;
- ymholiadau ynglŷn â ffi'r drwydded dan y Ddeddf Telegraffi Di-wifr; a
- gwasanaeth ar-lein Ofcom, 'Canfod Safle', sy'n galluogi'r cyhoedd i ganfod lleoliad gorsafoedd ffôn symudol yn ôl côd post.

### Darlledu

Cofnododd tîm darlledu'r Gweithrediadau Canolog 29,100 o gwynion gan y cyhoedd. Trosglwyddwyd rhai cwynion i'r Grŵp Cynnwys a Safonau i'w hymchwilio ymhellach.

Y rheswm mwyaf dros gwyno am raglenni teledu a radio oedd deunydd yr oedd gwylwyr neu wrandawyr yn ei ystyried yn niweidiol neu'n sarhaus, gan gynnwys sylwadau hiliol, iaith gref, delweddau rhywiol a deunydd sy'n tramgwyddo yn erbyn crefydd.

Codwyd pryderon hefyd ynglŷn â chystadlaethau a phleidleisio.

Roedd oddeutu 15 y cant o'r cwynion yn ymwneud â *Big Brother 9* ac oddeutu 7 y cant o'r cwynion ynglŷn â *The Russell Brand Show* ar BBC Radio 2.

Rhaglenni eraill y cafwyd cwynion sylweddol amdanynt oedd:

- *The X Factor*
- *We Are Most Amused*
- *Strictly Come Dancing*
- *Top Gear*
- *Celebrity Big Brother*
- *Eastenders*
- *Alim On Line/Iftar with Aam*

# **Lleihau rheoleiddio** a sicrhau cyn lleied o feichiau gweinyddol ag y bo modd

Mae Ofcom wedi ymrwymo i leihau'r beichiau rheoleiddiol y mae'n eu gosod ar ei randdeiliaid. Mae'r awydd i ddileu unrhyw reoleiddio diangen sy'n perthyn i'r oes o'r blaen yn sail i'n holl waith.

Mae'r rhan o Adran C yr adroddiad hwn sy'n ymwneud â Pherfformiad a Gwerthuso yn tynnu sylw at feysydd lle'r ydym wedi lleihau'r rheoleiddio neu wedi'i symleiddio.

# **Sicrhau cymaint o ddylanwad ag y bo modd** ar ddatblygu polisi rhyngwladol

Mae datblygiadau rhyngwladol yn dylanwadu fwyfwy ar weithgareddau Ofcom ac ar weithgareddau'r cwmnïau a reoleiddir ganddo. Mae Ofcom yn cynrychioli'r DU ar faterion sy'n ymwneud â'r sbectrwm radio mewn grwpiau rhyngwladol allweddol ac mae'n cymryd rhan mewn ffora rhyngwladol ar faterion sy'n ymwneud â thelathrebu a darlledu. Mae Ofcom hefyd yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth y DU i ddatblygu safbwyntiau polisi ynglŷn â chynigion ar gyfer rheoleiddio newydd gan yr UE.

## GRŴP RHEOLEIDDWYR EWROP

Sefydlwyd Fframwaith Cyfathrebu'r UE, a gyflwynwyd yn 2003, er mwyn sicrhau sylfaen ledled Ewrop ar gyfer rhyddhau'r marchnadoedd telathrebu. Fforwm o reoleiddwyr telathrebu cenedlaethol yw Grŵp Rheoleiddwyr Ewrop (ERG) a'i rôl yw cynghori Comisiwn Ewrop ynglŷn â rhoi'r Fframwaith ar waith, yn enwedig o ran cysoni'r dulliau rheoleiddio ar draws yr Aelod Wladwriaethau. Mae'r ERG hefyd yn fforwm ar gyfer cyfnewid yr arferion gorau gyda golwg ar faterion newydd a materion sy'n codi yn y maes rheoleiddio.

Mae Ofcom yn chwarae rôl sylweddol yn yr ERG, gan gyfrannu at lu o feysydd ei raglen waith. Er enghraifft, mabwysiadodd yr ERG rôl cynghori gweithgar yng nghyswllt Adolygu'r Fframwaith. Bu'n canolbwyntio hefyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ar ddatblygu ffordd gyson o fynd ati i reoleiddio'r rhwydweithiau band eang cyflym iawn sy'n dechrau cael eu lledaenu yn y DU ac mewn sawl gwlad arall yn Ewrop. Yn ogystal â hynny, gwnaeth gyfraniad sylweddol at adolygiad y Comisiwn o reoleiddio trawsrwydweithio. Seiliwyd y darpariaethau a fabwysiadwyd (gweler isod) ar ei ddadansoddiad a seiliwyd hwnnw ar ddata a gasglwyd dros 18 mis.

## ADOLYGU FFRAMWAITH EWROP

Yn 2008, dechreuodd Cyngor Gweinidogion UE a Senedd Ewrop ystyried pecyn o gynigion diwygio a gyflwynwyd gan y Comisiwn Ewropeaidd i'r UE.

Yng ngwanwyn 2009, arweiniodd y gwaith hwn at gytundeb cyffredinol, gan gynnwys cynlluniau ar gyfer corff telathrebu newydd ar gyfer Ewrop i gyd, Corff Rheoleiddwyr Cyfathrebu Electronig Ewrop (BEREC). Disgwylir i'r corff hwn fod yn gyfrifol am feithrin ffordd fwy cyson o fynd ati i reoleiddio telathrebu ar draws aelod wladwriaethau'r UE a bydd yn ysgwyddo'r rôl sydd gan yr ERG ar hyn o bryd. Drwy gymryd rhan yn yr endid newydd hwn, bydd Ofcom yn dal i gynrychioli buddiannau'r DU.

Bu Ofcom yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth y DU a'r ERG i hybu newidiadau a gwelliannau technegol i'r pecyn, gan ganolbwyntio'n benodol ar sicrhau canlyniadau da i ddefnyddwyr.

Bu Ofcom hefyd yn cyfrannu at y gwaith a wneir ar y sbectrwm wrth Adolygu'r Fframwaith, gan gynorthwyo i sicrhau bod mwy o bwyslais ar faterion sy'n ymwneud â'r sbectrwm, yn benodol:

- cryfhau egwyddor niwtraliaeth technoleg;
- pwysleisio rôl masnachu'r sbectrwm a chynnig gweithdrefnau y gellid eu defnyddio i gefnogi cyflwyno masnachu ar draws Ewrop mewn bandiau penodol; a
- chynnig sefydlu rhaglen strategaeth tymor hir ar gyfer y sbectrwm yn Ewrop.

## TALIADAU RHYNGWLADOL AM FFONAU SYMUDOL

Cyhoeddodd Ofcom ei bryderon am daliadau ar gyfer trawsrwydweithio yn Ewrop ddechrau 2008, gan dynnu sylw at gost sylweddol anfon negeseuon testun a defnyddio'r rhyngrwyd ar ffôn symudol dramor. Tynnwyd sylw hefyd at y ffaith ei bod yn arfer cyffredin ymhlith gweithredwyr ffonau symudol, ar gyfer unrhyw alwad genedlaethol neu ryngwladol, i dalgrynnu'r amser at y funud agosaf a chodi am y swm hwnnw, hyd yn oed pan fyddai'r galwad yn para llai na munud.

Ym mis Ebrill 2009, pleidleisiodd Senedd Ewrop dros docio prisiau'n sylweddol, canlyniad da i ddefnyddwyr. Yn sgil y gostyngiadau sydd wedi'u cymeradwyo o'r blaen, bydd prisiau galwadau llais yn gostwng o fis Gorffennaf 2009 ymlaen. Bydd y toriadau newydd yn golygu y bydd y prisiau am wneud galwadau a'u derbyn ac am anfon a derbyn negeseuon testun yn gostwng eto yn ystod haf 2010 ac unwaith eto ym mis Gorffennaf 2011. Pleidleisiodd deddfwyr hefyd o blaid gorfodi gweithredwyr i godi tâl fesul eiliad (ar ôl tâl lleiafswm am 30 eiliad) ar gyfer galwadau trawsrwydweithio.

Dylai'r pwysau ar y gweithredwyr i ostwng eu prisiau am lwytho data i lawr dramor yn Ewrop barhau o ganlyniad i'r cap ar brisiau cyfanwerthu. Bydd hyn yn sail ar gyfer unrhyw rymoedd newydd sy'n ymddangos yn y farchnad.

Bydd prisiau i ddefnyddwyr yn fwy tryloyw a sefydlir camau pwysig i atal 'biliau sy'n achosi sioc' (biliau ffôn annisgwyl o fawr a gaiff defnyddwyr wrth ddefnyddio'u ffonau symudol i lwytho data i lawr dramor).

## Y SBECTRWM RHYNGWLADOL

Bydd tonnau radio'n teithio ar draws ffiniau cenedlaethol, felly mae'n hollbwysig arddel ymagwedd fyd-eang wrth fynd ati i ymdrin â'r sbectrwm. Er enghraifft, yn sgil cysoni amleddau a chynorthwyo i sefydlu safonau cyffredin ar gyfer setiau llaw, mae defnyddwyr yn y DU bellach yn gallu defnyddio'u ffonau symudol wrth deithio drwy'r byd.

Yn 2008/9, parhaodd Ofcom i chwarae rôl weithgar mewn materion sy'n ymwneud â'r sbectrwm rhyngwladol, gan gynrychioli buddiannau'r DU mewn sawl maes, gan gynnwys y difidend digidol, mynediad at fand eang di-wifr, defnyddio'r sbectrwm gan y cyhoedd a materion sy'n ymwneud â chystadleuaeth sy'n gysylltiedig â'r sbectrwm. Cadeiriwyd pwyllgor a sefydlwyd i fynd i'r afael â'r amodau technegol ar gyfer darparu'r sbectrwm ar 2.6 GHz ac yn y difidend digidol. Cyfrannwyd hefyd at ddatblygu proses dethol ac awdurdodi Ewropeaidd ar gyfer gwasanaethau lloeren symudol ar 2 GHz.



# Adran C

## Adolygiad Gweithredol ac Ariannol

Yn yr adran hon, rydym yn esbonio sut y byddwn yn gwerthuso'n perfformiad ac wedyn byddwn yn canolbwyntio ar dri maes allweddol: i ba raddau yr ydym wedi cyflawni'n hamcanion ac wedi rhoi ein hegwyddorion rheoleiddio ar waith; ein heffeithiolrwydd o ran darparu gwasanaethau a'n perfformiad; a'n perfformiad ariannol.

# Perfformiad a gwerthuso

Rydym yn ymroddedig i adolygu a gwerthuso'n perfformiad, ac yna i roi'r hyn rydym wedi'i ddysgu ar waith. Isod, trafodir y gwahanol ffyrdd o fesur ein heffeithiolrwydd a'r hyn y mae'r canlyniadau'n ei ddweud wrthym.

Yn wahanol i gwmni preifat sy'n ceisio sicrhau'r elw mwyaf ar ran ei gyfranddalwyr, nid oes gan Ofcom yr un amcan sy'n hawdd ei fesur. Mae tri phrif reswm dros hyn. Yn gyntaf, er mai ein prif ddyletswydd yw hybu buddiannau dinasyddion a defnyddwyr, gan gynnwys buddiannau busnesau, mae gennym ystod eang o ddyletswyddau penodol ac ystod amrywiol o randdeiliaid. Yn ail, mae'n aml yn anodd gwahaniaethu rhwng ein dylanwad ar ddatblygiadau yn y farchnad ac effaith ystod eang o ffactorau eraill. Ac, yn drydydd, mater goddrychol yn aml yw penderfynu a ydym yn cyflawni'n dyletswyddau ac yn rhoi ein hegwyddorion rheoleiddio ar waith neu beidio. Golyga hyn nad peth rhwydd yw asesu ein perfformiad mewn modd y gellir ei fesur.

Felly, mae'n briodol defnyddio nifer o ddulliau i adolygu ein heffeithiolrwydd. Byddwn yn mesur:

- datblygiadau yn y farchnad:
- a ydym yn cyflawni ein hamcanion ac yn rhoi ein hegwyddorion rheoleiddio ar waith;
- ein heffeithlonrwydd a'n heffeithiolrwydd mewnol;
- canfyddiadau rhanddeiliaid.

## MESUR DATBLYGIADAU YN Y FARCHNAD

Yn y pen draw, credwn y dylid barnu ein perfformiad drwy gyfeirio at ddatblygiadau yn y farchnad a'r canlyniadau a sicrheir ar gyfer dinasyddion a defnyddwyr. Byddwn yn mesur y canlyniadau hyn mewn sawl ffordd ac yn cyhoeddi'r canlyniadau yn ystod y flwyddyn. Disgrifir detholiad o'r adroddiadau perthnasol isod.

Cofnodir y cynnydd o'i gymharu â'n Cynllun Blynyddol ar ein gwefan. Byddwn yn cyhoeddi tabl sy'n dangos ein prosiectau i gyd a'r allbwn a gynllunnir: www.ofcom.org.uk/about/accoun/reports_plans/annual_plan0910/projects/. Bydd y tabl hwn yn cael ei ddiweddaru bob chwarter er mwyn i randdeiliaid allu gweld pa bryd y byddwn yn cyhoeddi ymgynghoriadau sydd o ddiddordeb iddynt. Mae'r tabl hefyd yn dangos i ba raddau y byddwn yn gwireddu'n cynlluniau.

Bob blwyddyn, byddwn yn cyhoeddi'n hadroddiad, Y Farchnad Gyfathrebu www.ofcom.org.uk/research/cm/cmr08/, sy'n cynnig darlun cynhwysfawr o'r datblygiadau yn y sector cyfathrebu. Ategir hwn gan nifer o adroddiadau am agweddau penodol ar y sectorau y byddwn yn eu rheoleiddio, megis y Farchnad Gyfathrebu Ryngwladol (Tachwedd 2008 – www.ofcom.org.uk/research/cm/icmr08/). Byddwn hefyd yn cyhoeddi adroddiadau am bynciau penodol, megis y nifer sy'n manteisio ar deledu digidol a band eang. Yn benodol, cyhoeddwyd adroddiad dan y teitl Profiad y Defnyddiwr (Tachwedd 2008 – www.ofcom.org.uk/research/tce/ce08/), a oedd yn rhoi darlun o'r manteision y mae cystadleuaeth wedi'u cynnig i ddefnyddwyr, ac ystod o gyhoeddiadau'r Archwiliad i Lythrennedd yn y Cyfryngau. Roedd y rheini'n dadansoddi gallu dinasyddion a defnyddwyr y DU i gael gafael ar

Perfformiad a gwerthuso

ddulliau cyfathrebu mewn amrywiaeth o gyd-destunau, i'w deall ac i'w creu. Mae'r adroddiadau hyn i gyd yn adeiladu ar sail ein rhaglen ymchwil eang i'r farchnad.

Byddwn hefyd yn archwilio effaith cynlluniau polisi penodol. Er enghraifft, ym mis Rhagfyr 2008, cyhoeddwyd ein hadolygiad interim o'r cyfyngiadau ar hysbysebu bwyd â llawer o fraster neu halen neu siwgr ynddo. Roedd ein datganiad, *Newidiadau yn natur a chydbwysedd hysbysebu bwyd i blant ar y teledu*, yn ceisio pwyso a mesur a oedd y cyfyngiadau a gyflwynwyd fesul cam gennym o fis Ebrill 2007 ymlaen yn cael yr effaith a ddisgwylid o ran:

- lleihau'r hysbysebion o'r math hwn a welir gan blant;
- defnyddio technegau hysbysebu yr ystyrir eu bod yn apelio at blant wrth hysbysebu'r mathau hyn o fwyd;
- yr effaith ar refeniw darlledu.

### MESUR CYDYMFFURFIO Â'N HAMCANION AC Â'N HEGWYDDORION RHEOLEIDDIO

Mae agwedd Ofcom at reoleiddio'n adlewyrchu natur y sector cyfathrebu – sector sy'n symud yn gyflym iawn. Am fod y sector cyfathrebu'n newid mor gyflym, mae'n fwyfwy pwysig bod gennym egwyddorion clir i'n tywys. Dan Ddeddf Cyfathrebiadau 2003, mae gofyn inni roi sylw i egwyddorion gwell rheoleiddio, sef y dylai rheoleiddio fod yn dryloyw, yn gymesur, yn gyson, yn atebol ac wedi'i dargedu. Pan sefydlwyd Ofcom, adeiladwyd ar sail yr egwyddorion hyn drwy ddatblygu set fwy penodol o egwyddorion a fyddai'n sail i'n gwaith beunyddiol. Ceir y rhain yn Ffigur 1. Yn 2008, nodwyd hefyd set o egwyddorion ar gyfer dadansoddi'r cyfle i gyflwyno hunanreoleiddio a chyd-reoleiddio. www.ofcom.org.uk/consult/condocs/coregulation/statement/

Yn unol â'n hegwyddorion rheoleiddio, rydyn wedi canolbwyntio ar fesur perfformiad Ofcom ym mhedwar maes allweddol:

- ein llwyddiant i leihau rheoleiddio, lle'r oedd hynny'n briodol;
- effeithiolrwydd ein hymgynghori â rhanddeiliaid;
- prydlondeb ein trefn gwneud penderfyniadau ar ôl ymgynghori;
- ein perfformiad o ran cynnal asesiadau effaith i oleuo'n penderfyniadau.

#### FFIGUR 1: EGWYDDORION RHEOLEIDDIO OFCOM

WRTH REOLEIDDIO

- Bydd Ofcom yn gweithredu gyda rhagfarn yn erbyn ymyrryd, ond gyda pharodrwydd i ymyrryd yn ddi-oed ac mewn ffordd effeithiol lle bydd gofyn.
- Bydd Ofcom yn ymyrryd lle bydd dyletswydd benodol i weithio tuag at nod polisi cyhoeddus na all marchnadoedd eu cyflawni ar eu pen eu hunain.

SUT Y BYDDWN YN RHEOLEIDDIO

- Bydd Ofcom bob tro'n ceisio'r defnyddio'r dulliau rheoleiddio sy'n tarfu lleiaf er mwyn cyflawni amcanion ein polisïau.
- Bydd Ofcom yn ymdrechu i sicrhau bod ein hymyriadau'n seiliedig ar dystiolaeth, yn gymesur, yn gyson, yn atebol ac yn dryloyw a hynny o ran y trafodaethau a'r canlyniad.
- Bydd Ofcom yn rheoleiddio gyda chynllun blynyddol sydd wedi'i fynegi'n glir ac wedi'i adolygu'n gyhoeddus ynghyd ag amcanion polisi sydd wedi'u datgan.

SUT Y BYDDWN YN CEFNOGI'R RHEOLEIDDIO

- Bydd Ofcom yn ymchwilio'n gyson i farchnadoedd a bydd yn ceisio aros ar flaen y gad o ran dealltwriaeth dechnolegol.
- Bydd Ofcom yn ymgynghori'n eang â'r holl randdeiliaid perthnasol ac yn asesu effaith camau rheoleiddio cyn gorfodi rheoleiddio ar farchnad.

## LLEIHAU RHEOLEIDDIO

Un elfen allweddol o well trefn rheoleiddio yw sicrhau bod y rheoleiddio'n cael ei dargedu'n iawn ac nad yw'n gorfodi beichiau diangen ar ein rhanddeiliaid. Ym mis Rhagfyr 2008, cyhoeddwyd ein Cynllun Symleiddio blynyddol, sy'n nodi'r holl gynlluniau yr ydym yn mynd i'r afael â hwy er mwyn dileu neu leihau rheoleiddio. Mae hwn yn dangos hyn sut yr ydym yn cyflawni'n dyletswydd dan Adran 6 y Ddeddf Cyfathrebiadau er mwyn lleihau'r baich rheoleiddio ar ein rhanddeiliaid.

Mae Ffigur 2 yn crynhoi datganiadau polisi Ofcom a roddwyd yn ystod 2008/9. Yn y ffigur hwn:

- rydym wedi asesu sut mae pob penderfyniad wedi effeithio ar drywydd y rheoleiddio ac mae hyn wedi'i adlewyrchu yn lliw'r cylchoedd;
- rydym wedi asesu dylanwad y penderfyniad drwy gyfeirio at faint y farchnad yr effeithir arni yn sgil y rheoleiddio ac mae hyn wedi'i adlewyrchu ym maint y cylchoedd.

Mae'r Ffigur hefyd yn cynnig golwg gyffredinol ar benderfyniadau rheoleiddio Ofcom. Y llynedd, cafwyd penderfyniadau mawr a phwysig am reoleiddio. Roedd rhai penderfyniadau'n caniatáu inni barhau ar drywydd lleihau rheoleiddio. Roedd penderfyniadau eraill yn gofyn am reoleiddio ychwanegol neu fwy o reoleiddio er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau i ddinasyddion a defnyddwyr.

Yn benodol, mae Ffigur 2 yn dangos ein bod yn barod i gymryd camau pendant ac effeithiol er mwyn gwarchod dinasyddion a defnyddwyr lle bo angen, er enghraifft:


- ehangu'r Rheoleiddio ar Wasanaethau'r Gyfradd Bremiwm i rifau 087;
- gwarchod defnyddwyr rhag cam-werthu gwasanaethau telathrebu symudol.

Mae'n dangos hefyd ein bod wedi ymrwymo i leihau rheoleiddio drwy, er enghraifft:

- llacio a rhyddhau'r sbectrwm radio (dyfarnu'r sbectrwm sydd ar gael: 2500-2690 MHz, 2010-2025 MHz, a dyfarnu sbectrwm Ofcom 1452-1492 MHz);
- mynd i'r afael â phroblemau gyda radio busnes (Diwygio Radio Busnes).

Mae cynnydd wedi bod hefyd yn nifer y trefniadau symleiddio neu gydreoli. Yn 2007/8 dim ond un enghraifft o hyn gafwyd, yn 2008/9, cafwyd 6 enghraifft.

## Perfformiad a gwerthuso




### FFIGUR 2: Penderfyniadau allweddol Ofcom – trywydd y newidiadau rheoleiddio

Mae maint y cylchoedd yn dangos maint y farchnad yr effeithiwyd arni. Mae lliw'r cylch yn dangos trywydd y rheoleiddio fel a ganlyn:

- Wedi'i gynyddu/newydd
- Cymysg/dim newid
- Symleiddio/cydreoli
- Lleihau/goddef

Ffynhonnell: cofnod rheoleiddio Ofcom

### Penderfyniadau Allweddol Ofcom – trywydd y newidiadau o ran rheoleiddio – rhestr o ddatganiadau

**1.** Teledu Digidol: Galluogi Gwasanaethau Newydd

**2.** Dyfarnu'r sbectrwm sydd ar gael: 2500-2690 MHz, 2010-2025 MHz

**3.** Dyfodol Rhaglennu Teledu Plant – Darparu cynnwys gwasanaeth cyhoeddus i blant yn y dyfodol

**4.** Penderfyniad i addasu'r Cynllun Rhifo Ffonau Cenedlaethol er mwyn darparu ar gyfer y galw am rifau daearyddol yn ardal Ebbsfleet

**5.** Dyfarniad Sbectrwm Ofcom 1452 -1492 MHz

**6.** Ceisiadau gan BT am gael ei esgusodi rhag ei Ymrwymiadau dan Ddeddf Menter 2002 ar gyfer Wavestream, Redcare Fire a Security a Pathfinder

**7.** Adolygu'r marchnadoedd mynediad at fand eang cyfanwerthol

**8.** Gweithdrefnau ar gyfer Rheoli Ffeilio Lloerenni

**9.** Rhoi nifer o gamau cadwraeth ar waith yng nghyswllt rhifau mewn codau ardal daearyddol ychwanegol gan gynnwys addasu'r Cynllun Rhifo Ffonau Cenedlaethol

**10.** Newidiadau i ddatganiadau ariannol rheoleiddiol BT 2007/08

**11.** Cynllun Mesuryddion a Bilio Ofcom

**12.** Rheoleiddio cyfle cyfartal yn y maes darlledu yn y dyfodol

**13.** Côd ar gyfer Amserlennu hysbysebu ar y Teledu – Rheolau diwygiedig ar amserlennu hysbysebion

**14.** Cynllun Peilot Ffibr i Gartrefi Ebbsfleet – Caniatâd ar gyfer codi prisiau amrywiol ar gyfer gwasanaethau teleffoni manwerthol dan Amod Gwasanaeth Cyffredinol 1

**15.** Diwygio Radio Busnes

**16.** Datganiad polisi diwygiedig am gamddefnyddio rheolaidd ar rwydwaith neu wasanaeth cyfathrebu electronig

**17.** Penderfyniad i wneud Rheoliadau Telegraffi Di-wifr (Gwasanaethau Cyfathrebu Symudol ar Awyrennau) (Esemptiad) 2008

**18.** Penderfyniad i wneud Rheoliadau Telegraffi Di-wifr (Esemptiad) (Diwygio) (Rhif 2) 2008

**19.** Adeiladwaith Newydd y Genhedlaeth Nesaf

**20.** Rheoleiddio gwasanaethau radio cymunedol

**21.** Amrywiadau i Ymrwymiadau BT dan Ddeddf Menter 2002 yng nghyswllt gwahanu NGN, Gofod a Phŵer BT ac OSS

**22.** Adolygiad Difidend Digidol: dyfarniadau rhyngddalennol daearyddol ar gyfer bandiau amledd 542-550 MHz a 758-766 MHz ar gyfer Caerdydd a Manceinion

**23.** Dosbarthiadau Cyffredin y Sbectrwm ar gyfer Esemptiadau yng nghyswllt Trwydded

**24.** Ceisiadau gan BT am amrywio'i Ymrwymiadau dan Ddeddf Menter 2002 a'i esemptio ohonynt yng nghyswllt IPStream mewn rhai marchnadoedd daearyddol penodol a Wavestream National

**25.** Adolygiad o'r Farchnad Cysylltedd Busnes (ac eithrio Hull))

**26.** Neilltuo amleddau rhyngddalennol analog UHF dros dros

**27.** Canfod atebion rheoleiddiol priodol: egwyddorion ar gyfer dadansoddi hunanreoli a chydreoli – Datganiad

**28.** Terfynau ar esemptiadau yng nghyswllt trwyddedau pŵer isel uwchben 10GHz

**29.** Adolygiad Ofcom o daliadau ychwanegol

**30.** Ail Adolygiad Ofcom o Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus: Rhoi Gwylwyr yn Gyntaf

**31.** Adran 75, Deddf Gogledd Iwerddon 1998

**32.** Prisio'r Sbectrwm Lloeren

**33.** Penderfyniad i wneud Rheoliadau Telegraffi Di-wifr (Systemau Trafnidiaeth Deallus Seiliedig ar Gerbydau) (Esemptiad) 2009

**34.** Hepgor gofynion hysbysu ynglŷn â phrisiau BT yng nghyswllt rhai o brisiau penodol BT WES, Wes a BEs

**35.** Adolygu Fframwaith y Sbectrwm ar gyfer y Sector Cyhoeddus

**36.** Ymestyn Rheoliad Gwasanaethau'r Gyfradd Bremiwm i Rifau 087

**37.** Adolygiad o'r Farchnad Cysylltedd Busnes (Hull)

**38.** Cysoni rhifau Ewropeaidd ar gyfer gwasanaethau â gwerth cyhoeddus: Dyrannu a threfniadau codi tâl ar gyfer rhifau 116 yn y DU

**39.** Adolygu'r gyfres rhifau personol 070

**40.** Darparu band eang cyflym iawn yn y DU

**41.** Gwarchod cwsmeriaid rhag cam-werthu gwasanaethau telathrebu symudol

## CYFNODAU YMGYNGHORI A'R YMATEBION

Un o'r ffyrdd allweddol y byddwn yn ei defnyddio i feithrin cysylltiad â rhanddeiliaid a'u galluogi i ddylanwadu ar ein penderfyniadau polisi yw drwy ymgynghori.

Os bydd ymgynghoriad yn rhy fyr, efallai na fydd digon o amser i rai o'r rheini y mae ganddynt farn bwysig i'w rhannu baratoi eu hymateb. Os yw'n rhy hir, mae'n bosib y bydd y farchnad dan sylw wedi newid yn ddramatig. Gallai hyn effeithio ar ein gallu i ymdrin â mater cyn gynted byth ag y byddai'r rhanddeiliaid dan sylw'n ei hoffi. Wrth benderfynu am faint y dylai ymgynghoriad bara, mae angen inni gadw'r ddysgl yn wastad rhwng y ddwy ystyriaeth hyn. Fel rheol, ceir tri chategori o ymgynghori:

- Categori 1: ymgynghori sy'n cynnwys cynlluniau polisi mawr a/neu sydd o ddiddordeb i ystod eang o randdeiliaid (yn enwedig y rheini y gall fod angen mwy o amser arnynt i ymateb); yn yr achosion hyn byddwn yn ymgynghori am ddeg wythnos.
- Categori 2: ymgynghori a fydd, er ei fod yn ymwneud â chynigion polisi pwysig, o ddiddordeb i nifer gyfyngedig o randdeiliaid a fydd yn ymwybodol o'r materion dan sylw; yn yr achosion hyn, byddwn yn ymgynghori am chwech wythnos.
- Categori 3: ymgynghori sy'n dod o fewn un o'r categorïau a ganlyn neu o fewn mwy nag un ohonynt, lle caniateir mis ar gyfer yr ymgynghori:
  - materion technegol manwl;
  - lle bydd angen cwblhau prosiect o fewn amserlen benodol oherwydd datblygiadau yn y farchnad neu ffactorau eraill lle'r oedd gofyn cwblhau'r prosiect o fewn cyfnod byr;
  - bod y mater eisoes wedi bod yn destun ymgynghori;
  - lle na chaiff cynnig fawr o effaith ar farchnad; neu
  - lle nad yw'r cynnig ond yn fân ddiwygiad i bolisi neu reoleiddiad sy'n bodoli eisoes.

Yn Ffigur 2 dadansoddir hyd ein hymgynghoriadau ynglŷn â pholisïau fesul sector. Bydd cyfnod ymgynghori hwy'n rhoi mwy o gyfle i randdeiliaid ymateb ac ymwneud mwy â phenderfyniadau ynglŷn â pholisïau. Mae hyn yn arbennig o bwysig pan fydd y mater yr ymgynghorir yn ei gylch o bwys mawr a'i fod yn destun trafod amlwg. Dengys Ffigur 3 fod y rhan fwyaf o'n cyfnodau ymgynghori yn ystod 2008/9 wedi para deg wythnos fan leiaf (52% o'r ymgynghoriadau), cynnydd ar ein perfformiad yn 2007/8 (42%).

Bydd Ofcom hefyd yn casglu ystadegau ynglŷn â nifer yr ymatebion i ymgynghoriadau. Dangosir hyn yn Ffigur 4. Mae'r siart yn dangos y nifer fawr o ymatebion yr ydym wedi'u cael dros y flwyddyn, ar sail y 63 ymgynghoriad lle cyhoeddwyd datganiad wedyn. Mae nifer o ymgynghoriadau wedi denu ystod eang iawn o ymatebion, llawer mwy nag yn 2007/8, ond roedd y rhan fwyaf o'r materion yr ymgynghorwyd yn eu cylch yn gulach eu cwmpas ac o ddiddordeb i gylch llai o randdeiliaid.

## GWNEUD PENDERFYNIADAU'N BRYDLON

Rydym hefyd wedi dadansoddi faint o amser y mae'n ei gymryd inni gyhoeddi datganiad polisi ar ôl i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben.

Mae nifer o ffactorau'n effeithio ar hyd y cyfnod rhwng cau'r cyfnod ymgynghori a chyhoeddi'r datganiad wedyn, gan gynnwys:

- nifer yr ymatebion a gawn a natur yr ymateb hwnnw;
- a yw ein penderfyniad terfynol yn dibynnu ar ffactorau allanol;
- bod angen inni flaenoriaethu defnyddio'n hadnoddau.

Dadansoddir yr amser a gymer inni benderfynu yn Ffigur 5. Cyhoeddir mwyafrif ein datganiadau yn awr o fewn deg wythnos i ddiwedd y cyfnod ymgynghori. Mae'r data hwn yn cymharu'n ffafriol â'n perfformiad yn 2007/8.


Perfformiad a gwerthuso

### FFIGUR 3: Dadansoddi hyd y cyfnodau ymgynghori 2008/09

| | Cyfnod ymgynghori'n 10 wythnos fan leiaf | Cyfnod ymgynghori'n llai na 10 wythnos (gan gynnwys ymgynghoriadau categori 2 a chategori 3) |
|---|---|---|
| Telathrebu | 15 | 12 |
| Darlledu | 5 | 5 |
| Sbectrwm | 11 | 12* |
| Arall | 2 | 1 |
| **Cyfanswm** | **33 (52%)** | **30 (48%)** |


Cyhoeddir canllawiau ymgynghori Ofcom ar ei wefan.: www.ofcom.org.uk/consult/consult_method/ofcom_consult_guide
* Ymgynghoriadau statudol ynglŷn â rheoliadau oedd mwyafrif yr ymgynghoriadau ynglŷn â’r sbectrwm ac ar gyfer y rhain, pennir y cyfnod lleiaf ar gyfer yr ymgynghori drwy statud, sef un mis

### FFIGUR 4: Ymatebion i ymgynghoriadau




Seilir y data hwn ar ddatganiadau a gyhoeddwyd yn 2008/9 ac maent yn cyfeirio at nifer yr ymatebion a gafwyd yngl Ðn â'r ddogfen ymgynghori berthnasol (ac efallai i honno gael ei chyhoeddi mewn blwyddyn adrodd flaenorol)

**FFIGUR 5: Dadansoddiad o'r amser a gymerwyd i gyhoeddi penderfyniad polisi gan Ofcom ar ôl i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben**




Y pum datganiad a roddwyd fwy na 30 wythnos ar ôl i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben (a'r rhesymau dros yr oedi) oedd:

- Datganiad diwygiedig ynglŷn â pholisi'n ymwneud â chamddefnyddio parhaus ar rwydwaith neu wasanaeth cyfathrebu electronig (nifer/math o ymatebion);
- Adolygiad Ofcom o daliadau ychwanegol (nifer/math o ymatebion);
- Ail Adolygiad Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus Ofcom; Rhoi Gwylwyr yn Gyntaf (nifer yr ymatebion, dadansoddiad pellach);
- Ymestyn y Rheoliad ynglŷn â Gwasanaethau'r Gyfradd Bremiwm i Rifau 087 (diwygio'r Asesiad Effaith ar ôl cael ymateb i'r ymgynghori);
- Gwarchod defnyddwyr rhag cam-werthu gwasanaethau telathrebu symudol (mwy o fonitro, ymchwil a diwygiadau i'r Asesiad Effaith).

## RHEOLI EIN GWAITH

Bydd Ofcom yn defnyddio methodoleg safonol ar gyfer rheoli ei holl brosiectau ac fe ddatblygwyd honno yn 2007/8. Mae'r fethodoleg hon yn rhannu cylch oes prosiect yn bum cam allweddol, gyda phwyntiau adolygu ffurfiol ar ddiwedd pob cam. Mae'n cynnig gwybodaeth fwy cadarn inni am brosiectau megis gwybodaeth am y gost a niferoedd ar gyfer oes prosiect, dull mwy ffurfiol a threfnus o gychwyn prosiectau a'u cwblhau, diffinio cwmpas prosiectau ac asesu'r perfformiad ar brosiectau.

Yn ystod 2008/9, cryfhawyd y system a oedd gennym eisoes ar gyfer adrodd ar brosiectau, sef Artemis, er mwyn cynnwys y fethodoleg rheoli prosiectau pum cam newydd. Ar ôl ei haddasu, lledaenwyd y system ddechrau Ebrill 2009. Byddwn yn dal i ddatblygu galluoedd adrodd a chynllunio prosiectau'r system eleni, er mwyn ein cynorthwyo i reoli'n gwaith yn fwy effeithiol ac yn fwy effeithlon.

## ASESIADAU EFFAITH

Mae Asesiadau Effaith yn rhan bwysig o'r broses llunio polisïau. Maent yn sicrhau, yng nghyswllt ein penderfyniadau ynglŷn â pholisïau;

- bod ystod eang o ddewisiadau'n cael eu hystyried, gan gynnwys peidio â rheoleiddio;
- bod y dewisiadau hyn yn cael eu cyflwyno'n glir;
- bod yr effaith bosibl a gâi pob dewis yn cael ei dadansoddi'n ofalus;
- y bydd y costau sy'n gysylltiedig â'r dewis a ddewisir yn cael eu gwrthbwyso gan y manteision.

Mae gan Ofcom ddyletswydd statudol i gyhoeddi rhestr o'r asesiadau effaith a gynhelir yn ystod y flwyddyn. Mae'r rhestr hon i'w gweld yn Ffigur 6.

## FFIGUR 6: ASESIADAU EFFAITH A GYNHALIWYD YN YSTOD 2008/09

### Datganiadau a gyhoeddwyd gan Ofcom yn 2008/09 lle'r oedd yr ymgynghoriad a'u rhagflaenodd yn cynnwys asesiad effaith

| |
|---|
| Teledu Digidol: Galluogi Gwasanaethau Newydd |
| Dyfarnu'r sbectrwm sydd ar gael: 2500-2690 MHz, 2010-2025 MHz |
| Penderfyniad i addasu'r Cynllun Rhifo Ffonau Cenedlaethol er mwyn darparu ar gyfer y galw am rifau daearyddol yn ardal Ebbsfleet |
| Dyfarniad Sbectrwm Ofcom 1452-1492 MHz |
| Adolygu'r marchnadoedd mynediad at fand eang cyfanwerthol |
| Gweithdrefnau ar gyfer Rheoli Ffeilio Lloerenni |
| Newidiadau i ddatganiadau ariannol rheoleiddiol BT 2007/08 |
| Cynllun Mesuryddion a Bilio Ofcom |
| Rheoleiddio cyfle cyfartal yn y maes darlledu yn y dyfodol |
| Côd ar gyfer Amserlennu hysbysebu ar y Teledu – Rheolau diwygiedig ar amserlennu hysbysebion |
| Cynllun Peilot Ffibr i Gartrefi Ebbsfleet – Caniatâd ar gyfer codi prisiau amrywiol ar gyfer gwasanaethau teleffoni manwerthol dan Amod Gwasanaeth Cyffredinol 1 |
| Diwygio Radio Busnes |
| Penderfyniad i wneud Rheoliadau Telegraffi Di-wifr (Gwasanaethau Cyfathrebu Symudol ar Awyrennau) (Esemptiad) 2008 |
| Penderfyniad i wneud Rheoliadau Telegraffi Di-wifr (Esemptiad) (Diwygio) (Rhif 2) 2008 |
| Adeiladwaith Newydd y Genhedlaeth Nesaf |
| Amrywiadau i Ymrwymiadau BT dan Ddeddf Menter 2002 yng nghyswllt gwahanu NGN, Gofod a Phŵer BT ac OSS |
| Adolygiad Difidend Digidol: dyfarniadau rhyngddalennol daearyddol ar gyfer bandiau amledd 542-550 MHz a 758-766 MHz ar gyfer Caerdydd a Manceinion |
| Dosbarthiadau Cyffredin y Sbectrwm ar gyfer Esemptiadau yng nghyswllt Trwydded |
| Adolygiad o'r Farchnad Cysylltedd Busnes (ac eithrio Hull) |
| Neilltuo amleddau rhyngddalennol analog UHF dros dro |
| Terfynau ar esemptiadau yng nghyswllt trwyddedau pŵer isel uwchben 10GHz |
| Adran 75, Deddf Gogledd Iwerddon 1998 |
| Prisio'r Sbectrwm Lloeren |
| Penderfyniad i wneud Rheoliadau Telegraffi Di-wifr (Systemau Trafnidiaeth Deallus Seiliedig ar Gerbydau) (Esemptiad) 2009 |
| Adolygu Fframwaith y Sbectrwm ar gyfer y Sector Cyhoeddus |
| Ymestyn Rheoliad Gwasanaethau'r Gyfradd Bremiwm i Rifau 087 |
| Adolygiad o'r Farchnad Cysylltedd Busnes (Hull) |
| Cysoni rhifau Ewropeaidd ar gyfer gwasanaethau â gwerth cyhoeddus: Dyrannu a threfniadau codi tâl ar gyfer rhifau 116 yn y DU |
| Adolygu'r gyfres rhifau personol 070 |
| Darparu band eang cyflym iawn yn y DU |
| Gwarchod cwsmeriaid rhag cam-werthu gwasanaethau telathrebu symudol |

### Ymgynghoriadau a gyhoeddwyd gan Ofcom yn 2008/9 a oedd yn cynnwys asesiad effaith a lle nad oes datganiad wedi'i gyhoeddi

| |
|---|
| Rhybudd o gynnig Ofcom i wneud rheoliadau ng nghyswllt dyfarnu 2500-2690MHz a 2010-2025MHz |
| Newidiadau i 0870 |
| Adolygu'r weithdrefn Datrys Anghydfodau drwy ddulliau Amgen a'r Weithdrefn Trin Cwynion |
| Adolygu gwybodaeth am ansawdd y gwasanaeth cam 1: Gwybodaeth am ansawdd y gwasanaeth i gwsmeriaid |
| Adolygiad Difidend Digidol: dyfarnu rheolwr band |
| Awdurdodi rhwydweithiau symudol daearol i ategu systemau lloerenni symudol 2GHz |
| Rheoli'r sbectrwm uwchben 275 GHz |
| Gwasanaethau Teledu Daearol Digidol arfaethedig BSkyB |
| Ail ymgynghoriad Teledu am Dâl |
| Adolygu rheoleiddio hysbysebu ar y teledu a thelesiopa – Cam Dau |
| Defnyddio'r sbectrwm mewn ffordd arloesol |
| Dulliau Rheoli Taliadau Llinellau ar Les |
| Fframwaith Prisio Newydd ar gyfer Openreach – Datblygu dulliau rheoli taliadau newydd ar gyfer rhentu llinellau cyfanwerthol, dolenni lleol heb eu bwndeli a gwasanaethau cysylltiedig |
| Adolygu ffioedd trwydded Radio busnes ym Mand 1 |

Ym mis Gorffennaf 2005, cyhoeddwyd canllawiau *Arferion gorau wrth lunio polisïau: agwedd Ofcom at asesu effaith* a oedd yn pwysleisio ymrwymiad Ofcom i gynnal asesiadau fel rhan hanfodol o'r broses llunio polisïau gan ddweud ein bod yn disgwyl cynnal Asesiadau Effaith ym mwyafrif helaeth ein penderfyniadau ynglŷn â pholisïau. Bwriadwn gyhoeddi canllawiau diwygiedig yn ystod 2009 er mwyn gwella effeithiolrwydd Asesiadau Effaith ac er mwyn adlewyrchu newidiadau yn yr arferion gorau. Yn Ffigur 7, dadansoddir i ba raddau yr oedd dogfennau ymgynghori Ofcom yn cynnwys Asesiad Effaith wedi'i labelu'n glir, h.y. Asesiad Effaith mewn adran neu atodiad penodol o'r ddogfen ymgynghori.

**FFIGUR 7: Dadansoddiad o'r asesiadau effaith a gynhaliwyd**

| Nifer y dogfennau ymgynghori | Cyfanswm | AE yn amlwg yn y ddogfen a gyhoeddwyd |
|---|---|---|
| Telathrebu | 27 | 21 |
| Darlledu | 10 | 4 |
| Sbectrwm | 23 | 22 |
| Arall | 3 | 1 |
| **Cyfanswm** | **63** | **48 (=76%)** |

Mae'r tabl yn dangos bod 76 y cant o'r dogfennau ymgynghori'n cynnwys asesiad effaith wedi'i labelu'n glir. Dengys y dadansoddiad hwn ein bod yn cyflawni'r ymrwymiad a wnaethom yn ein canllawiau, a byddwn yn parhau i sicrhau bod asesiadau effaith yn cael eu cynnal a'u cyflwyno'n iawn ym mhob achos perthnasol.

## MESUR CANFYDDIADAU RHANDDEILIAID

Byddwn hefyd yn mesur canfyddiadau rhanddeiliaid o'n perfformiad, gan geisio'u barn am ystod eang o faterion, gan gynnwys ansawdd ein hallbwn a pha mor dda oedd yr ymgynghori. Yn ogystal â hynny, byddwn yn cynnal arolygon rheolaidd ymhlith y rhanddeiliaid hynny y byddwn yn darparu gwasanaeth ar eu cyfer, megis defnyddwyr y sbectrwm ac unigolion sy'n cysylltu â Thîm Cynghori Ofcom a chyflwynir y prif ganfyddiadau isod ochr yn ochr â'n dangosyddion perfformiad allweddol.

# Data ystadegol

## CYFLWYNO GWASANAETHAU A GORFODI

Yn ogystal â datblygu polisi, bydd Ofcom yn darparu gwasanaethau i'w randdeiliaid ac yn gwneud gwaith gorfodi. Mae gan Ofcom ystod o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol (DPAion) i fesur sut yr ydym yn darparu'r gwasanaethau hyn. Ynghyd â'r perfformiad ariannol, maent yn dangos i ba raddau yr ydym yn effeithlon ac yn effeithiol yn fewnol.

Mae'r data yn yr adran hon yn ymwneud â'r meysydd a ganlyn:

- Rhifo – Dangosyddion Perfformiad Allweddol ar gyfer rhifau ffôn;
- Trwyddedu'r sbectrwm – cyhoeddi trwyddedau – (categorïau A, B ac C);
- Trwyddedu'r sbectrwm – Dangosyddion Perfformiad Allweddol ar gyfer trwyddedu;
- Gwaith ar y sbectrwm – gwaith maes;
- Gwaith ar y sbectrwm – Dangosyddion Perfformiad Allweddol ar gyfer gwaith maes;
- Darlledu – cwynion am raglenni (gan gynnwys DPAion);
- Darlledu – tegwch a phreifatrwydd (gan gynnwys DPAion);
- Darlledu – Pwyllgor Sancsiynau ar Gynnwys;
- Rhaglen ymchwiliadau – DPAion;

Yn y rhan fwyaf o'r meysydd, mae Ofcom yn gweithredu'n unol â'r targedau y credwn eu bod yn ofynnol er mwyn diwallu anghenion rhanddeiliaid, neu'n agos at y targedau hynny.

## RHIFO

Mae Ofcom yn gyfrifol am reoli rhifau ffôn yn y DU. Fel rhan o hyn, byddwn yn prosesu ceisiadau am flociau o rifau ffôn gan ddarparwyr gwasanaethau cyfathrebu.

Mae gofyn i Ofcom benderfynu ynglŷn â cheisiadau am rifau ffôn o fewn tair wythnos inni dderbyn yr holl wybodaeth berthnasol. Yn ystod y cyfnod dan sylw, llwyddodd Ofcom i gyflawni 100 o'r dyraniad o fewn y targedau.

## TRWYDDEDU'R SBECTRWM

Bydd Ofcom yn cyhoeddi trwyddedau'r Ddeddf Telegraffi Di-wifr. Fel rheol, cyfeirir at y rhain yn ôl enw'r offer a drwyddedir ganddynt, megis y drwydded Radio Llongau neu'r Drwydded Rhwydwaith Lloeren.

Rhennir pob math o drwydded yn dri chategori mwy: A, B ac C.

- Trwyddedau syml yw trwyddedau Categori A lle nad oes gofyn neilltuo amleddau, clirio safleoedd na chydlynu rhyngwladol.
- Mae trwyddedau Categori B yn fwy cymhleth ac mae angen gofyn neilltuo amleddau, ond nid oes angen clirio safleoedd na chydlynu rhyngwladol.
- Trwyddedau Categori C yw'r rhai mwyaf cymhleth lle mae gofyn neilltuo amleddau, clirio safleoedd a/neu gydlynu rhyngwladol.

Mae gofyn i Ofcom adrodd yn fanwl ynglŷn â'i weithgarwch rheoli'r sbectrwm ; ac mae'r tablau isod yn disgrifio gwaith trwyddedu dan y Ddeddf Telegraffi Di-wifr, a hwnnw weithiau'n annewisol ac yn ddewisol, yn ystod y cyfnod dan sylw.

Yn ystod y flwyddyn hon, cwblhaodd Ofcom ei waith i uwchraddio systemau trwyddedu, ac yn sgil hynny, symleiddiwyd ein prosesau trwyddedu gan leihau nifer y mathau o drwyddedau a roddir gennym. Dengys y tablau isod enwau'r mathau newydd o drwyddedau; ac mae tabl yn ddiweddarach yn yr adran hon yn dangos yr hen enwau o'u cymharu â'r rhai newydd.

## Data ystadegol

### CATEGORI A

| Trwyddedau syml yw trwyddedau Categori A lle nad oes gofyn neilltuo amleddau, clirio safleoedd na chydlynu rhyngwladol. | Trwyddedau a roddwyd Ebrill 08- Mawrth 09 | Trwyddedau a roddwyd Ebrill 07- Mawrth 08 | Cyfanswm a roddwyd fel yr oedd y sefyllfa ar 31 Mawrth 09 |
|---|---|---|---|
| Radio Busnes Ysgafn – Syml DU (dim gorsaf) | 906 | 1,099 | 5,655 |
| Mynediad Di-wifr Sefydlog (5.8 GHz) | 60 | 77 | 236 |
| Safle Radio Busnes Syml | 544 | 627 | 8,705 |
| Cyflenwyr Radio Busnes Ysgafn | 38 | 32 | 416 |
| Heddlu a Thân | 1 | 1 | 70 |
| **Isgyfanswm ar gyfer cynnyrch Radio Busnes** | **1,549** | **1,836** | **15,082** |
| Mesur Lefel Radar | 0 | 0 | 124 |
| CB, Amatur a Morol | 20,155 | 27,443 | 164,169 |
| **Cyfanswm ar gyfer Categori A** | **21,704** | **29,279** | **179,375** |

### CATEGORI B

| Trwyddedau lle mae gofyn neilltuo amleddau, ond lle nad oes angen clirio safle na chydlynu rhyngwladol. | Trwyddedau a roddwyd Ebrill 08- Mawrth 09 | Trwyddedau a roddwyd Ebrill 07- Mawrth 08 | Cyfanswm a roddwyd fel yr oedd y sefyllfa ar 31 Mawrth 09 |
|---|---|---|---|
| System Adnabod Awtomatig | 32 | 31 | 88 |
| Radio Gorsaf y Glannau (Rhyngwladol) | 30 | 20 | 469 |
| Radio Gorsaf y Glannau (DU) | 36 | 43 | 406 |
| Radio Gorsaf y Glannau (Marina) | 27 | 18 | 401 |
| Radio Gorsaf y Glannau (Ysgol Hyfforddi) | 15 | 37 | 192 |
| Radio Morol (Cyflenwyr ac Arddangos) | 10 | 6 | 83 |
| Cynnyrch Cymorth Morol a Radar | 32 | 7 | 100 |
| System Lleoli Byd-Eang Wahaniaethol | 0 | 3 | 13 |
| **Isgyfanswm ar gyfer dadreoleiddio a gosod cynnyrch dan gontract** | **182** | **165** | **1,752** |
| Radio Busnes wedi'i Neilltuo'n Dechnegol | 3,326 | 3,940 | 31,698 |
| Radio Busnes (Systemau Cyfathrebu Lleol ar y Safle) (Safle Radio Busnes Syml erbyn hyn) | AM | 31 | AM |
| Radio Busnes (Systemau Dalennu Un Ffordd a Lleferydd ar y Safle) (Safle Radio Busnes Syml erbyn hyn) | AM | 144 | AM |
| Ardal Radio Busnes wedi'i Neilltuo | 3 | 7 | 39 |
| Radio Busnes (Data Symudol Cyhoeddus, Nid llais) (Safle Radio Busnes Syml erbyn hyn) | AM | 1 | AM |
| Radar Profi'r Tir | 0 | 0 | 116 |
| Telemetreg Sganio | 0 | 0 | 31 |
| Dolenni hunan-gydlynol | 4 | 10 | 15 |
| Mynediad Sbectrwm ar gyfer amleddau 412-414MHz | 0 | 1 | 1 |
| Mynediad Sbectrwm 10-40 GHz | 0 | 10 | 10 |
| Dyfarniad 1785MHz GI | 0 | 1 | 1 |
| **Isgyfanswm ar gyfer cynnyrch Radio Busnes** | **3,333** | **4,145** | **31,911** |
| **Cyfanswm ar gyfer Categori B** | **3,515** | **4,310** | **33,663** |

## Data ystadegol

### CATEGORI C

Roedd rhan o uwchraddio'n systemau trwyddedu'n cynnwys newid mawr o ran prosesau trwyddedu dolenni sefydlog. Byddwn yn awr yn cyhoeddi trwydded ar gyfer pob dolen sefydlog. O'r blaen byddem yn rhoi un drwydded ar gyfer pob darparwr dolen sefydlog. Mae hyn yn esbonio'r cynnydd mawr yn nifer y trwyddedau ar gyfer dolenni sefydlog.

| **Trwyddedau lle mae gofyn neilltuo amleddau, clirio safleoedd a/neu gydlynu rhyngwladol.** | **Trwyddedau a roddwyd Ebrill 08- Mawrth 09** | Trwyddedau a roddwyd Ebrill 07- Mawrth 08 | **Cyfanswm a roddwyd fel yr oedd y sefyllfa ar 31 Mawrth 09** |
|---|---|---|---|
| Dolenni Sefydlog | 4,667 | 25 | 43,801 |
| Lloeren (Gorsaf Ddaearol Barhaol) | 18 | 51 | 126 |
| Lloeren (Gorsaf Ddaearol Gludadwy) | 62 | 28 | 124 |
| Lloeren (Rhwydwaith Gorsaf Ddaearol) | 6 | 11 | 33 |
| **Cyfanswm ar gyfer Categori C** | **4,753** | **115** | **44,084** |

### TRWYDDEDAU PROFI A DATBLYGU

| | **Trwyddedau a roddwyd Ebrill 08- Mawrth 09** | Trwyddedau a roddwyd Ebrill 07- Mawrth 08 | **Cyfanswm a roddwyd fel yr oedd y sefyllfa ar 31 Mawrth 09** |
|---|---|---|---|
| Trwydded datblygu anweithredol | 238 | 244 | 387 |
| Trwydded Dros Dro Anweithredol | 100 | 28 | 116 |
| **Cyfanswm ar gyfer Profi a Datblygu** | **338** | **272** | **503** |

### TRWYDDEDAU SYMUDOL A BAND EANG

| **Trwyddedau a roddwyd drwy arwerthu neu ddyfarnu'r sbectrwm** | **Trwyddedau a roddwyd Ebrill 08- Mawrth 09** | Trwyddedau a roddwyd Ebrill 07- Mawrth 08 | **Cyfanswm a roddwyd fel yr oedd y sefyllfa ar 31 Mawrth 09** |
|---|---|---|---|
| Ffonau Symudol 2G | 0 | 0 | 4 |
| Ffonau Symudol 3G | 0 | 0 | 5 |
| Ffonau Symudol 2G Ynysoedd y Sianel ac Ynys Manaw | 0 | 0 | 10 |
| Ffonau Symudol 3G Ynysoedd y Sianel ac Ynys Manaw | 0 | 0 | 9 |
| Mynediad Di-wifr Sefydlog a Mynediad Band Eang Di-wifr Sefydlog 28 GHz, 3.6 GHz a 3.4 GHz | 0 | 0 | 16 |
| Mynediad Di-wifr Sefydlog a Mynediad Band Eang Di-wifr Sefydlog Ynysoedd y Sianel ac Ynys Manaw 28 GHz, 3.6 GHz a 3.4 GHz | 0 | 0 | 10 |
| Mynediad Di-wifr Sefydlog 10 GHz Ynysoedd y Sianel | 1 | 0 | 1 |
| Mynediad Sbectrwm 412-414 MHz | 0 | 0 | 1 |
| Mynediad Sbectrwm Dect Guardband 1781-1785 MHz | 0 | 0 | 12 |
| Mynediad Sbectrwm 1785 GI | 0 | 1 | 1 |
| Mynediad Sbectrwm 10-40GHz | 0 | 10 | 10 |
| Mynediad Sbectrwm 1452-1492 MHz (L-Band) | 1 | 0 | 1 |
| Mynediad Sbectrwm DDR GI 541-55- MHz (Caerdydd) | 1 | 0 | 1 |
| Mynediad Sbectrwm DDR GI 758-766 MHz (Manceinion) | 1 | 0 | 1 |
| **Cyfanswm ar gyfer Symudol a Band Eang Di-wifr** | **4** | **11** | **82** |

## Data ystadegol

Mae'r Awdurdod Hedfan Sifil yn cyhoeddi trwyddedau ar gyfer awyrennau ac mae'r Cyd-Grŵp Rheoli Amleddau yn rhoi trwyddedau ar gyfer darllediadau allanol a gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig ac yn eu hawdurdodi.

### TRWYDDEDAU SBECTRWM ANNEWISOL

| **Gweithgarwch Partneriaid** | **Trwyddedau a roddwyd Ebrill 08- Mawrth 09** | Trwyddedau a roddwyd Ebrill 07- Mawrth 08 | **Cyfanswm a roddwyd fel yr oedd y sefyllfa ar 31 Mawrth 09** |
|---|---|---|---|
| Mae'r Cyd-Grŵp Rheoli Amleddau yn cyhoeddi Trwyddedau ar gyfer Gwneud Rhaglenni a Digwyddiadau Arbennig | 2,821 | 2,742 | 3,177 |
| Mae'r Awdurdod Hedfan Sifil yn cyhoeddi Trwyddedau ar gyfer Aerofod | 15,394 | 15,922 | 14,540 |
| **Cyfanswm** | **18,215** | **18,664** | **17,717** |
| **CYFANSWM NIFER Y TRWYDDEDAU – YM MHOB CATEGORI** | **48,529** | **52,651** | **275,424** |

### Enwau'r Trwyddedau – hen a newydd

<table>
<tr><th>Hen Enw'r Drwydded</th><th>Enw newydd y Drwydded</th></tr>
<tr><td>Radio Darlledu Cyhoeddus Cyffredinol y DU</td><td rowspan="3">Radio Busnes Ysgafn – Syml (dim gorsaf ganolog)</td></tr>
<tr><td>Radio Busnes (Systemau Cyfathrebu Lleol ar y Safle)</td></tr>
<tr><td>Radio Busnes (Systemau Dalennu Un Ffordd a lleferydd ar y Safle)</td></tr>
<tr><td>Radio busnes (Hunan-Ddethol)</td><td>Safle Radio Busnes Syml</td></tr>
<tr><td>Radio Busnes (Cyflenwyr)</td><td>Cyflenwyr Radio Busnes Ysgafn</td></tr>
<tr><td>Radio Busnes (Data 2008 IR)</td><td rowspan="7">Radio Busnes wedi'i Neilltuo'n Dechnegol</td></tr>
<tr><td>Radio Busnes (Lleferydd a Data)</td></tr>
<tr><td>Radio Busnes (Systemau Dalennu ar y Safle i Ysbytai a Gwasanaethau Argyfwng)</td></tr>
<tr><td>Radio Busnes (Systemau Dalennu Un Ffordd a Lleferydd Ardal Eang)</td></tr>
<tr><td>Radio Busnes (Systemau Larwm Argyfwng Ardal Eang)</td></tr>
<tr><td>Radio Busnes (Gorsaf Ganolog Gyffredinol)</td></tr>
<tr><td>Radio Busnes (CBS – (Band 1 o Fand III))</td></tr>
<tr><td>Radio Busnes (Cenedlaethol a Rhanbarthol)</td><td>Ardal Radio Busnes wedi'i Neilltuo</td></tr>
</table>

Data ystadegol

**DPAION AR GYFER TRWYDDEDU'R SBECTRWM**

Mae dangosyddion perfformiad (DPAion) allweddol ar waith ar hyn o bryd ar gyfer pob categori o drwydded. Mae'r rhain yn mesur faint o amser a gymer Ofcom i roi'r drwydded ac mae hynny'n amrywio yn ôl y math o drwydded dan sylw. Ar gyfer trwyddedau Categori A, yn ôl y DPA, dylid rhoi neu wrthod100 y cant o'r ceisiadau dilys am drwydded ar gyfer gwasanaeth newydd neu wasanaeth sydd wedi'i amrywio (gan roi esboniad am y penderfyniad) o fewn saith neu ddeng niwrnod ar ôl i'r cais gyrraedd Ofcom. Ar gyfer trwyddedau Categori B, yn ôl y DPA, dylid rhoi neu wrthod 90 y cant o'r ceisiadau dilys am drwydded ar gyfer gwasanaeth newydd neu wasanaeth sydd wedi'i amrywio (gan roi esboniad am y penderfyniad) o fewn 21 ar ôl i'r cais gyrraedd Ofcom; a dylid rhoi neu wrthod y gweddill o fewn 42 diwrnod. Ar gyfer Categori C Yn ôl y DPA, dylid rhoi neu wrthod 100 y cant o'r ceisiadau dilys am drwydded (ynghyd ag esboniad am y penderfyniad) o fewn 42 diwrnod ar ôl i'r cais gyrraedd Ofcom, ac eithrio lle bydd angen clirio'r sefyllfa'n rhyngwladol, ac wedyn dylid caniatáu neu wrthod y cais o fewn 60 diwrnod neu roi esboniad ynglŷn â pham bod oedi. Drwyddi draw, mae 77 y cant o'r cwsmeriaid (ac eithrio Cwsmeriaid Dolenni Sefydlog) yn fodlon ar y gwasanaeth ac mae 87 y cant yn fodlon ar gyflymder rhoi'r trwyddedau. (Ffynhonnell: arolwg Ofcom.)

### Dangosyddion perfformiad allweddol

| **Dangosyddion perfformiad allweddol** | **Targed DPA** | **DPAion a gyflawnwyd Ebrill 08 - Mawrth 09** | DPAion a gyflawnwyd Ebrill 07 - Mawrth 08 |
|---|---|---|---|
| Trwydded Categori A | 100% mewn 7 diwrnod | 90% | 93% |
| Trwydded Categori A (Amatur a Morol) | 100% mewn 10 diwrnod | 99% | 99% |
| Trwydded Categori B | 90% mewn 21 diwrnod | 98% | 99% |
| | 100% mewn 42 diwrnod | 100% | 100% |
| Trwydded Categori C | 90% mewn 42 diwrnod (100% ac eithrio lle bo angen clirio'r sefyllfa'n rhyngwladol) | 98% | 95% |
| | 100% mewn 60 diwrnod (gan gynnwys lle bo angen clirio'r sefyllfa'n rhyngwladol) | 99% | 98% |

### Dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer profi a datblygu

| **Dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer profi a datblygu** | **Targed DPA** | **DPAion a gyflawnwyd Ebrill 08 - Mawrth 09** | DPAion a gyflawnwyd Ebrill 07 - Mawrth 08 |
|---|---|---|---|
| Trwydded Categori C | 100% mewn 60 diwrnod | 100% | 100% |

### Perfformiad partneriaid

| **Perfformiad Partneriaid** | **Targed DPA** | **DPAion a gyflawnwyd Ebrill 08 - Mawrth 09** | DPAion a gyflawnwyd Ebrill 07 - Mawrth 08 |
|---|---|---|---|
| Cyd-Grŵp Rheoli Amleddau | 100% mewn 7 diwrnod | 100% | 100% |
| Awdurdod Hedfan Sifil | 100% mewn 7 diwrnod | 89% | 96% |

Data ystadegol

## GWAITH AR Y SBECTRWM – DPAION AR GYFER GWAITH MAES

Mae Tîm Gwaith Maes Ofcom ar alwad o hyd i gymryd camau yn erbyn darllediadau anghyfreithlon er mwyn datrys unrhyw darfu ac i gynnal archwiliadau cydymffurfio ar osodion radiogyfathrebu ym mhob cwr o'r DU. Rhestrir ein prif weithgareddau yn Nhabl 1.

**Tabl 1**

| Gweithgarwch Rhaglen Waith /Digwyddiad | Cyfnod Blwyddyn Adrodd 2008/9 | Cyfnod Blwyddyn Adrodd 2007/8 |
|---|---|---|
| Nifer ceisiadau a gafwyd am archwiliad yng nghyswllt tarfu | 3,164 | 3,629 |
| Baldock: Gweithgareddau'r Sbectrwm (gweler Nodyn 1 isod) | 3,673 | 3,416 |
| Achosion archwilio a gaewyd yng nghyswllt tarfu | 3,219 | 3,777 |
| Gwaith gorfodi yn erbyn gweithgarwch didrwydded a throseddol | 1,170 | 1,526 |
| Archwiliadau cydymffurfio â'r system radio a gwblhawyd | 180 | 253 |
| Erlyniadau llwyddiannus am weithgarwch troseddol ar y sbectrwm | 39 | 44 |
| Erlyniadau aflwyddiannus am weithgarwch troseddol ar y sbectrwm | 1 | 1 |

**TABL 1 Nodyn 1:** Mae gwaith Gorsaf Monitro Baldock bellach yn cael ei alw'n "Baldock: Gweithgareddau'r Sbectrwm". Mae'r ffigur hwn yn cynnwys adroddiadau ynglŷn â tharfu a monitro'r sbectrwm a gwaith mesur.

## Data ystadegol

### Tabl 2

| Categori'r achos (gweler Nodyn 1 isod) | Targed ansawdd gwasanaeth | Cam yr Achos (gweler Nodyn 2 isod) | Cyflawni'r Targed Ansawdd Gwasanaeth | Targed ansawdd gwasanaeth 2008/9 |
|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau Diogelwch Bywyd | TAG 1A | Rhyngweithio | 94.52% | 100% o fewn 2 awr |
| | TAG 1B | Cysylltu â Chwsmeriaid/Dilysu | 98.63% | 100% o fewn 2 awr |
| | TAG 1C | Ymchwiliad | 89.04% | 100% o fewn 20 awr |
| | TAG 1D | Cau (hyd yr achos drwyddo draw) | 100% | 100% o fewn 2 ddiwrnod gwaith |
| Gwasanaeth Hollbwysig (Categori 2) | TAG 2A | Rhyngweithio | 73.33% | 100% o fewn 12 awr |
| | TAG 2B | Cysylltu â Chwsmeriaid/Dilysu | 91.11% | 100% o fewn 12 awr |
| | TAG 2C | Ymchwiliad | 93.33% | 100% o fewn 24 awr |
| | TAG 2D | Cau (hyd yr achos drwyddo draw) | 100% | 100% o fewn 3 diwrnod gwaith |
| Gwasanaeth Hollbwysig (Categori 3) | TAG 3A | Rhyngweithio | 76.22% | 90% o fewn 1 ddiwrnod gwaith |
| | TAG 3B | | 76.22% | 100% o fewn 3 diwrnod gwaith |
| | TAG 3C | Cysylltu â Chwsmeriaid/Dilysu | 91.86% | 90% o fewn 1 ddiwrnod gwaith |
| | TAG 3D | | 94.79% | 100% o fewn 3 diwrnod gwaith |
| | TAG 3E | Ymchwiliad | 74.92% | 90% o fewn 3 diwrnod gwaith |
| | TAG 3F | | 81.96% | 100% o fewn 5 diwrnod gwaith |
| | TAG 3G | Cau (hyd yr achos drwyddo draw) | 100% | 80% o fewn 5 diwrnod gwaith |
| | TAG 3H | | 100% | 100% o fewn 10 ddiwrnod gwaith |
| Gwasanaethau Radio Busnes/Proffesiynol | TAG 4A | Rhyngweithio | 94.68% | 90% o fewn 1 diwrnod gwaith |
| | TAG 4B | | 94.68% | 100% o fewn 1 diwrnod gwaith |
| | TAG 4C | Cysylltu â Chwsmeriaid/Dilysu | 95.12% | 90% o fewn 1 diwrnod gwaith |
| | TAG 4D | | 96.90% | 100% o fewn 3 diwrnod gwaith |
| | TAG 4E | Ymchwiliad | 50.78% | 90% o fewn 3 diwrnod gwaith |
| | TAG 4F | | 56.54% | 100% o fewn 5 diwrnod gwaith |
| | TAG 4G | Cau (hyd yr achos drwyddo draw) | 100% | 80% o fewn 5 diwrnod gwaith |
| | TAG 4H | | 100% | 100% o fewn 10 diwrnod gwaith |
| Derbyniad Darlledu Domestig | TAG 5A | Rhyngweithio | 98.44% | 90% o fewn 1 diwrnod gwaith |
| | TAG 5B | | 98.44% | 100% o fewn 1 diwrnod gwaith |
| | TAG 5C | Cysylltu â Chwsmeriaid/Dilysu | 97.55% | 90% o fewn 2 ddiwrnod gwaith |
| | TAG 5D | | 98.39% | 100% o fewn 5 diwrnod gwaith |
| | TAG 5E | Ymchwiliad | 72.23% | 90% o fewn 17 diwrnod gwaith |
| | TAG 5F | | 81.80% | 100% o fewn 30 diwrnod gwaith |
| | TAG 5G | Cau (hyd yr achos drwyddo draw) | 100% | 80% o fewn 20 diwrnod gwaith |
| | TAG 5H | | 100% | 100% o fewn 40 diwrnod gwaith |
| Cyfath. Radio eraill | TAG 6A | Rhyngweithio | 95.74% | 90% o fewn 1 diwrnod gwaith |
| | TAG 6B | | 95.74% | 100% o fewn 1 diwrnod gwaith |
| | TAG 6C | Cysylltu â Chwsmeriaid/Dilysu | 93.80% | 90% o fewn 2 ddiwrnod gwaith |
| | TAG 6D | | 96.51% | 100% o fewn 5 diwrnod gwaith |
| | TAG 6E | Ymchwiliad | 84.11% | 90% o fewn 17 diwrnod gwaith |
| | TAG 6F | | 90.31% | 100% o fewn 30 diwrnod gwaith |
| | TAG 6G | Cau (hyd yr achos drwyddo draw) | 100% | 80% o fewn 20 diwrnod gwaith |
| | TAG 6H | | 100% | 100% o fewn 40 diwrnod gwaith |

Data ystadegol

**TABL 2 Nodyn 1:** disgrifiadau o gategorïau achosion:

- Diogelwch bywyd – tarfu sylweddol ar wasanaeth radio a allai beryglu bywyd dynol yn ddifrifol, a lle nad oes unrhyw ffurf gyfathrebu amgen arall ar gael yn y fan a'r lle.
- Gwasanaeth Hollbwysig (Cat 2) – tarfu difrifol ar wasanaeth radio a allai beryglu'n ddifrifol wasanaethau cyhoeddus/argyfwng effeithlon (er nad oes risg yn y fan a'r lle i ddiogelwch bywyd dynol), a lle nad oes unrhyw ffurf gyfathrebu amgen arall ar gael yn y fan a'r lle.
- Gwasanaeth Hollbwysig (Cat 3) – yr un fath â Chat 2, ond bod rhwydwaith cyfathrebu amgen effeithiol ar gael ar y pryd.
- Gwasanaethau Radio Busnes/ Proffesiynol – tarfu sylweddol ar wasanaeth radio a ddefnyddir at ddibenion masnachol neu broffesiynol, ond nad yw'n cael ei ystyried yn Wasanaeth Hollbwysig.
- Derbyniad Darlledu Domestig – tarfu sylweddol ar wasanaeth radio a dderbynnir at ddibenion derbyn darllediadau domestig.
- Gwasanaethau radio eraill – tarfu sylweddol ar bob gwasanaeth radio trwyddedig arall.

**TABL 2 Nodyn 2:** mae tri phrif gam yn y broses rheoli achosion tarfu:

- Rhyngweithio – pan fydd yr achos yn cael ei gofnodi ar Siebel a'i drosglwyddo i'r Tîm Gwaith Maes.
- Cysylltu â Chwsmeriaid/Dilysu – pan fydd arbenigwyr Gwaith maes yn Asesu ac yn dilysu'r adroddiad/gofyniad, ac yn cysylltu â'r cwsmer i drefnu ymweliad(au) archwilio.
- Archwilio – pan fydd arbenigwyr Gwaith Maes yn ymweld yn y maes i ganfod ffynhonnell y tarfu ac i gymryd camau priodol er mwyn cywiro pethau.

## Data ystadegol

### DARLLEDU – CWYNION AM RAGLENNI

Mae gan Ofcom ddyletswydd statudol i ystyried cwynion gan wrandawyr a gwylwyr am raglenni teledu a radio a ddarlledir gan ddeiliaid trwyddedau darlledu'r DU, S4C a'r BBC, ac i roi ei ddyfarniad yn eu cylch.

Caewyd cyfanswm o 13,203 o achosion yn y cyfnod dan sylw. Mae achos yn cynrychioli archwiliad a agorir i faterion sy'n ymwneud â rhaglen benodol a gall hynny gynnwys un gŵyn neu fwy nag un am y mater hwnnw. Caeir achos ar ôl cwblhau'r ymchwiliad ac ar ôl i Ofcom benderfynu ynglŷn â'r gŵyn/cwynion.

Penderfynodd Ofcom ynglŷn â chyfanswm o 27,549 o gwynion am raglenni, ac roedd 27,311 o'r rheini'n ymwneud â safonau'r rhaglenni (gan gynnwys materion a oedd yn ymwneud â hysbysebion gwleidyddol a faint o hysbysu a geir a dosbarthiad yr hysbysebu hwnnw) ac roedd 238 yn gwynion ynglŷn ag achosion lle'r honnwyd bod annhegwch wedi bod a/neu fod tarfu diangen ar breifatrwydd yn ddiangen.

O blith y 12,965 o achosion a gaewyd a oedd yn ymwneud â safonau rhaglenni:

- gwelwyd bod 211 achos naill ai'n torri'r Côd Darlledu neu amodau eu trwydded. O blith y rheini, daeth 30 o achosion yn destun sancsiynau statudol (a'r rheini'n cynnwys 18 o wahanol ddarlledwyr).[1]
- datryswyd 43 achos.
- nid oedd 12,711 wedi torri unrhyw amodau.

Y nifer a gwblhawyd o fewn y targed:

- Achosion syml – caewyd 85.4% o fewn 30 diwrnod gwaith (targed: 80%).
- Achosion cymhleth – caewyd 77.9% o fewn 60 diwrnod gwaith (targed: 80%).

**1.** O'r 30 achos hyn, roedd 16 yn ymwneud â defnyddio gwasanaethau'r gyfradd bremiwm mewn cystadleuaethau a phleidleisiau i wylwyr.

### DARLLEDU – TEGWCH A PHREIFATRWYDD

Y Pwyllgor Tegwch yw corff penderfynu uchaf Ofcom o ran achosion tegwch a phreifatrwydd. Un o bwyllgorau Ofcom yw hwn (a'i bwerau wedi'u dirprwyo oddi wrth brif Fwrdd Ofcom) ac mae'n cynnwys o leiaf dri aelod, a phob un o'r rheini'n aelodau o'r Bwrdd Cynnwys. Mae'n ystyried achosion a gyfeirir ato gan y Tîm Gweithredol (oherwydd cymhlethdod yr achos, er enghraifft). Mae hefyd yn adolygu penderfyniadau gan y Tîm Gweithredol lle bydd un o'r partïon neu'r ddau ohonynt wedi dadlau y dylid adolygu'r penderfyniad hwnnw.

Nifer yr achosion a gaewyd; 238

O ran yr achosion tegwch a phreifatrwydd a gaewyd, ystyriwyd 17 gan y Pwyllgor Tegwch.

O blith y rhain:

- cadarnhawyd 9 (8 o'r rheini'n rhannol);
- ni chadarnhawyd 8 ohonynt.

Penderfynwyd ynglŷn â'r 221 achos arall a gaewyd a oedd yn ymwneud â thegwch a phreifatrwydd gan y Tîm Gweithredol.

O blith y rhain:

- cadarnhawyd 14 (11 o'r rheini'n rhannol);
- ni chadarnhawyd 37 ohonynt;
- datryswyd 10 (ar ôl i'r darlledwr gymryd camau priodol);
- penderfynwyd peidio ag ystyried 160 neu ni fwriwyd ymlaen â hwy ar ôl eu hystyried.

Y nifer a gwblhawyd o fewn y targed:

- Achosion syml – caewyd 83.1% o fewn 80 diwrnod gwaith (targed: 80%).
- Achosion cymhleth – caewyd 70.1% o fewn 130 diwrnod gwaith (targed: 80%).

# Data ystadegol

## DARLLEDU – PWYLLGOR SANCSIYNAU AR GYNNWYS

Cyfeirir achosion lle bydd y Tîm Gweithredol o bosibl yn credu bod angen ystyried sancsiwn statudol at y Pwyllgor Sancsiynau ar Gynnwys, sy'n cynnwys hyd at bump aelod o blith Bwrdd Ofcom a'r Bwrdd Cynnwys. Bydd gan y Pwyllgor Sancsiynau ar Gynnwys gworwm os bydd tri Aelod o'r Bwrdd Cynnwys yn bresennol. Cadeirydd y Pwyllgor Sancsiynau ar Gynnwys yw Cadeirydd y Bwrdd Cynnwys.

Yn ystod y cyfnod dan sylw, rhoddodd y Pwyllgor Sancsiynau ar Gynnwys sancsiynau ar waith mewn 30 o achosion.

Penderfynodd y Pwyllgor Sancsiynau ar Gynnwys ddirwyo[1]:

- ITV2 Limited yng nghyswllt ***Playdate, Playalong***, ***The Mint***, ***Make Your Play*** a ***Glitterball*** ar ei wasanaeth ITV2+1 - £275,000
- Granada Television Limited yng nghyswllt ***Soapstar Superstar*** ar ei wasanaeth ITV1 – £1,200,000 a Chyfarwyddyd i ddarlledu datganiad ynghylch penderfyniad Ofcom ar ddau ddiwrnod gwahanol
- LWT Holdings Limited yng nghyswllt ***Ant & Dec's Saturday Night Takeaway*** ar ei wasanaeth ITV1 – £3,000,000 a Chyfarwyddyd i ddarlledu datganiad ynghylch penderfyniad Ofcom ar ddau ddiwrnod gwahanol
- LWT Holdings Limited yng nghyswllt ***Ant & Dec's Gameshow Marathon*** ar ei wasanaeth ITV1 – £1,200,000 a Chyfarwyddyd i ddarlledu datganiad ynghylch penderfyniad Ofcom ar ddau ddiwrnod gwahanol
- MTV Networks yng nghyswllt ei wasanaethau TMF, MTV France, MTV UK ac MTV Hits – £255,000
- GCap Media plc yng nghyswllt ***Secret Sound*** ar 30 o'i orsafoedd radio One Network – £37,000 yng nghyswllt pob un o'r 30 trwyddedai (sef cyfanswm o £1,110,000 a chyfri'r 30 trwyddedai i gyd gyda'i gilydd) a Chyfarwyddyd i ddarlledu datganiad ynghylch penderfyniad Ofcom ar ddau ddiwrnod gwahanol
- Square 1 Management Limited gyda golwg ar y gwasanaeth Smile TV – £17,500
- Portland Enterprises (C.I.) Limited gyda golwg ar ei wasanaeth Television X – £25,000
- Y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig yng nghyswllt ***Comic Relief*** ar ei gwasanaeth BBC1 – £45,000
- Y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig yng nghyswllt the ***Liz Kershaw Show*** ar ei gwasanaeth BBC 6 Music – £115,000 a Chyfarwyddyd i ddarlledu datganiad ynghylch penderfyniad Ofcom ar ddau ddiwrnod gwahanol
- Y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig yng nghyswllt ***The Jo Whiley Show*** ar ei gwasanaeth Radio 1 – £75,000 a Chyfarwyddyd i ddarlledu datganiad ynghylch penderfyniad Ofcom ar ddau ddiwrnod gwahanol
- Y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig yng nghyswllt ***TMi*** ar ei gwasanaeth BBC2 ac ar CBBC – £50,000
- Y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig yng nghyswllt ***Sport Relief*** ar ei gwasanaeth BBC1 – £45,000
- Y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig yng nghyswllt ***Plant mewn Angen*** ar ei gwasanaeth BBC1 (Yr Alban) – £35,000
- Y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig yng nghyswllt ***The Russell Brand Show*** ar ei gwasanaeth BBC 6 Music – £17,500
- Y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig yng nghyswllt ***The Clare McDonnell Show*** ar ei gwasanaeth BBC 6 Music – £17,500
- Satellite Entertainment Limited yng nghyswllt ei wasanaeth SportsXXX Babes – £20,000
- DM Global Television Network Limited yng nghyswllt ***Health is Wealth*** ar ei wasanaeth DM Digital – £15,000
- Venus TV Limited yng nghyswllt ei wasanaeth Venus TV – £35,000 a Chyfarwyddyd i ddarlledu datganiad ynghylch penderfyniad Ofcom ar ddau ddiwrnod gwahanol
- TalkSPORT Limited yng nghyswllt ***The James Whale Show*** ar ei wasanaeth talkSPORT – £20,000 a Chyfarwyddyd i ddarlledu datganiad ynghylch penderfyniad Ofcom ar un diwrnod
- Channel S World Limited, Channel S Plus Limited a Channel S Global Limited yng nghyswllt eu gwasanaethau Channel S NTV, ATN a Channel S – £40,000 a Chyfarwyddyd i ddarlledu datganiad ynghylch penderfyniad Ofcom ar ddau ddiwrnod gwahanol
- St Albans and Watford Broadcasting Company Limited yng nghyswllt ***Secret Sound*** ar ei wasanaeth Hertfordshire's Mercury 96.6 FM – £20,000 a Chyfarwyddyd i ddarlledu datganiad ynghylch penderfyniad Ofcom ar un diwrnod
- Y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig yng nghyswllt ***Dermot O'Leary*** ar ei gwasanaeth Radio 2 – £70,000 a Chyfarwyddyd i ddarlledu datganiad ynghylch penderfyniad Ofcom ar un diwrnod
- Y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig yng nghyswllt ***Tony Blackburn*** ar ei gwasanaeth BBC London 94.9FM – £25,000 a Chyfarwyddyd i ddarlledu datganiad ynghylch penderfyniad Ofcom ar un diwrnod
- ITV Broadcasting Limited yng nghyswllt Trwyddedeion rhanbarthol Channel 3, sef: ITV Anglia, ITV Border, ITV Central, ITV Granada, ITV London (dwy drwydded), ITV Meridian, ITV Tyne Tees, ITV Wales and West, ITV Westcountry ac ITV Yorkshire – £20,000 yng nghyswllt pob un o'r trwyddedeion (sef cyfanswm o £220,000 ar gyfer yr 11 trwyddedai i gyd gyda'i gilydd)
- Channel Television Limited yng nghyswllt ei Drwydded ranbarthol Channel 3 – £5,000
- stv central Limited ac stv north Ltd. yng nghyswllt eu Trwydded ranbarthol Channel 3 – £5,000 ar gyfer y naill drwyddedai a'r llall (sef cyfanswm o £10,000 ar gyfer y ddau drwyddedai)
- UTV Limited yng nghyswllt ei Drwydded ranbarthol Channel 3 – £5,000

Penderfynodd y Pwyllgor Sancsiynau ar Gynnwys gyfarwyddo:

- y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig yng nghyswllt ***Live Earth*** ar ei gwasanaeth BBC1 a BBC2 ac i ddarlledu datganiad ynghylch penderfyniad Ofcom ar ddau ddiwrnod gwahanol

**1.** Trosglwyddir yr holl ddirwyon a gesglir i Drysorlys y DU.

Data ystadegol

## RHAGLEN YMCHWILIADAU – DPAION

Mae rhaglen ymchwiliadau Ofcom yn ymwneud â chwynion ynglŷn ag ymddygiad gwrthgystadleuol, torri rheolau rheoleiddio penodol ac anghydfodau ynglŷn â rheoleiddio. Yn y tabl isod, archwilir gweithgareddau Ofcom o ran cynnal ymholiadau ac ymchwiliadau yn ystod 2008/9 a sut yr ydym wedi'i wneud o'i gymharu â'n targedau statudol a'r rhai a gyhoeddwyd. Dylid nodi mai nifer fach o achosion sy'n cael eu cofnodi yn y tabl ac y gall y DPAion fod yn gyfnewidiol yn sgil hynny.

| **Categori a Tharged** | **Lefel cyflawni** (ar gyfer pob achos a gaewyd yn ystod y cyfnod adrodd, ni waeth pa bryd y'i hagorwyd) | **Lefel cyflawni** (ar gyfer pob achos a gaewyd ac a agorwyd yn ystod y cyfnod adrodd) |
|---|---|---|
| Penderfynu a ddylid agor ymchwiliad neu beidio o fewn 15 diwrnod gwaith (ar gyfer achosion ac eithrio achosion cyfraith gystadlu) | **68%** (caewyd 25 a chwblhawyd 17 o fewn y targed)<br>(**100%** gyda chytundeb uwch reolwyr i ymestyn y cyfnod ar gyfer achosion cymhleth) | **68%** (caewyd 22 a chwblhawyd 15 o fewn y targed)<br>(**100%** gyda chytundeb uwch reolwyr i ymestyn y cyfnod ar gyfer achosion cymhleth) |
| Penderfynu a ddylid agor ymchwiliad cyfraith gystadlu neu beidio o fewn wyth wythnos | **50%** (caewyd pedwar a chwblhawyd dau[1] o'r rheini o fewn y targed)<br>(**100%** gyda chytundeb yr uwch rheolwyr i ymestyn y cyfnod am resymau digonol) | **67%** (caewyd tri a chwblhawyd dau o'r rheini o fewn y targed)<br>(**100%** gyda chytundeb yr uwch rheolwyr i ymestyn y cyfnod am resymau digonol) |
| Datrys anghydfodau o fewn pedwar mis (ac eithrio dan amgylchiadau eithriadol) | **100%** (tri anghydfod wedi'u datrys, pob un o fewn y targed) | **100%** (tri anghydfod, i gyd wedi'u datrys o fewn y targed) Agorwyd pump achos anghydfod yn ystod y cyfnod adrodd sydd yn dal ar y gweill gyda dau yn mynd y tu hwnt i'r targed ar 31 Mawrth 2009 - mae amgylchiadau eithriadol yn berthnasol i'r achosion hyn. |
| Cyrraedd penderfyniad 'dim sail dros weithredu' mewn ymchwiliadau cyfraith gystadlu o fewn chwe mis | **0%** (caewyd un achos a aeth y tu hwnt i'r targed) | **AMH** (agorwyd un achos yn ystod y cyfnod adrodd ac mae hwnnw'n dal ar y gweill). Nodyn: Mae un achos a agorwyd cyn y cyfnod adrodd yn dal ar agor ac wedi mynd y tu hwnt i'r targed. |
| Cyrraedd penderfyniad mewn ymchwiliadau ynglŷn â thorri'r gyfraith gystadlu o fewn 12 mis | **AMH** (ni chafwyd dim penderfyniadau ynglŷn â thorri'r gyfraith fel hyn) | |
| Sicrhau bod ymchwiliadau i dorri'r gyfraith dan Ran 8 y Ddeddf Menter yn dod i ben o fewn chwe mis | **100%** (un achos wedi'i gau o fewn y targed) | **100%** (un achos wedi'i agor yn ystod y cyfnod adrodd a'i gau o fewn y targed) |
| Ymateb i 'Uwch Gŵyn' dan Ran 1, adran 1 y Ddeddf Menter o fewn 90 diwrnod | **100%** (un achos wedi'i gau o fewn y targed) | **100%** (un achos wedi'i agor yn ystod y cyfnod adrodd a'i gau o fewn y targed) |
| Cwblhau ymchwiliadau i dorri amodau *ex ante* a thelerau annheg mewn contractau defnyddwyr o fewn pedwar mis | **AMH** (dim achosion wedi'u cau) | **AMH** (dim achosion wedi'u hagor na'u cau). Nodyn: Mae un achos a agorwyd cyn y cyfnod adrodd yn dal ar agor ac wedi mynd y tu hwnt i'r targed. |
| Cwblhau ymchwiliadau annibynnol o fewn chwe mis | **100%** (pedwar achos wedi'u cau, i gyd o fewn y targed) | **100%** (pob un o'r tri achos a agorwyd yn ystod y cyfnod adrodd wedi'i gau o fewn y targed) |
| Cyfanswm yr ymchwiliadau | **90%** (o blith deg achos a gaewyd, cwblhawyd naw o fewn y targed) | **100%** (o blith y 14 achos a agorwyd yn ystod y cyfnod mae wyth wedi'u cau, i gyd o fewn y targed) |

**Nodiadau**

1 Estynnwyd un o'r ymholiadau y cofnodwyd iddo fynd heibio i'r terfyn amser ar gais yr achwynydd

# Perfformiad ariannol

## Fframwaith statudol Ofcom

Mae dyletswyddau a phwerau Ofcom yn deillio'n bennaf o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003, a gafodd gydsyniad Brenhinol ar 17 Gorffennaf 2003.

Corfforaeth statudol annibynnol sy'n atebol i'r Senedd yw Ofcom. Mae chwe maes i'w dyletswyddau penodol:

- sicrhau bod y sbectrwm electromagnetig yn cael ei ddefnyddio hyd yr eithaf;
- sicrhau bod amrywiaeth eang o wasanaethau cyfathrebu electronig – gan gynnwys gwasanaethau data cyflym – ar gael ym mhob cwr o'r DU;
- sicrhau bod amrywiaeth eang o wasanaethau teledu a radio o safon sy'n apelio i gynulleidfa eang;
- cynnal lluosogrwydd wrth ddarparu darlledu;
- sicrhau gwarchodaeth ddigonol i gynulleidfaoedd rhag deunydd sarhaus neu niweidiol; a
- sicrhau gwarchodaeth ddigonol i gynulleidfaoedd rhag annhegwch neu darfu ar breifatrwydd.

Mae Deddf Cyfathrebiadau 2003 yn mynnu ein bod yn gweithio mewn ffordd sy'n dryloyw, yn atebol, yn gymesur, yn gyson ac wedi'i dargedu.

## Fframwaith ariannol

Dan Baragraff 8(1) yr Atodlen i Ddeddf Swyddfa Gyfathrebiadau 2002, mae gofyn i Ofcom dafoli ei wariant a'i incwm ym mhob blwyddyn ariannol.

Mae Adran 38 ac Adran 347 Deddf Cyfathrebiadau 2003 hefyd yn mynnu bod Ofcom yn codi incwm gan bob un o'r sectorau y mae'n ei reoleiddio i dalu'r costau a ddaw i ran Ofcom wrth reoleiddio'r sector hwnnw.

Rhaid i Ofcom hefyd rannu ei gostau gweithredol cyffredinol – y rheini nad ydynt yn uniongyrchol berthnasol i'r un sector penodol – mewn modd cymesur ar draws pob un o'r sectorau hynny.

Bydd Ofcom yn codi ei arian o'r ffynonellau a ganlyn:

- ffioedd trwyddedau darlledu teledu;
- ffioedd trwyddedau darlledu radio;
- taliadau gweinyddol am rwydweithiau a gwasanaethau electronig ac am ddarparu cyfleusterau darlledu a chyfleusterau cysylltiedig; ac
- arian i dalu costau gweithredu Ofcom am reoli'r sbectrwm ar ffurf cymorth grant gan yr Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau (BERR gynt).

Mae'r cymorth grant yn talu am gostau rheoleiddio a rheoli sbectrwm radio'r DU. Mae hefyd yn talu am y swyddogaethau a'r dyletswyddau statudol hynny y mae'n rhaid i Ofcom eu cyflawni dan y Ddeddf Cyfathrebiadau ond nad yw'r Ddeddf wedi darparu llif refeniw cyfatebol ar eu cyfer. Ambell enghraifft o hyn yw'r prawf budd cyhoeddus statudol ar gyfer cyfryngau'n uno ac ymchwiliadau ar ôl y Ddeddf Cystadleuaeth yng nghyswllt rhwydweithiau a gwasanaethau.

Mae'r Senedd ar hyn o bryd yn ystyried trosglwyddo swyddogaethau oddi ar Postcomm i Ofcom. Petai'r mesur Gwasanaethau Post yn sicrhau Cydsyniad Brenhinol, bydd Ofcom yn casglu ffioedd ar gyfer rheoleiddio'r gweithredwyr post. Yn 2008/9 cafodd Ofcom arian ar ffurf cymorth grant i dalu am gostau paratoi ar gyfer y cynlluniau i integreiddio rheoleiddio gwasanaethau post.

Bydd Ofcom hefyd yn cael incwm rhent o'r eiddo sydd ganddo dros ben ac o'r llog ar gyfrifon banc.

## Canlyniadau gweithredol

Incwm gweithredol Ofcom oedd £132.1m yn 2008/09 (2007/08: £142.4m). Dyma rai o'r newidiadau pwysicaf ers y flwyddyn flaenorol:

- Y llynedd, ad-dalwyd y taliad olaf ar y benthyciad a gafwyd gan BERR (nawr BIS) i dalu am ailstrwythuro'r rheoleiddwyr a fodolai cyn Ofcom a'r costau a ddaeth i ran Ofcom yn sgil hynny. Mae hyn wedi golygu gostyngiad o £5.2m yn y taliadau a godir ar randdeiliaid Darlledu a Rhwydweithiau a Gwasanaethau eleni.
- Gostyngiad o £2.3m yn yr hawliadau i BERR (nawr BIS) am gymorth grant ar gyfer clirio'r sbectrwm yng nghyswllt gwariant nad yw'n wariant rheolaidd yn y maes hwn.
- Yn sgil mwy o effeithlonrwydd gweithredol a llai o waith nad yw'n waith rheolaidd, gostyngwyd y taliadau a godir ar y sectorau sy'n cael eu rheoleiddio, ac felly, mae'r incwm cydnabyddedig yn is.

Perfformiad ariannol

Yn ogystal â hynny, roedd y llog ar gyfrifon banc Ofcom yn is yn ystod 2008/09, sef cyfanswm o £1.3m (2007/08: £1.7m). Drwy reoli'r cyfrifon mewn ffordd ragweithiol ac effeithiol, llwyddwyd i liniaru effaith cyfraddau llog yn gostwng drwy gydol y flwyddyn.

Alldro gwariant gweithredol Ofcom mewn gwirionedd a hwnnw wedi'i seilio ar yn seiliedig ar drefn arian-parod wedi'i addasu oedd £127.6m yn 2008/9 (2007/8: £130m), sef £6.1m yn is na'r gyllideb.

Gostyngodd cyfanswm gwariant gweithredol Ofcom yn y cyfrif incwm a gwariant yn 2008/9 £8.6m o'i gymharu â'r sefyllfa yn 2007/8. Mae hyn er gwaetha'r costau ychwanegol a ysgwyddwyd wrth gyflawni dyletswyddau newydd yng nghyswllt paratoi ar gyfer integreiddio rheoleiddio'r gwasanaethau post a Gemau Olympaidd a Pharalympaidd Llundain 2012. Dyma rai o'r newidiadau pwysicaf ers y llynedd:

- Mae costau staff wedi gostwng £2.5m. Gostyngwyd y gronfa fonws eleni'n sylweddol am fod aelodau'r Pwyllgor Gwaith yn cytuno na ddylid ystyried rhoi bonws iddynt. Penderfynodd y Pwyllgor Taliadau hefyd gyfyngu ar y bonws a delid i gydweithwyr eraill. Yn ogystal â hynny, gostyngodd y costau hefyd yn sgil y ffaith bod y costau ailstrwythuro'n is ac yn sgil addasiadau cyfrifyddu yng nghyswllt y ddau gynllun pensiwn buddiannau penodol a gyfrifir dan FRS17, ond roedd hynny wedi'i wrthbwyso'n rhannol gan ddyfarniadau cyflog cysylltiedig-â-chwyddiant a'r cynnydd o saith yn nifer cyfartalog y staff.
- Cafwyd gostyngiad net o £6.1m net o ran costau gweithredol eraill a hynny'n bennaf yn sgil:
  - Gostyngiad yn y taliadau ar gyfer clirio'r sbectrwm a delir i ddeiliaid trwyddedau fel rhan o'n rhaglen i ryddhau'r sbectrwm.
  - Drwy lwyddo i ddatrys nifer o apeliadau yn erbyn Ofcom, rhyddhawyd arian a oedd wedi'i neilltuo ar gyfer costau cyfreithiol.
  - Yn sgil adolygiadau caffael a chynlluniau effeithlonrwydd, llwyddwyd i ostwng costau gweinyddol a chostau swyddfa, arbed ar gostau staff dros dro ac ar ffioedd recriwtio.
  - Gwrthbwyswyd yr arbedion a'r gostyngiadau uchod yn y costau'n rhannol gan y cynnydd mewn costau cynnal ac amorteiddio'r system drwyddedu'r sbectrwm newydd.

Ceir cysoniad yn Nodyn 2 Adran E sy'n pwysleisio'r gwahaniaethau rhwng cyfanswm y gwariant gweithredol fel y'i cyflwynir yn y cyfrif incwm a gwariant a gwir alldro gweithredol Ofcom, sef £127.6m.

Mae Nodyn 2 y datganiadau ariannol hefyd yn cyflwyno gwir alldro gweithredol Ofcom ar gyfer 2008/9, fesul sector.

## Gwarged ar gyfer y Flwyddyn Ariannol

Mae Ofcom yn cyfrifo'i refeniw gweithredol gofynnol ar sail ei ddatganiad o egwyddorion ar gyfer codi taliadau gan ystyried y cronfeydd y bydd eu hangen arno mewn gwirionedd i gyflawni ei ddyletswyddau ariannol yn ystod y flwyddyn. Bydd Ofcom yn dychwelyd unrhyw gronfeydd sydd dros ben i'r rhanddeiliaid drwy ostwng y tariffiau blynyddol a godir yn y ddwy flwyddyn ariannol ganlynol.

Yn y flwyddyn dan sylw, y gweddill a gofnodwyd yn y cyfrifon incwm a gwariant oedd £2.2m (2007/8: £8.3m). Yn ogystal â'r gostyngiad net a esbonnir uchod, mae'r gostyngiad ychwanegol yn y gweddill yn bennaf oherwydd:

- Isbrisio asedau penodol yn y cyfrifon yn 2008/09, gan nad ydynt bellach o fudd economaidd i Ofcom.
- Cynyddu'r tâl ariannu sy'n berthnasol i'r ddau gynllun pensiwn buddiannau penodol.
- Cynnydd yn 2008/09 mewn eiddo gwag, yn sgil y ffaith bod mwy o'r gweithwyr maes yn gweithio gartref, ac oherwydd diffyg tenant mewn un o'r adeiladau a oedd gennym dros ben.

Mae angen y gweddill i dalu am wariant nad yw'n cael ei adlewyrchu yn y Cyfrif Incwm a Gwariant, gan gynnwys gwariant cyfalaf a chyfraniadau at y ddau gynllun pensiwn buddiannau penodol.

## Tariffiau 2009/10

Ar 31 Mawrth 2009, cyhoeddodd Ofcom y Tablau Tariffiau 2009/10, a seiliwyd ar amcangyfrif o £130.2m o alldro gwariant gweithredol ar gyfer 2008/9.

Mae cyfanswm o £3.5m – y gwahaniaeth rhwng y gyllideb wreiddiol, sef £133.7m a'r amcangyfrif ar gyfer alldro'r gwariant gweithredol – eisoes yn cael ei roi'n ôl i'r rhanddeiliaid yn 2009/10 fel rhan o'r tariffiau rheoleiddio cyfredol neu ad-dalu'r cymorth grant a hawliwyd.

Cyllideb Ofcom ar gyfer 2009/10 yw £136.8m, sydd, o gymharu tebyg gyda'i debyg 4% yn is mewn termau real na'i gyllideb ar gyfer 2008/9. Dyma'r pumed gostyngiad o'r bron yng nghyllideb Ofcom mewn termau real ac mae'n 21% yn is mewn termau real na chyllideb blwyddyn iawn wreiddiol Ofcom a bennwyd yn 2004/5.

Mae'r gyllideb weithredol, £136.8m, £3.1m yn fwy nag yr oedd yn 2008/09 a bydd hynny'n gefn i'r cyfrifoldeb newydd am y cynllun i integreiddio rheoleiddio gwasanaethau post a Gemau Olympaidd a Pharalympaidd Llundain 2012. Seilir y gyllideb ar sail arian a addaswyd, sy'n cynnwys gwariant cyfalaf a chyfraniadau gwirioneddol at gynlluniau pensiwn, ond nid yw'n cynnwys dibrisiad.

Bydd ffioedd rheoleiddio'r sector yn newid yn benodol fel a ganlyn:

- gostyngiad ar gyfartaledd o 11.4 y cant ar gyfer y sector radio;
- gostyngiad ar gyfartaledd o 15.7 y cant ar gyfer y sector teledu; a
- gostyngiad ar gyfartaledd o 0.1 y cant ar gyfer gweithredwyr rhwydweithiau a gwasanaethau.

Fodd bynnag, bydd rhai rhanddeiliaid unigol yn wynebu cynnydd yn eu ffioedd rheoleiddio ar gyfer 2009/10 o'u cymharu â'r flwyddyn ariannol flaenorol oherwydd newidiadau yn eu trosiant perthnasol.

## Pensiynau

Prif ddull Ofcom o ddarparu buddiannau pensiwn yw drwy lwfans pensiwn cyfraniadau penodol a ddarperir ar gyfer pob aelod newydd o'r staff ac i'r cydweithwyr hynny a fu'n gweithio i'r rheoleiddwyr blaenorol sydd wedi dewis yr opsiwn hwn. Gellir defnyddio'r lwfans hwn i gyfrannu at gynllun pensiwn rhanddeiliaid cyfraniadau penodol Ofcom. Mae dros 80% o'n cydweithwyr yn Ofcom wedi'u cyflogi ar delerau sy'n cynnig aelodaeth o gynllun pensiwn rhanddeiliaid. Darperir aelodaeth o gynllun pensiwn buddiannau penodol i gydweithwyr eraill a oedd yn gweithio i'r rheoleiddwyr blaenorol.

Ar gyfer y cydweithwyr hynny a fu'n gweithio i'r rheoleiddwyr blaenorol a ymunodd ag Ofcom ac a ddewisodd barhau'n aelodau o gynllun pensiwn buddiannau penodol, bydd Ofcom yn gweithredu dau gynllun o'r fath, ond nid yw'r rheini ar gael i neb ymuno â hwy o'r newydd. Ceir rhagor o fanylion am hyn yn nodyn 1e a nodyn 22 yn Adran E.

Yn ôl prisiadau diweddaraf yr actiwari, ar 1 Ionawr 2007 ar gyfer Cynllun Pensiwn Ofcom (ITC gynt) ac ar 31 Mawrth 2007 ar gyfer Cynllun Pensiwn Buddiannau Penodol Ofcom, tynnwyd sylw at ddiffyg ariannol cyfun o £17.7m. Fodd bynnag, mae'r datganiadau ariannol yn dangos gweddill o £9.2m, a hynny'n bennaf oherwydd bod yr atebolrwydd o ran y cynllun pensiwn yn y datganiadau ariannol yn cael eu paratoi ar y sail bod yr atebolrwyddau'n cael eu disgowntio'n unol â'r arian a wneir yn sgil bondiau o safon, sydd, dan amgylchiadau presennol y farchnad, yn sylweddol wahanol i'r dull a ddefnyddir i bennu cyfraniadau Ofcom.

Gwnaeth Ofcom gyfraniadau ariannol at Gynllun Buddiannau Penodol Ofcom ac at Gynllun Pensiwn Ofcom (ITC gynt) ac mae'n dal i wneud hynny ar sail prisiad yr actwari. Cynhwysir cyfraniadau arian, yn hytrach na'r swm a neilltuir i'r gweddill gweithredol, fel y'u cyfrifir dan FRS 17, yn alldro'r gwariant gweithredol a ddefnyddir i gyfrifo'r tariffiau a godir ar randdeiliaid bob blwyddyn.

Yn ystod y flwyddyn, cyfrannwyd £8.4m at y ddau gynllun pensiwn buddiannau penodol; talwyd £2.5m o'r arian hwnnw i gyfrif ymddiriedolaeth. Dim ond i un o'r ddau gynllun pensiwn buddiannau penodol y ceir talu arian a drosglwyddir i'r cyfrif ymddiriedolaeth ac a gedwir ynddo.

Perfformiad ariannol

## Arian ychwanegol a gesglir ar ran Trysorlys EM

Yn 2008/9, yn unol ag Adran 400 y Ddeddf Cyfathrebiadau, anfonebodd a chasglodd Ofcom £223.0m (2007/8: £232.4) gan gwmnïau cyfathrebu a darlledu di-wifr ar ffurf refeniw'r sbectrwm a derbyniadau am drwyddedau. Bydd Ofcom yn paratoi set o Ddatganiadau Ariannol ar wahân at ddibenion A400 Deddf Cyfathrebiadau 2003.

Ar 31 Mawrth 2009, roedd ceisiadau am daliadau ar gyfer ffioedd sbectrwm gwerth £60.7m (2007/8: £52.5m) yn dal heb eu talu. Mae cyfran sylweddol o'r symiau hyn yn ddyledus ar ffurf rhandaliadau. Ni cheir dileu unrhyw ddyledion sylweddol heb ganiatâd ysgrifenedig Trysorlys EM. Ar ddyddiad cyhoeddi'r fantolen, roedd £0.7m yn dal yn ddyledus ers dros 12 mis gan Inquam Telecom (Holdings) Limited. Mae Inquam wedi cytuno i gynllun talu er mwyn talu'r gweddill sy'n ddyledus yn ystod 2009/10.

## Rhaglen adnewyddu Systemau Gwybodaeth (SG)

Yn ystod 2008/09 cwblhaodd Ofcom ei raglen i adnewyddu ei SG er mwyn darparu ateb i'r fenter gyfan a fyddai'n ymwneud â thrwyddedu'r sbectrwm, achosion a chyswllt, cyllid, adnoddau'r gweithlu a chaffael. Rhyddhawyd y fersiwn derfynol ym mis Mawrth 2009 a chwblhawyd y gwaith o symud trwyddedu Telegraffi Di-wifr a rheoli'r sbectrwm drosodd o'r hen system.

Mae'r drefn trwyddedu newydd yn caniatáu i Ofcom reoli trwyddedu'r sbectrwm yn fwy effeithiol, mae'n gwneud y broses adnewyddu'n llawer mwy effeithlon ac mae'n gymorth i fwrw ymlaen â chynlluniau strategol allweddol ar gyfer rhyddhau'r sbectrwm. Er bod rhai manteision ariannol wedi dod yn sgil dadgomisiynu'r hen system SG yn ystod oes y rhaglen, gwireddir y manteision llawn yn awr o fis Mai 2009 ymlaen, pan ddaw'r cymorth a ddarparwyd ar gyfer camau cychwynnol y system newydd i ben.

## Buddsoddi mewn asedau sefydlog

Adlewyrchir costau cyfalafu rhaglen adnewyddu'r SG yn yr asedau anniriaethol fel yr oeddent ar ddiwedd y flwyddyn. Roedd yr asedau a oedd wrthi'n cael eu hadeiladu ar 31 Mawrth 2009 yn werth £0.3m ac maent yn cynnwys ateb monitro'r sbectrwm sy'n cael ei ddatblygu i baratoi ar gyfer Gemau Olympaidd a Pharalympaidd Llundain 2012.

## Talu cyflenwyr

Targed Ofcom oedd talu i bob cyflenwydd nad oedd mewn anghydfod ag ef o fewn 30 diwrnod. Fel rhan o set o gamau i sbarduno'r economi, addawodd y Llywodraeth y byddai pob corff cyhoeddus yn talu i gyflenwyr bychain a chanolig eu maint o fewn 10 diwrnod er mwyn sbarduno'r llif arian. Cydymffurfiodd Ofcom â'r addewid hwn ym mis Rhagfyr 2008 ac mae wedi ceisio talu i bob cyflenwydd wedi hynny o fewn y cyfnod 10 diwrnod. Penderfynodd Ofcom gynnwys cyflenwyr mwy o faint yn hyn hefyd er mwyn eu hannog hwythau i dalu'n gyflymach i fusnesau bach sy'n eu cyflenwi.

O ran ein perfformiad yng nghyswllt y targedau hyn yn 2008/9, llwyddwyd i gyflawni 98.6 y cant (2007/8: 97.2 y cant).

# Adran Ch

# Datganiad o Gyfrifon a Llywodraethu Corfforaethol

## Rhagair

### ADRODDIAD Y BWRDD

Cyflwyna'r Bwrdd ei adroddiad blynyddol a'r datganiadau ariannol archwiliedig ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2009.

### DATGANIAD O GYFRIFON

Paratowyd y Datganiad o Gyfrifon hwn yn unol ag Atodlen 1 Deddf y Swyddfa Gyfathrebiadau 2002, ac yn ôl cyfarwyddyd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Arloesi a Sgiliau (BERR gynt) a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Mae'r Cyfrifon yn ymwneud â'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2008 a 31 Mawrth 2009.

### PRIF WEITHGARWCH

Mae Ofcom yn gorfforaeth statudol heb randdeiliaid, a sefydlwyd dan Ddeddf y Swyddfa Gyfathrebiadau 2002. Deddf Cyfathrebiadau 2003 sy'n rhoi grym i Ofcom reoleiddio a thrwyddedu teledu, radio, defnydd o'r sbectrwm radio a thelathrebu yn unol â'r dyletswyddau a roddwyd iddo dan y Ddeddf.

### ADOLYGIAD GWEITHREDOL AC ARIANNOL

Mae neges y Cadeirydd ar dudalennau 4 a 5, Adroddiad Cadeirydd y Bwrdd Cynnwys ar dudalennau 10 i 12, Adroddiad y Prif Weithredwr ar dudalennau 6 i 9 a'r Adolygiad Gweithredol ac Ariannol ar dudalennau 31 i 55 yn ffurfio rhan o'r Adroddiad hwn ac yn darparu gwybodaeth am weithgarwch Ofcom yn ystod y flwyddyn. Nodir datganiadau ariannol Ofcom ar dudalennau 83 i 108.

### ARCHWILWYR ALLANOL

Penodir y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol, sy'n bennaeth ar y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, fel archwilydd allanol Ofcom dan Ddeddf y Swyddfa Gyfathrebiadau 2002. Roedd yr archwiliad statudol ar gyfer 2008/9 wedi costio £90,000 a'r archwiliad o'r Safonau Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol (IFRS) wedi costio £10,000. Cyn belled ag y mae'r Swyddog Atebol yn ymwybodol, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilydd Ofcom yn ymwybodol ohoni, ac y mae'r Swyddog Atebol wedi cymryd yr holl gamau gofynnol i sicrhau ei fod yn gwybod am unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sefydlu fod archwilwyr Ofcom yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

### Y BWRDD

Y Bwrdd sy'n ysgwyddo cyfrifoldeb llawn dros benderfynu ar faterion Ofcom a'u gweithredu. Darperir manylion am Aelodau'r Bwrdd ar dudalennau 61 a 62. Rhoddir manylion am y taliadau i Aelodau ar dudalennau 76 i 82.

### BUDDIANNAU AELODAU

Mae Ofcom o ddifrif ynghylch datgelu buddiannau Aelodau'n llawn. Ceir y manylion hyn ar-lein ar www.ofcom.org.uk.

### DIGWYDDIADAU AR ÔL CAU'R FANTOLEN

Ni fu unrhyw ddigwyddiad adroddadwy rhwng dyddiad y fantolen a'r dyddiad y cafodd y cyfrifon eu hardystio. Nid yw'r datganiadau ariannol yn dangos digwyddiadau ar ôl y dyddiad hwn.

Rhagair

## CENHADAETH A GWERTHOEDD OFCOM

Mae Aelodau Bwrdd a chydweithwyr Ofcom yn rhannu ymrwymiad Ofcom i'w genhadaeth a'i werthoedd. Diben y genhadaeth a'r gwerthoedd ar y cyd yw sicrhau bod pob Aelod Bwrdd a chydweithiwr yn cyflawni gwaith Ofcom drwy gyfeirio at gyfres glir o werthoedd craidd. Roedd cydweithwyr o bob rhan o'r sefydliad yn allweddol wrth ddatblygu'r chwe gwerth sy'n adlewyrchu awydd Ofcom i weithio mewn ffordd agored, effeithiol ac sy'n cael ei gyrru gan bobl. Drwy weithio fel hyn, mae Ofcom yn ymdrechu i fod yn ddeinamig, yn ymatebol ac yn effro i'r sefyllfa fasnachol; mae Ofcom yn gwerthfawrogi meddwl yn graff, dadansoddi'n drylwyr ar sail tystiolaeth ac ymgysylltu â rhanddeiliaid. Dyma werthoedd Ofcom: Cyfathrebu'n agored ac yn onest; Gwrando â meddwl agored; Gwneud gwahaniaeth; Grymuso a blaenoriaethu; Buddsoddi yn ein cydweithwyr a'u cefnogi; a Chydweithio gwirioneddol.

## CYNNWYS CYDWEITHWYR AC YMGYNGHORI Â NHW

Mae ansawdd, ymrwymiad ac effeithiolrwydd cydweithwyr Ofcom yn allweddol i'w lwyddiant. Mae cynnwys cydweithwyr yn cael ei annog yn frwd fel rhan o brosesau beunyddiol Ofcom. Mae Ofcom yn benodol yn hysbysu ei gydweithwyr ac yn ymgynghori â nhw drwy'r dulliau canlynol:

- Fforwm Cydweithwyr Ofcom, sef fforwm gwybodaeth ac ymgynghori sy'n cynnwys cynrychiolwyr cydweithwyr ar draws Ofcom ac sy'n cyfarfod yn rheolaidd gyda'r uwch reolwyr mewn cyfarfodydd y Cydbwyllgor Ymgynghorol (sy'n cynnwys dau aelod o'r Undeb Partner);
- mewnrwyd Ofcom, sydd ar gael i bob cydweithiwr ym mhob un o swyddfeydd Ofcom;
- cyflwyniadau a roddir gan uwch reolwyr pan gaiff cynlluniau strategol newydd eu hegluro wrth gydweithwyr a phan roddir y wybodaeth ddiweddaraf am brosiectau sydd ar y gweill;
- cyfarfodydd rheolaidd rhwng grwpiau er mwyn gwrando ar gydweithwyr a rhannu gwybodaeth; a
- negeseuon rheolaidd gan y Prif Weithredwr.

## POLISÏAU CYFLOGAETH, DATBLYGU PERFFORMIAD A DYLETSWYDDAU SECTOR CYHOEDDUS

Mae Ofcom wedi ymrwymo i adeiladu sefydliad lle caiff pob cydweithiwr ei drin yn deg, gydag urddas a pharch ac mae wedi datblygu amrediad o bolisïau sy'n gyson â gofynion cyfraith cyflogaeth.

Mae Ofcom yn parhau i ddatblygu cyfleoedd dysgu a datblygu effeithiol ac addas sy'n galluogi cydweithwyr i wella eu perfformiad a chyfleoedd i ddatblygu gyrfa. Rydym wedi datblygu rhaglen gynefino newydd oherwydd rydym yn cydnabod bod cynefino cydweithwyr newydd yn dda yn bwysig iawn i lwyddiant y sefydliad. Rydym hefyd wedi cefnogi nifer o gydweithwyr i ennill cymwysterau proffesiynol drwy addysg bellach a/neu achredu.

### DYDDIAU A GOLLWYD OHERWYDD ABSENOLDEB

Mae Ofcom yn annog diwylliant lle disgwylir presenoldeb da a gwerthfawrogir hynny, ond, mae'n cydnabod na ellir osgoi absenoldebau o bryd i'w gilydd am resymau meddygol. Nod Ofcom yw trin ei staff sy'n sâl gyda chydymdeimlad a thegwch, a rhoi cefnogaeth iddynt lle bo hynny'n bosibl. Bydd hynny'n eu galluogi i wella a mynychu'r gwaith yn rheolaidd. Yn 2008/9, nifer y diwrnodau gwaith a gollwyd oedd 3.4 diwrnod y flwyddyn fesul gweithiwr. Mae hyn yn cymharu'n ffafriol â'r cyfartaledd yn y sector cyhoeddus sy'n 9 diwrnod y flwyddyn fesul gweithiwr.

### CYFLOGWYR GORAU PRYDAIN

Am yr ail flwyddyn yn olynol, mae ymrwymiad Ofcom i ragoriaeth Adnoddau Dynol wedi cael ei gydnabod yn yr arolwg 'Cyflogwyr Gorau'r DU'.

### AMRYWIAETH A CHYFRIFOLDEB CYMDEITHASOL CORFFORAETHOL

Dros y 12 mis diwethaf, datblygwyd y swyddogaeth Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol ac Amrywiaeth drwy gyflwyno amrediad eang o weithgareddau. Un cynllun allanol mawr oedd y Fforwm Amrywiaeth Telathrebu, a lansiwyd ym mis Medi 2008 ac a gefnogir gan ffigurau blaenllaw ar draws y diwydiant. Cynhaliodd Ofcom ei gynhadledd flynyddol diwrnod llawn cyntaf i hyrwyddo amrywiaeth ar draws yr amgylchedd Telathrebu ehangach, a chyhoeddwyd Pecyn Cymorth Cydraddoldeb ac Amrywiaeth i gyd-fynd â'r gynhadledd.

Yn fewnol, mae Ofcom wedi cymryd safbwynt cadarn o ran recriwtio, gan gynnal sesiynau briffio ar gyfer ei holl gyrff recriwtio cymeradwy, a chyflwyno cwota bod 20% o ymgeiswyr amrywiaeth yn cael eu cynnwys mewn rhestri byr.

Mae oddeutu hanner gweithlu Ofcom yn fenywod. Ar 31 Mawrth 2009, roedd 10.9% o gydweithwyr yn bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, ac roedd 4.7% wedi datgan bod ganddynt anabledd.

Mae Ofcom yn gweithio ar hyn o bryd â'r holl grwpiau ar draws y sefydliad ar lunio Cynllun Cydraddoldeb Sengl. Bydd hwn ar gael yn nes ymlaen eleni a bydd yn disgrifio mewn un ddogfen sut y bydd Ofcom yn bodloni ei ddyletswyddau statudol i hyrwyddo cyfle cyfartal ac osgoi gwahaniaethu, arddangos ei ymrwymiad i roi cydraddoldeb ac amrywiaeth wrth wraidd pob agwedd o'i waith. Bwriad Ofcom yw y bydd ei Gynllun Cydraddoldeb Sengl yn ateb y gofynion o ran cynlluniau cydraddoldeb hil, cydraddoldeb anabledd a chydraddoldeb rhywiol ac i weithredu'r rhain mewn ffordd gynhwysol sy'n ystyried crefydd a/neu gredo, cyfeiriadedd rhywiol ac oed.

### MATERION AMGYLCHEDDOL

Mae Ofcom yn rhoi pwys mawr ar effaith amgylcheddol ei weithgarwch, ac mae'n gweithio'n frwd i leihau ei effaith. Yn dilyn archwiliad carbon annibynnol a gomisiynwyd yn 2007, gwnaeth Ofcom ymrwymiad cyhoeddus i leihau allyriadau carbon 25% erbyn diwedd 2012/12 (o'i gymharu â llinell sylfaen 2006/7) a bydd yn parhau i fonitro ei gynnydd yn erbyn y targed hwn.

### DATGANIAD AM BOLISI AC YMARFER IECHYD A DIOGELWCH

Y Prif Swyddog Gweithredu sy'n ysgwyddo cyfrifoldeb dros iechyd a diogelwch yn Ofcom. Ysgrifennydd Cynorthwyol y Gorfforaeth yw Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch sy'n cyfarfod bob chwarter ac sy'n adrodd i'r Bwrdd Gweithrediadau. Yn ystod y flwyddyn adrodd, cofnodwyd un anaf gyda'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.

### DIOGELU DATA

Mae Ofcom yn Rheolydd Data dan Ddeddf Diogelu Data 1998 ('y Ddeddf') ac mae wedi ymrwymo i brosesu'r holl ddata personol yn ddiogel mewn ffordd sy'n ateb gofynion y Ddeddf, yn cynnwys egwyddorion diogelu data. Mae gan Ofcom hefyd raglen hyfforddi ar ddiogelu data i sicrhau bod pob cydweithiwr yn deall eu cyfrifoldebau o ran cydymffurfio â'r Ddeddf a chydymffurfio ag arfer da wrth drin gwybodaeth.

Rhagair

### RHYDDID GWYBODAETH

Dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, a sefydlodd hawl cyffredinol i gael mynediad at bob math o wybodaeth a ddelir gan awdurdodau cyhoeddus, mae Ofcom wedi adolygu ac ymestyn ei gynllun cyhoeddi fel bo amrediad ehangach o wybodaeth ar gael yn hwylus ar ei wefan. Yn ystod y cyfnod dan sylw, cafodd Ofcom 734 cais am wybodaeth, ac wrth lynu at amcan y ddeddf o feithrin diwylliant agored, darparodd Ofcom yr holl wybodaeth, neu ran ohoni, i 74 y cant o'r ceisiadau.

### BUSNES HYFYW

Yn seiliedig ar weithdrefnau rheoli a chynllunio busnes arferol, mae'r Bwrdd yn credu'n rhesymol bod gan Ofcom ddigon o adnoddau i barhau i weithredu hyd y gellir rhagweld. Am y rheswm hwn, mae'r Bwrdd yn parhau i fabwysiadu'r sail busnes byw ar gyfer paratoi'r datganiadau ariannol.

**Colette Bowe** Cadeirydd

**Ed Richards** Prif Weithredwr

**23 Mehefin 2009**

# Bwrdd Ofcom



## Colette Bowe

Daeth Colette Bowe yn Gadeirydd Anweithredol Ofcom ym mis Mawrth 2009. Mae hi'n aelod o Bwyllgorau Archwilio, Taliadau ac Enwebiadau Ofcom. Hyfforddodd fel economegydd ac mae hi wedi dal nifer o uwch swyddi yn y sectorau cyhoeddus a phreifat. Dechreuodd ar ei gyrfa yn yr Adran Masnach a Diwydiant ac ar ôl hynny bu'n gweithio yn yr Awdurdod Darlledu Annibynnol, y Bwrdd Gwarantau a Buddsoddi, fel Prif Weithredwr yr Awdurdod Buddsoddi Personol ac fel Cadeirydd Gweithredol Busnes Rheoli Asedau Ewropeaidd yn Robert Fleming. Bu'n Gadeirydd Panel Defnyddwyr Ofcom o adeg ei sefydlu yn 2003 i Ragfyr 2007. Ar hyn o bryd mae'n Aelod Bwrdd o Axa Framlington, Morgan Stanley Bank International, Electra Private Equity plc a London and Continental Railways. Mae hi'n Gadeirydd Cyngor Coleg Queen Mary, Llundain.

## Philip Graf CBE

Philip Graf yw Dirprwy Gadeirydd Anweithredol Ofcom. Mae hefyd yn Aelod o Bwyllgorau Taliadau, Enwebiadau ac Archwilio Ofcom, ac yn Gadeirydd Bwrdd Cynnwys, Pwyllgor Trwyddedu Radio a Phwyllgor Sancsiynau ar Gynnwys Ofcom. Ymunodd â'r Liverpool Daily Post and Echo ym 1983, a drodd yn Trinity International Holdings ym 1985. Daeth yn Brif Weithredwr ym 1993 ac fe'i benodwyd yn Brif Weithredwr Trinity Mirror Group pan ymunodd y cwmni â'r Mirror Group ym 1999. Roedd yn y swydd hon tan Chwefror 2003. Mae'n gyn-gadeirydd Bwrdd Cyllid Safonau'r Wasg a'r Grŵp Rhanddeiliad Band Eang. Mae'n bartner ar hyn o bryd yn Praesta Partners LLP, yn Gyfarwyddwr Anweithredol gydag Archant Limited ac yn Ddirprwy Gadeirydd yr elusen Crisis, i bobl ddigartref.





## Ed Richards

Ed Richards yw Prif Weithredwr Ofcom. Yn flaenorol, roedd yn Brif Swyddog Gweithredu Ofcom, yn gyfrifol am Strategaeth, Ymchwil Marchnad, Cyllid, Adnoddau Dynol a swyddogaethau eraill. Cyn ymuno ag Ofcom, roedd yn Uwch Gynghorydd Polisi i'r Prif Weinidog (Tony Blair) ar y cyfryngau, telathrebu, y rhyngrwyd ac e-lywodraeth, a chyn hynny'n Rheolydd Strategaeth Gorfforaethol yn y BBC. Mae ef hefyd wedi gweithio ym maes ymgynghori gyda London Economics Ltd, fel cynghorydd i Gordon Brown AS, a dechreuodd ei yrfa gyda Diverse Production Ltd lle bu'n gweithio ar raglenni ar gyfer Channel 4. Mae ef hefyd yn Gyfarwyddwr Donmar Warehouse ac yn Gyfarwyddwr yr Ymddiriedolaeth Gwobrau Addysgu.

## Millie Banerjee CBE

Mae Millie Banerjee yn Aelod Anweithredol o Ofcom. Mae hi hefyd yn Gadeirydd Pwyllgor Taliadau Ofcom ac yn Aelod o Fwrdd Cynnwys a Phwyllgor Enwebiadau Ofcom. Mae hi hefyd yn Gadeirydd Awdurdod Heddlu Trafnidiaeth Prydain ac yn Ymddiriedolwr o Ymddiriedolaeth Peabody. Cyn hynny, treuliodd 25 mlynedd gyda BT gan gyrraedd lefel Cyfarwyddwr yn Isadran Cynnyrch a Gwasanaethau BT, ac wedyn bu'n Uwch Is-Lywydd ICO Global Communications. Mae hi wedi bod yn aelod o Fwrdd Strategaeth Swyddfa'r Cabinet ac wedi cael ei phenodi i nifer o uwch swyddi anweithredol yn cynnwys swyddogaethau gyda'r Awdurdod Rheilffyrdd Strategol, Asiantaeth Datblygu Sgiliau Sector, Channel 4 TV, y Bwrdd Carchardai ac yn ddiweddar fel Cadeirydd Postwatch. Mae hi wedi bod yn Aelod Bwrdd o Focus, aelod o gorff llywodraethol Prifysgol South Bank, Comisiynydd ar gyfer Penodiadau Barnwrol, Cadeirydd Ymddiriedolaeth Carnegie y DU ac Aelod o Fwrdd Ymgynghorol Ysgol Fusnes Coleg Imperial Tanaka.



Ian Hargreaves
ymddiswyddodd o'r Bwrdd ar 31 Mai 2008.

David Currie
ymddeolodd fel Cadeirydd Ofcom ar 11 Mawrth 2009 ac ymddiswyddodd o'r Bwrdd ar 31 Mawrth 2009.

Philip Rutnam
ymddiswyddodd o'r Bwrdd ar 20 Mawrth 2009.



**Tim Gardam**

Mae Tim Gardam yn Aelod Anweithredol o Ofcom ac yn Aelod o Bwyllgorau Enwebiadau a Thaliadau Ofcom. Gweithiodd am 25 mlynedd ym maes darlledu gan ddechrau yn y BBC lle'r oedd yn olygydd ar Panorama a Newsnight cyn dod yn Bennaeth Materion Cyfoes a Newyddion Wythnosol. Roedd yn un o'r tîm cyntaf o uwch-reolwyr yn Five ac yn Gyfarwyddwr Rhaglenni gyda Channel 4. Ef oedd awdur Adolygiad y DCMS o Wasanaethau Radio Digidol yn 2004, ac roedd yn aelod o Banel Ymgynghorol yr Arglwydd Burns ar yr Adolygiad o Siarter y BBC. Roedd yn Gyfarwyddwr SMG plc rhwng 2005 a 2007. Ef yw Pennaeth Coleg St Anne, Rhydychen er 2004.

**Stuart McIntosh**

Ymunodd Stuart McIntosh ag Ofcom fel Partner Cystadleuaeth ym mis Ionawr 2008, ac fe'i benodwyd i Fwrdd Ofcom ym mis Gorffennaf 2008. Cyn ymuno ag Ofcom, roedd yn bartner Strategol yn adain gyfathrebu IBM yn UDA. Cyn hynny, roedd ganddo swyddi uchel gyda PwC, lle'r oedd yn arwain Adain Ymgynghori ar Delathrebu PwC (yn y DU ac UDA), ac roedd yn Uwch Is-Lywydd gydag Adventis, sef cwmni ymgynghori ar strategaeth. Dechreuodd ei yrfa fel Economegydd yng Ngwasanaeth Economaidd Llywodraeth y DU. Mae hefyd wedi gweithio i BT fel Pennaeth Economeg Busnes a Rheolwr Dadansoddi Buddsoddiadau.





**Mike McTighe**

Mae Mike McTighe yn Aelod Anweithredol o Ofcom ac yn Aelod o Bwyllgorau Archwilio a Thaliadau Ofcom. Cyn hynny, roedd yn Gadeirydd a Phrif Weithredwr Carrier1 International SA, a chyn hynny, yn Gyfarwyddwr Gweithredol a Phrif Weithredwr Gweithrediadau Byd-Eang Cable & Wireless plc. Ar hyn o bryd, mae'n Gadeirydd Pace plc, Cadeirydd Volex Group plc, uwch gyfarwyddwr annibynnol Betfair Ltd, a Chadeirydd nifer o gwmnïau technoleg preifat.

**Peter Phillips**

Penodwyd Peter Phillips i Fwrdd Ofcom ym mis Gorffennaf 2008 ac mae'n ysgwyddo cyfrifoldeb dros y timau strategaeth, technoleg, polisi defnyddwyr, prif economegydd ac ymchwil marchnad. Cyn hynny, roedd yn Gyfarwyddwr Datblygu Busnes yn y BBC, ac ef arweiniodd werthiant arobryn BBC Broadcast yn 2005. Mae ei swyddi blaenorol yn y BBC yn cynnwys Prif Swyddog Gweithredol yn Adran Newyddion a Materion Cyfoes y BBC a Phennaeth Cynllunio Corfforaethol y BBC. Roedd yn uwch reolwr yn nhîm uno a phrynu busnesau yn SG Warburg a chyn hynny treuliodd saith mlynedd yn y cwmni ymgynghori ar strategaeth Bain & Company. Mae'n ymddiriedolwr gyda'r Cyngor Crefftau ac Ymddiriedolaeth Nuffield ac yn ymgynghorydd i Goleg Brenhinol y Ffisigwyr.



# Llywodraethu Corfforaethol

Fel corfforaeth statudol annibynnol heb randdeiliaid, a sefydlwyd dan Ddeddf y Swyddfa Gyfathrebiadau 2002, nid yw Ofcom yn ddarostyngedig i'r Côd Cyfun ar Lywodraethu Corfforaethol a gyhoeddwyd gan Awdurdod Rhestru'r DU.

**Fodd bynnag, mae ei egwyddorion yn rhoi meincnod defnyddiol i'r holl gyrff sy'n dymuno gwneud datganiad am eu perfformiad o ran llywodraethu corfforaethol. Mae Ofcom wedi cydymffurfio â phrif egwyddorion y Côd Cyfun yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2008 a 31 Mawrth 2009. At y diben hwn, bydd Ofcom yn parhau i fabwysiadu egwyddorion y côd p'un a yw'n gallu gwneud hynny, neu a yw'n addas iddo wneud hynny, a chofio ei statws fel corfforaeth statudol annibynnol.**

## Taliadau i Aelodau Bwrdd

Rhoddir manylion taliadau Aelodau ar dudalen 76 i 82.

## Y Bwrdd

Mae Bwrdd Ofcom yn cynnwys Aelodau Gweithredol ac Anweithredol, ill dau. Penodir Cadeirydd ac Aelodau Anweithredol Ofcom ar y cyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Arloesi a Sgiliau (a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon), am gyfnod hyd at bum mlynedd. Mae Pwyllgor Enwebiadau Ofcom wedi cynorthwyo'r ddwy Adran drwy weithio â nhw yn y prosesau dethol ar gyfer penodi Aelodau Anweithredol newydd. Penodir Aelodau Gweithredol y Bwrdd gan y Cadeirydd a'r holl Aelodau Anweithredol annibynnol. Rhoddir manylion bywgraffiadol yr Aelodau ar dudalennau 60 a 61. Mae Ofcom wedi mabwysiadu model Bwrdd unedol. Ar hyn o bryd, mae pum Aelod Anweithredol yn cynnwys y Cadeirydd, sy'n gyfrifol am redeg y Bwrdd, a thri Aelod Gweithredol, yn cynnwys y Prif Weithredwr, yn rhan o'r Bwrdd. Mae'r Bwrdd yn gyfrifol ac yn atebol am gyflawni swyddogaethau statudol Ofcom, yn darparu arweiniad strategol ac yn rheoli gweithgareddau cyffredinol Ofcom. Nodir dyletswyddau a chyfrifoldebau Aelodau yng Nghôd Ymddygiad yr Aelodau. Ceir rhestr o fuddiannau'r Aelodau ar wefan Ofcom. At ddibenion mabwysiadu egwyddorion y Côd Cyfun:

## Llywodraethu Corfforaethol

- mae'r Bwrdd yn ystyried bod yr holl Aelodau Anweithredol yn annibynnol ar y tîm rheoli ac yn rhydd o unrhyw berthynas fusnes neu berthynas arall a allai amharu i raddau arnynt wrth wneud penderfyniadau;
- mae'r Bwrdd o'r farn bod gan yr Aelodau, rhyngddynt, amrediad eang o brofiad sy'n sicrhau bod y Bwrdd yn effeithiol i arwain a rheoli Ofcom;
- mae'r Bwrdd yn cynnwys mwyafrif o Aelodau Anweithredol . Ystyrir mai Millie Banerjee yw'r uwch-Aelod Anweithredol at ddibenion y Côd Cyfun;
- bydd pob Aelod yn cael eu cynefino'n llawn am eu cyfrifoldebau adeg eu penodi ac ar ôl hynny byddant yn cael rhagor o arweiniad ac yn cael eu briffio yn ôl y gofyn;
- mae'r Bwrdd yn cyfarfod yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn. Mae'r Bwrdd yn cadw rhai materion penodol i'w hun, ond fel arall bydd yn dirprwyo cyfrifoldebau penodol i uwch reolwyr a phwyllgorau. Swyddogaeth y rheolwyr gweithredol yw gweithredu polisïau'r Bwrdd. Mae nifer o gyrff ymgynghorol yn cyfrannu at waith y Bwrdd a'r Tîm Gweithredol;
- mae'r Bwrdd yn cael gwybodaeth amserol a rheolaidd mewn dull ac ansawdd sy'n addas iddo gyflawni ei swyddogaethau; ac
- mae gan bob Aelod fynediad at Ysgrifennydd y Gorfforaeth, sy'n atebol i'r Bwrdd er mwyn sicrhau bod y rheolau a'r gweithdrefnau cywir yn cael eu dilyn. Gall yr holl Aelodau gael cyngor gan weithwyr proffesiynol annibynnol, a bydd Ofcom yn talu am hynny.

Yn gyffredinol, mae'r Cadeirydd yn rheoli'r Bwrdd er mwyn sicrhau bod:

- gan Ofcom amcanion priodol a strategaeth effeithiol;
- tîm y Prif Weithredwr yn gallu rhoi'r strategaeth ar waith;
- gweithdrefnau ar waith i hysbysu'r Bwrdd am y perfformiad yn erbyn yr amcanion; a bod
- Ofcom yn gweithredu yn unol â'r safonau uchaf o lywodraethu corfforaethol. Anfonir Adroddiad Blynyddol Ofcom i'r Adran dros Fusnes, Arloesi a Sgiliau sy'n gosod copïau ohono gerbron Dau Dŷ'r Senedd, y mae Ofcom yn atebol iddynt.

# Pwyllgorau'r Bwrdd

**Wrth arfer ei bwerau dan Ddeddf y Swyddfa Gyfathrebiadau 2002, mae'r Bwrdd yn dirprwyo rhai o'i gyfrifoldebau i'r Rheolwyr Gweithredol yn Ofcom a rhai i Bwyllgorau'r Bwrdd sydd ag awdurdodaeth a chylch gorchwyl diffiniedig clir.**

Disgrifir cyfansoddiad a phrif swyddogaethau'r Pwyllgorau pwysicaf hyn isod.

## Y Bwrdd Cynnwys

Nodir swyddogaeth a chylch gwaith y Bwrdd Cynnwys yn yr adroddiad gan Gadeirydd y Bwrdd Cynnwys ar dudalennau 10 i 12. Mae'r Bwrdd Cynnwys yn cyfarfod yn fisol a chynhaliodd 12 cyfarfod yn ystod y flwyddyn. Dyma Aelodau'r Bwrdd Cynnwys:

- Philip Graf (Cadeirydd)
- Adam Singer (Dirprwy Gadeirydd)
- Richard Ayre
- Sue Balsom
- Millie Banerjee
- Chris Banatvala
- Pam Giddy
- Anthony Lilley OBE
- Dr. Paul Moore
- Stewart Purvis CBE
- Joyce Taylor
- Kath Worrall (Cadeirydd y Pwyllgor Tegwch)

Chris Banatvala a Stewart Purvis yw'r unig Aelodau Gweithredol ar y Bwrdd Cynnwys.

Mae aelodau'r Bwrdd Cynnwys hefyd yn aelodau o'r Pwyllgor Trwyddedu Radio, y Pwyllgor Sancsiynau ar Gynnwys a'r Pwyllgorau Tegwch a Phreifatrwydd. Yn ystod y cyfnod dan sylw, cafodd 17 achos eu hystyried gan y Pwyllgor Tegwch a rhoddodd y Pwyllgor Sancsiynau ar Gynnwys sancsiynau mewn 30 achos (29 ohonynt wedi arwain at sancsiwn ariannol). Roedd y rhain yn cynnwys nifer o achosion uchel eu proffil yn cynnwys: *Ant 'n' Dec's Saturday Night Takeaway & Gameshow Marathon*, cystadleuaeth "*Secret Sound*" GCAP Media, *Comic Relief*, *Sport Relief* a'r *Russell Brand Show*. Rhoddir manylion llawn am waith y pwyllgorau ar dudalennau 49 a 50.

## Y Pwyllgor Gwaith

Y Pwyllgor Gwaith yw'r uwch dîm gweithredol sy'n gyfrifol am oruchwylio rheolaeth dros Ofcom. Ei brif ffocws yw pennu cyfeiriad i'r sefydliad, a gwneud penderfyniadau am faterion ariannol a gweinyddol a'u monitro. Caiff ei gyfrifoldebau o ran llunio polisi eu cyfyngu i bolisi rheoli yn unig. Dyma'r aelodau:

- Ed Richards (Cadeirydd)
- Jill Ainscough
- Stuart McIntosh
- Peter Phillips
- Stewart Purvis

Ymddiswyddodd Philip Rutnam o'r Pwyllgor ar 20 Mawrth 2009.

Gwahoddir uwch swyddogion Ofcom eraill i fynychu cyfarfodydd y Pwyllgor ar sail ad-hoc.

## Y Pwyllgor Archwilio

Mae'r Pwyllgor Archwilio'n cynnwys dau Aelod Anweithredol o Fwrdd Ofcom a Chadeirydd Anweithredol allanol annibynnol. Dyma aelodau'r Pwyllgor Archwilio:

- Peter Teague (Cadeirydd)
- Philip Graf
- Colette Bowe

Ymddiswyddodd David Currie o'r Pwyllgor ar 31 Mawrth 2009.

Mae Peter Teague, y Cadeirydd allanol annibynnol, yn gyfrifydd siartredig cymwys ac mae'n bodloni gofynion y Côd Cyfun bod gan un Aelod y Pwyllgor brofiad ariannol perthnasol. Caiff gofynion ychwanegol y Côd Cyfun eu bodloni i'r graddau bod dau Aelod o'r Pwyllgor yn Aelodau Anweithredol annibynnol o Fwrdd Ofcom.

Pwyllgorau'r Bwrdd

Gwahoddir y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Cyllid, yn ogystal â'r archwilwyr mewnol ac allanol, i fynychu cyfarfodydd Pwyllgor. Mae Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio'n adrodd yn ôl ar ganlyniadau cyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio i Fwrdd Ofcom drwy Gadeirydd Ofcom, Colette Bowe, ac mae'n cyfarfod â Bwrdd Ofcom o leiaf unwaith y flwyddyn.

Prif ddyletswyddau'r Pwyllgor Archwilio yw:

- adolygu a chyfeirio'r swyddogaeth archwilio mewnol a phenodi archwilwyr mewnol;
- adolygu natur a chwmpas yr archwiliad allanol a chanfyddiadau'r archwilwyr allanol;
- monitro ac adolygu effeithiolrwydd y systemau rheoli fewnol a rheoli risg, ar ran y Bwrdd;
- monitro ac adolygu cywirdeb, ansawdd a dibynadwyedd y datganiadau ariannol, y Cynllun Blynyddol a'r Cyfrifon, ar ran y Bwrdd;
- adolygu cwmpas a chanlyniadau'r archwiliadau mewnol ac allanol yn barhaus; a
- chymeradwyo'r fframwaith awdurdod ariannol.

Cyflawnir y swyddogaeth archwilio mewnol gan KPMG yn annibynnol ar Ofcom. Cred y Pwyllgor Archwilio ei bod yn briodol bod yr archwilwyr mewnol hefyd yn darparu cyngor ar risgiau mewnol i Ofcom. Gwneir penderfyniadau ynghylch gofyn i KPMG ddarparu gwasanaethau eraill fesul achos unigol. Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol sy'n cyflawni'r swyddogaeth archwilio allanol.

Cyfarfu'r Pwyllgor Archwilio bedair gwaith yn ystod y flwyddyn. Gellir gweld y cylch gorchwyl ar wefan Ofcom.

Mae Peter Teague yn cael £5,184 y flwyddyn am ddarparu ei wasanaethau fel Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio.

## Y Pwyllgor Taliadau

Mae'r Pwyllgor Taliadau'n cynnwys pedwar Aelod Anweithredol o Fwrdd Ofcom. Dyma aelodau'r Pwyllgor Taliadau:

- Millie Banerjee (Cadeirydd)
- Colette Bowe
- Philip Graf
- Mike McTighe

Ymddiswyddodd David Currie o'r Pwyllgor ar 31 Mawrth 2009.

Mae'r Prif Weithredwr, y Prif Swyddog Gweithredol a'r Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol yn mynychu cyfarfodydd ar wahoddiad y Pwyllgor Taliadau.

Mae'r Pwyllgor yn cynghori Ofcom ynghylch y taliadau i'r Prif Weithredwr, Aelodau Gweithredol eraill y Bwrdd ac i Aelodau o'r Pwyllgor Gwaith, yn ogystal â'u telerau ac amodau gwasanaeth. Mae'r Pwyllgor hefyd yn cynghori Ofcom am delerau ac amodau aelodau rhan-amser y Bwrdd Cynnwys, y Panel Defnyddwyr, y Pwyllgor Ymgynghori ar gyfer Pobl Hŷn a Phobl Anabl, a phedwar Pwyllgor Ymgynghori'r Gwledydd a'r Rhanbarthau.

Mae'r Pwyllgor yn goruchwylio'r broses ar gyfer pennu telerau ac amodau holl gydweithwyr eraill Ofcom. Mae'r Pwyllgor hefyd yn goruchwylio ac yn penderfynu ar faterion yn ymwneud â'r trefniadau pensiwn a sefydlwyd gan Ofcom ar gyfer holl gydweithwyr Ofcom.

Mae'r Pwyllgor Taliadau'n cwrdd yn ôl y gofyn. Yn ystod y cyfnod dan sylw, cyfarfu'r Pwyllgor chwe gwaith. Mae Cadeirydd y Pwyllgor Taliadau'n adrodd yn ôl ar ganlyniadau cyfarfodydd y Pwyllgor Taliadau i'r Bwrdd.

Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Arloesi a Sgiliau a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon sy'n pennu'r taliadau i Aelodau Anweithredol Bwrdd Ofcom, a nodir hynny yn Nodyn 7 yr Adroddiad Taliadau. Petai angen i Ofcom ystyried unrhyw agwedd o daliadau Aelodau Anweithredol, mae Pwyllgor Taliadau Aelodau Anweithredol wedi'i sefydlu sy'n cynnwys y Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol ac Ysgrifennydd y Gorfforaeth, a fydd yn cyfarfod ac yn adrodd yn uniongyrchol i'r Ysgrifenyddion Gwladol, fel y bo'n briodol. O ganlyniad, nid oes yr un Aelod Bwrdd yn cyfrannu at bennu ei daliadau ei hun.

Mae'r Adroddiad Taliadau ar dudalennau 76 i 82 yn nodi sut mae Ofcom yn gweithredu egwyddorion perthnasol y Côd Cyfun.

## Y Pwyllgor Enwebiadau

Mae'r Pwyllgor Enwebiadau'n cynnwys pedwar Aelod Anweithredol o Fwrdd Ofcom. Dyma aelodau'r Pwyllgor Enwebiadau:

- Colette Bowe (Cadeirydd)
- Philip Graf
- Millie Banerjee
- Tim Gardam

Ymddiswyddodd David Currie o'r Pwyllgor ar 31 Mawrth 2009. Mae'r Pwyllgor yn gweithio gyda'r Adran Fusnes, Arloesi a Sgiliau a'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ar broses ddethol yr Aelodau Anweithredol ar Fwrdd Ofcom a gwneud argymhellion i'r holl Aelodau Anweithredol ar Fwrdd Ofcom ynghylch penodiadau Aelodau Gweithredol. Mae'r Pwyllgor yn cwrdd yn ôl y gofyn.

## Y Pwyllgor Tegwch a'r Pwyllgor Sancsiynau ar Gynnwys

Mae'r ddau bwyllgor hyn yn cynnwys aelodau o'r Bwrdd Cynnwys. Ar adegau, mae'r Pwyllgor Sancsiynau ar Gynnwys yn gwahodd aelodau ychwanegol o Fwrdd Ofcom.

Mae gan y ddau Bwyllgor Gadeirydd parhaol. Yn ystod y cyfnod dan sylw, Kath Worrall oedd Cadeirydd y Pwyllgor Tegwch a Philip Graf oedd Cadeirydd y Pwyllgor Sancsiynau ar Gynnwys.

Mae'r Pwyllgorau'n cyfarfod yn ôl y gofyn a cheir manylion am eu gweithredoedd ar dudalen 49 a 50.

## Y Pwyllgor Trwyddedu Radio

Mae Bwrdd Ofcom wedi dirprwyo awdurdod i'r Pwyllgor Trwyddedu Radio i gyflawni swyddogaethau Ofcom mewn perthynas â thrwyddedu darlledu radio (sain). Mae cyfrifoldebau'r Pwyllgor yn cynnwys penderfynu ar ddyfarnu trwyddedau radio newydd a'r rheini sydd wedi cael eu hail-hysbysebu, amrywio trwyddedau a diddymu trwyddedau.

Philip Graf sy'n cadeirio'r pwyllgor hwn. Mae'r aelodau'n cynnwys dau Aelod Anweithredol parhaol y Bwrdd Cynnwys, sef Joyce Taylor a Pam Giddy, a phum cydweithiwr Ofcom. Mae'n cyfarfod bob mis a cheir manylion am ei weithgareddau ar dudalennau 21 a 22.

## Panel y Gronfa Radio Cymunedol

Mae adran 359 Deddf Cyfathrebiadau 2003 yn caniatáu sefydlu cronfa ar gyfer gweithredwyr radio cymunedol, a bod Ofcom yn gweinyddu'r gronfa honno gan "roi grantiau y mae'n ei ystyried sy'n briodol" i ddeiliaid trwydded radio cymunedol. Mae'r Panel yn cyfarfod yn ôl y gofyn i archwilio ceisiadau a rhoi cyfraniadau o'r Gronfa. Mae'n annibynnol ar Bwyllgor Trwyddedu Radio Ofcom sy'n dyfarnu trwyddedau radio cymunedol.

Mae tri aelod anweithredol ar y Panel: Kevin Carey (Cadeirydd), Richard Hilton a Thomas Prag.

# Pwyllgorau Heblaw Rhai'r Bwrdd

## Y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau

Mae Adran 16 Deddf Cyfathrebiadau 2003 yn mynnu bod Ofcom yn sefydlu Panel Defnyddwyr.

Mae'r Panel yn annibynnol ar Ofcom ac yn gweithredu ar hyd braich oddi wrtho. Ei bwrpas yw dylanwadu ar Ofcom, y Llywodraeth, yr UE, a darparwyr gwasanaethau ac offer, fel bo buddiannau cyfathrebu defnyddwyr a dinasyddion yn cael eu gwarchod a'u hyrwyddo. Aelodau'r Panel yw:

- Anna Bradley (Cadeirydd)
- Fiona Ballantyne
- Louisa Bolch (penodwyd 28 Hydref 2008)
- Kim Brook (penodwyd 28 Hydref 2008)
- Colin Browne (penodwyd 28 Hydref 2008)
- Roger Darlington
- Maureen Edmondson (penodwyd 28 Hydref 2008)
- Leen Petre (penodwyd 28 Hydref 2008)
- Bob Warner CBE (penodwyd 28 Hydref 2008)
- Damian Tambini (penodwyd 28 Hydref 2008)

Ymddeolodd Graham Mather, Jeremy Mitchell Kate O'Rourke Bob Twitchin ac Allan Williams o'r Panel ar 31 Gorffennaf 2008. Ymddiswyddodd Simon Gibson OBE o'r Panel ar 31 Hydref 2008. Ymddiswyddodd Ruth Evans o'r Panel ar 31 Ionawr 2009. Ymddiswyddodd Kevin McLaughlin o'r Panel ar 11 Chwefror 2009.

Yn ystod 2008/09 symudodd y Panel ymlaen i ail gyfnod ei waith dan y Cadeirydd newydd ac ar ôl penodi aelodau newydd ym mis Hydref 2008, penderfynodd y Panel edrych o'r newydd ar ei rôl. Roedd hyn yn cynnwys newid enw'r Panel i'r Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau (yr hen enw arno oedd Panel Defnyddwyr Ofcom) ac mae hyn yn pwysleisio rôl ymgynghori'r Panel ar draws y sector cyfathrebu; nid yw hyn yn effeithio ar berthynas agos y Panel ag Ofcom. Mae cyfrifoldebau a swyddogaethau'r Panel yn gorgyffwrdd mewn rhai meysydd â Llais Defnyddwyr ac ym mis Chwefror 2009 cytunodd y ddau gorff ar Femorandwm o Ddealltwriaeth.

Dau faes gwaith â blaenoriaeth allweddol oedd mynediad y genhedlaeth nesaf ac agenda Prydain Ddigidol. Roedd gan y Panel gysylltiad agos â'r trafodaethau ynghylch Prydain Ddigidol. Mewn cysylltiad â hyn hefyd oedd ymateb y Panel i Gynllun Gweithredu Cynhwysiant Digidol y Llywodraeth, a gyflwynwyd ym mis Ionawr 2008.

Cynorthwyodd y Panel i lunio amrediad eang o waith polisi Ofcom ar faterion a oedd yn effeithio ar ddefnyddwyr a dinasyddion yn y marchnadoedd cyfathrebu, gan gynghori ar faterion yn cynnwys mynediad a chynhwysiant, hunan-reoleiddio a chyd-reoleiddio, a llythrennedd yn y cyfryngau.

Bydd y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau yn cyhoeddi ei Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2008/9 ym mis Gorffennaf 2009. Mae'r Adroddiad a rhagor o fanylion am waith y Panel ar-lein yn www.communicationsconsumerpanel.org.uk.

## Bwrdd Ymgynghori Ofcom ar Faterion Sbectrwm

Sefydlwyd Bwrdd Ymgynghori Ofcom ar Faterion Sbectrwm yn 2004 i roi cyngor annibynnol i Ofcom am faterion strategol yn ymwneud â rheoli sbectrwm. Mae'r Bwrdd yn cyfarfod rhyw bum neu chwe gwaith y flwyddyn. Dyma aelodau'r Bwrdd:

- Syr David Brown (Cadeirydd)
- Dr David Cleevely
- Yr Athro Leela Damodaran
- Yr Athro Barry Evans
- Debbie Gillatt
- Phillipa Marks
- Dr Robert Pepper
- Yr Athro Simon Saunders
- Dr Andrew Sleigh
- Yr Athro Will Stewart
- Dr Walter Tuttlebee OBE
- Yr Athro Tommaso Valletti

Ymddiswyddodd yr Athro Peter Swann o'r Bwrdd ar 16 Chwefror 2009.

Yn ystod ei bumed flwyddyn, y thema a oedd yn sail i'r rhan fwyaf o drafodaethau'r Bwrdd oedd cydgyfeiriant, yn ystyried y materion technegol, pryderon defnyddwyr a dinasyddion, a gweithio gyda chyrff megis adolygiad Caio, Melin Drafod Cydgyfeirio a Phrydain Ddigidol. Dyma'r eitemau allweddol a drafodwyd:

- Roedd y Bwrdd yn awyddus i weld cynnydd sydyn o ran y Llywodraeth yn rhyddhau sbectrwm a thrafodwyd dulliau o gael mwy o gymhelliannau a chwalu rhwystrau.
- Y rheoliadau gwahanol sy'n ymwneud â rhwydweithiau di-wifr a llinell wifr a'r effaith niweidiol bosibl gan fod rhwydweithiau'n cynnwys mwy a mwy o elfennau o'r naill a'r llall.
- Mae angen i'r Llywodraeth gydnabod pwysigrwydd rhwydweithiau cyfathrebu band-eang, hysbysu defnyddwyr, ac annog "diffodd" rhwydweithiau arafach er mwyn bwrw ymlaen â'r trosglwyddo'n gynt.
- Wrth ddiffinio cyflymder mynediad y genhedlaeth nesaf, rhaid ystyried cyflymder cysylltiad i fyny a chysylltiad i lawr, cuddni, tagfeydd a mesurau eraill, a sicrhau bod y saernïaeth a gaiff ei ddewis yn barod ar gyfer y dyfodol.
- Y rhaniad tebygol rhwng cynhyrchu cynnwys a'i dosbarthu a'r effaith y byddai hyn yn ei gael ar fodelau busnes a rheoleiddio.

Cyhoeddwyd Adroddiad Blynyddol y Bwrdd, yn rhoi sylw i'w weithgareddau yn ystod ei bumed flwyddyn, ar 13 Mai 2009 a gellir ei weld ar wefan y Bwrdd yn www.osab.org.uk

## Y Pwyllgor Ymgynghori ar gyfer Pobl Hŷn a Phobl Anabl

Mae Adran 21(1) Deddf Gyfathrebiadau 2003 yn mynnu bod Ofcom yn sefydlu Pwyllgor i gynghori Ofcom am faterion yn y sector cyfathrebu sy'n effeithio'n benodol ar bobl hŷn a phobl anabl. Mae'r Pwyllgor yn cyfarfod pedair gwaith y flwyddyn o leiaf ac mae'n mynd i'r afael â darnau penodol o waith mewn is-grwpiau. Dyma Aelodau'r Pwyllgor Ymgynghori ar gyfer Pobl Hŷn a Phobl Anabl:

- Mike Whitlam CBE (Cadeirydd)
- Liz Atkins (penodwyd 1 Rhagfyr 2008)
- Simon Cramp
- Dr Laura Muir
- Dr Maurice Mulvenna (penodwyd 1 Rhagfyr 2008)
- Robert Peckford
- Suneel Shivdasani
- David Sindall
- John Welsman
- Nicholas Young

Bu'r Athro Janet Askham farw ar 7 Gorffennaf 2008 yn fuan ar ôl cael eu hailbenodi i'r pwyllgor. Ymddeolodd Caroline Ellis, Jonathan Kaye a Ross Trotter o'r Pwyllgor ar 30 Mehefin 2008.

Yn ei bumed flwyddyn, mae'r Pwyllgor wedi parhau i gynghori Ofcom i sicrhau bod pobl hŷn a phobl anabl yn bartneriaid cyfartal ac yn gyfranogwyr llawn ar draws technolegau telathrebu a darlledu cydgyfeiriol sy'n datblygu, platfformau cyfryngau newydd, a chyfryngau darlledu traddodiadol a digidol. Mae'r Pwyllgor wedi darparu cyngor ffurfiol i Ofcom am ei ymgynghoriadau ar ddyfodol darlledu gwasanaeth cyhoeddus, yn ogystal â materion ynghylch yr Adolygiad Difidend Digidol, y Rheolwr Band a Chynllun Blynyddol Ofcom ar gyfer 2009/10. Hefyd mae'r Pwyllgor wedi parhau i gynghori Ofcom ar draws amrediad o'i gyfrifoldebau eraill, yn cynnwys Polisi Defnyddwyr Ofcom, y rhaglenni Ymchwil a Llythrennedd yn y Cyfryngau, a mewnbwn Ofcom i'r adolygiad o Gyfarwyddebau Fframwaith Cyfathrebu Electronig yr UE. Bydd y Pwyllgor yn parhau i fonitro effeithiolrwydd gwaith amrywiaeth Ofcom, gan sicrhau bod materion posibl ynghylch cydraddoldeb yn cael eu hystyried yn holl waith Ofcom.

Pwyllgorau Heblaw Rhai'r Bwrdd

## Pwyllgorau Ymgynghori'r Gwledydd a'r Rhanbarthau

Mae Adran 20 Deddf Cyfathrebiadau 2003 yn mynnu bod Ofcom yn sefydlu Pwyllgorau Ymgynghori'r Gwledydd gwahanol yn y Deyrnas Unedig. Swyddogaeth pob Pwyllgor yw darparu cyngor i Ofcom am faterion yn ymwneud â chyfathrebu yn deillio o ddiddordebau a safbwyntiau pobl sy'n byw yn y rhan o'r DU lle sefydlwyd y Pwyllgor. Dyma aelodau pob un Pwyllgor:

### RHANBARTHAU LLOEGR

- Yr Athro William Dutton (Cadeirydd, penodwyd 1 Ionawr 2009)
- Olwyn Hocking (penodwyd 1 Ionawr 2009)
- Dharmash Mistry (penodwyd 1 Ionawr 2009)
- John Varney (penodwyd 1 Ionawr 2009)
- Graham Creelman OBE (penodwyd 1 Ionawr 2009)
- Wendy Pilmer (penodwyd 1 Ionawr 2009)
- Helen Foster (penodwyd 1 Ionawr 2009)
- Robert Watson (penodwyd 1 Ionawr 2009)
- Anne Scorer

Ymddeolodd Suzy Brain England, Sue Farrington, Derek Inman, Jessica Mann, Alan Wright, Gita Conn OBE YH, John Hooper CBE, Don Jayasuriya ac Azam Mamujee o'r Pwyllgor ar 31 Awst 2008.

### YR ALBAN

- Yr Athro Philip Schlesinger (Cadeirydd)
- Thomas Prag
- Laura Alexander
- Andrew Anderson
- Dr Franck Chevalier (penodwyd 1 Ionawr 2009)
- Andrew Jones
- Mairi Mcleod (penodwyd 1 Ionawr 2009)
- Dr Andrew Muir
- Mike Shaw

Ymddeolodd Julie Ramage o'r Pwyllgor ar 31 Rhagfyr 2008.

### GOGLEDD IWERDDON

- Yr Athro R. Wallace Ewart OBE (Cadeirydd)
- Paul Cavanagh
- Jim Dougal
- Isolde Goggin
- Lesley Holmes
- Maire Killoran
- Libby Kinney
- Billy McClean
- Dr Sally Montgomery OBE
- Dr Leslie Orr
- Ben Preston

### CYMRU

- Yr Athro Tony Davies (Cadeirydd)
- Julie Barton
- Nick Bennett
- Ian Clarke
- John Davies
- Mark Elliott
- Simon Gibson OBE (penodwyd 1 Ionawr 2009)
- Glyn Mathias

Ymddiswyddodd Gary Partridge o'r Pwyllgor ar 24 Medi 2008. Ymddiswyddodd Charlie Bass o'r Pwyllgor ar 31 Rhagfyr 2008.

Nid yw'r ffioedd ar gyfer aelodau Pwyllgorau heblaw rhai'r Bwrdd wedi cynyddu yn 2009.

# Datganiad o Gyfrifoldebau

## Cyfrifoldebau'r Bwrdd

Dan delerau Deddf y Swyddfa Gyfathrebiadau 2002, mae'n ofynnol i'r Bwrdd baratoi Datganiad o Gyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Mae hyn yn cydymffurfio â'r Cyfarwyddyd ar Gyfrifon a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Arloesi a Sgiliau a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Mae'r Bwrdd hefyd yn gyfrifol am anfon copi o'r Datganiad o'r Cyfrifon at y Rheolydd a'r Archwilydd Cyffredinol.

Caiff y Datganiad o Gyfrifon hwn ei baratoi, i'r graddau y mae hynny'n berthnasol, yn unol â Deddf Cwmnïau 1985 a safonau cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig a gaiff eu derbyn yn gyffredinol, ac ar sail gronnus. Rhaid iddo roi darlun cywir a theg o gyflwr busnes Ofcom fel ag ydoedd ar ddiwedd y flwyddyn ariannol ac o'i incwm a'i wariant, ei enillion a'i golledion cydnabyddedig a'r llifoedd arian ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Mae'r Bwrdd yn cadarnhau ei fod, wrth baratoi'r Datganiad o Gyfrifon hwn, wedi dilyn y gofynion perthnasol ar gyfer cyfrifyddu a datgelu, wedi defnyddio polisïau cyfrifyddu addas yn gyson, wedi rhoi barn a gwneud amcangyfrifon ar sail resymol, wedi dilyn safonau cyfrifyddu perthnasol ac wedi paratoi'r datganiad o gyfrifon hwn ar sail busnes byw.

Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am sicrhau bod cofnodion priodol yn cael eu cynnal a'u cadw sy'n datgelu i raddau sy'n rhesymol gywir ar unrhyw adeg beth yw sefyllfa ariannol Ofcom ac yn ei alluogi i sicrhau bod y Datganiad o Gyfrifon yn cydymffurfio â Deddf Cwmnïau 1985. Yn ogystal â hynny, mae'r Bwrdd yn gyfrifol am ddiogelu asedau Ofcom, ac felly mae'n cymryd camau rhesymol i atal a chanfod twyll ac anghysondebau eraill.

## Cyfrifoldebau'r Prif Weithredwr

Penodir y Prif Weithredwr gan y Bwrdd sy'n dirprwyo iddo'r cyfrifoldeb dros reoli Ofcom o ddydd-i-ddydd. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Arloesi a Sgiliau a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wedi dynodi'r Prif Weithredwr yn Swyddog Atebol Ofcom. Nid yw wedi'i benodi'r ffurfiol yn Swyddog Atebol yn ôl ystyr y Llywodraeth, ond mae'r penodiad yn cynnwys dyletswyddau cyfrifoldeb o ran rheoleiddio, priodoldeb, gwerth am arian, rheolaeth ariannol dda a diogelu arian cyhoeddus.

Mae gan y Prif Weithredwr gyfrifoldebau penodol dros sicrhau cydymffurfiad â thelerau'r Memorandwm Ariannol a roddwyd gan yr Ysgrifenyddion Gwladol. Rhaid iddo hefyd sicrhau bod cofnodion cyfrifyddu priodol yn cael eu cadw a rhaid iddo lofnodi'r cyfrifon.

Fel Aelod o'r Bwrdd, rhaid i'r Prif Weithredwr sicrhau nad yw ei gyfrifoldebau o ran atebolrwydd yn gwrthdaro â'r rhai sydd ganddo fel Aelod Bwrdd. Gall y Prif Weithredwr hefyd gael ei alw gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a phwyllgorau Seneddol eraill i roi tystiolaeth am y modd y mae'n cyflawni ei ddyletswyddau.

# Datganiad ar Reolaeth Fewnol

## Cwmpas Cyfrifoldeb

A minnau'n Swyddog Atebol, yr wyf yn gyfrifol am gynnal system reolaeth fewnol gadarn sy'n gymorth i wireddu polisïau Ofcom, ei nodau a'i amcanion, a system sydd ar yr un pryd yn diogelu cronfeydd cyhoeddus ac asedau Ofcom. Yr wyf yn bersonol gyfrifol am y cronfeydd a'r asedau hyn ac fe wnaf hynny'n unol â'r cyfrifoldebau a roddwyd imi dan y drefn Rheoli Arian Cyhoeddus ac ym Memorandwm Ariannol Ofcom gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Arloesi a Sgiliau a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon.

Mae gofyn imi gynghori'r Bwrdd petai unrhyw gam a gymerid yn tarfu ar briodoldeb neu gysondeb neu ar fy nghyfrifoldebau ehangach i sicrhau gwerth am arian.

## Pwrpas y System Rheoli Mewnol

Bwriedir i'r system rheoli mewnol reoli risg hyd at lefel resymol, yn hytrach na dileu pob risg o fethu, er mwyn gwireddu polisïau, nodau ac amcanion. Felly, o ran ei effeithiolrwydd, ni all ond ddarparu sicrwydd rhesymol, yn hytrach na sicrwydd absoliwt. Seilir system rheoli mewnol Ofcom ar broses barhaus a'i nod yw:

- adnabod a blaenoriaethu'r risgiau sy'n effeithio ar gyflawni polisïau, nodau ac amcanion Ofcom;
- gwerthuso'r tebygolrwydd y caiff y risgiau hynny eu gwireddu a beth fyddai effaith hynny;
- rheoli'r risgiau'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus; a
- chynnwys rheoli risg ym mhrosesau rheoli ehangach Ofcom.

Mae'r system rheoli mewnol wedi bod yn ei lle yn Ofcom ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2009 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r Adroddiad a'r Cyfrifon Blynyddol ac mae'n gyson â'r arweiniad a gafwyd gan y Trysorlys.

## Y Gallu i Ymdrin â Risg

Daliodd Ofcom ati i fod yn rhagweithiol o ran cynnig arweiniad ar gyfer rheoli risg drwy waith y Bwrdd a'i is-bwyllgorau, sy'n gyfrifol am reoli i ba raddau y mae Ofcom yn agored i risg ac sy'n ymwneud â gwneud penderfyniadau ynglŷn â risg. Mae hyn yn cynnwys yr adolygiad blynyddol o risg, adnabod y risgiau sy'n effeithio ar gyflawni amcanion Ofcom a thrafodaethau parhaus yn eu cylch.

Adolygir y gofrestr risg strategol gan y Bwrdd a'r Pwyllgor Gwaith bob mis. Neilltuir perchennog risg uwch ar gyfer pob risg a nodir, ac mae'r perchennog hwnnw'n atebol am reoli a lliniaru'r risg honno ac am lunio cynllun wrth gefn ar ei chyfer. Bydd aelodau'r Pwyllgor gwaith yn darparu diweddariadau misol ynglŷn â'r risgiau y maent yn uniongyrchol gyfrifol amdanynt drwy gyfrwng y broses adrodd ar gyfer rheoli risgiau.

Adolygir adroddiadau perfformiad misol gan y Bwrdd a'r Pwyllgor Gwaith. Mae'r rheini'n ymwneud â'r perfformiad o'i gymharu â dangosyddion allweddol yng nghyswllt gwerth am arian, pobl a dysgu, perfformiad o ran prosesau, gwireddu polisïau a'r canlyniadau i ddefnyddwyr a dinasyddion, a rhoddir sgôr risg i bob un o'r rhain. Darperir adroddiadau ariannol misol hefyd ynglŷn â'r gwariant o'i gymharu â'r gyllideb, y rhagolygon a'r alldro ac adolygir y rheini.

Wrth roi cymorth i'r Bwrdd ac i'r Pwyllgor Gwaith, mae'r Bwrdd Gweithrediadau a'r Tîm Gweithredol ym maes Polisi'n gyfrifol am ddarparu arweiniad ar reoli risgiau sy'n codi yn sgil datblygiadau penodol o ran gweithredu a pholisïau ac o roi cynlluniau a gweithgareddau ar waith.

Mae polisi rheoli risg Ofcom yn nodi rolau a chyfrifoldebau penodol y bwrdd o ran rheoli risg a hefyd rolau a chyfrifoldebau'r pwyllgor Archwilio, yr archwilwyr mewnol, y Pwyllgor Gwaith, y grwpiau llywio, y cyfarwyddwyr a rheolwyr prosiectau, cydweithwyr a'r swyddogaeth rheoli risg.

Mae uwch reolwyr yn gyfrifol am sicrhau bod gan gydweithwyr y sgiliau priodol i ragweld risgiau posib ac asesu hynny yng nghyd-destun cylch gorchwyl Ofcom i gefnogi diwylliant o reoli risg yn dda er mwyn gwella darparu gwasanaethau mewn modd cynaliadwy. Mae'r Grwpiau Llywio'n dal yn hanfodol er mwyn sicrhau bod y gwersi a ddysgir o ran rheoli risg yn cael eu hadlewyrchu yn nhrefn rheoli risg prosiectau Ofcom.

Mae'r polisi rheoli risg hefyd yn sôn am agwedd Ofcom at Risg, gan ddweud ei fod yn gyndyn iawn o gymryd risg mewn rhai meysydd o'i weithgareddau gweithredol craidd ond yn goddef lefel briodol o risg mewn meysydd polisi lle gallai hynny ddwyn budd i ddinasyddion ac i ddefnyddwyr.

## Y Fframwaith Risg a Rheoli

### POLISI RHEOLI RISG

Mae polisi rheoli risg Ofcom yn egluro sut mae Ofcom yn adnabod, yn cofnodi, ac yn asesu ei risgiau, a sut mae'n paratoi adroddiadau am y risgiau hynny, yn eu monitro ac yn eu hadolygu.

### RÔL Y PWYLLGOR GWAITH

Mae gan y Pwyllgor Gwaith rôl bwysig o ran rheoli proffil risg Ofcom ac o ran asesu risg Ofcom fel rhan o'r cylch adrodd misol. Mae ganddo rôl ragweithiol hefyd o ran adolygu a diweddaru'r gofrestr risg strategol bob mis.

Mae pob aelod o'r Pwyllgor Gwaith wedi ymrwymo i gynnal adolygiadau rheolaidd o'r prif feysydd risg y maent yn gyfrifol amdanynt. Bydd yr aelodau'n gweithio gyda'u timau i sicrhau bod modd i bob cydweithiwr adnabod a thynnu sylw at y risgiau sy'n berthnasol i'w meysydd gweithgarwch hwy ac i gymryd camau priodol i reoli risg. Mae aelodau'r Pwyllgor Gwaith yn gyfrifol am reoli'r risgiau yn eu meysydd ac maent yn parhau i wneud hynny mewn modd sy'n gyson ag agwedd Ofcom at risg.

Bydd aelodau'r Pwyllgor Gwaith yn llofnodi datganiad sicrwydd blynyddol er mwyn rhoi sicrwydd rhesymol ynglŷn ag effeithiolrwydd cyffredinol y system rheoli mewnol yn y meysydd y maent yn gyfrifol amdanynt. Gwneir hyn yn y mis ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol.

### FFRAMWAITH RHEOLI RISG

Dyma rai o elfennau allweddol fframwaith rheoli risg Ofcom:

- y polisi rheoli risg;
- rheolwyr gweithredol yn adolygu'r risgiau strategol bob mis ac yn perchenogi'r risgiau sy'n berthnasol i swyddogaethau, prosiectau a phrosesau a reolir ganddynt;
- sicrwydd gan swyddogaethau a phwyllgorau arbenigol bod risgiau cyfreithiol, risgiau sy'n berthnasol i ddiogelwch, i dwyll ariannol, i iechyd a diogelwch, i amrywiaeth ac i'r amgylchedd, yn cael eu rheoli'n briodol;
- grwpiau llywio'n herio o ran gwireddu prosiectau;
- adnabod a blaenoriaethu risgiau strategol Ofcom bob blwyddyn a datblygu proffil risgiau Ofcom;
- yr adolygiad risg blynyddol i ddadansoddi digonolrwydd y trefniadau rheoli risg, a hynny'n seiliedig ar Fframwaith Asesu Rheoli Risg y Llywodraeth;
- adolygiad a thrafodaethau blynyddol ar reoli mewnol gan y Bwrdd gyda Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio;
- adnewyddu yswiriant yn flynyddol ac ystyried y warchodaeth a'r trefniadau yswiriant;
- adolygiad blynyddol y Pwyllgor Archwilio o gyfrifon blynyddol Ofcom a chanlyniadau'r adolygiad risg blynyddol;
- cynnal asesiadau effaith (fel sy'n ofynnol dan Ddeddf Cyfathrebiadau 2003), sy'n cynnwys adnabod ac asesu'r risgiau sydd ynghlwm wrth y polisïau arfaethedig a gyflwynir gan Ofcom;
- adolygiad rheolaidd gan y Pwyllgor Archwilio o'r risgiau sydd i Ofcom o ran diogelwch a chamau cyfreithiol;
- darparu pecyn gwybodaeth reoli misol ar gyfer y bwrdd a'r Pwyllgor Gwaith, sy'n cynnwys y gofrestr risg strategol ac yn cymharu'r perfformiad mewn meysydd y rhoddwyd sgôr risg iddynt â'r dangosyddion;
- adroddiad gwybodaeth wythnosol i swyddfa'r Prif Weithredwr ynglŷn â'r risgiau sy'n ymwneud â chysylltiadau â rhanddeiliaid ac ag enw da Ofcom; a
- rheolaeth linell gan reolwyr gweithredol a thrwy gyfrwng cyfarfodydd tîm a chyfarfodydd un ac un rheolaidd er mwyn adnabod risgiau allweddol a'u rheoli.

### RHANDDEILIAID A PHARTNERIAID

Rheolir risgiau sy'n effeithio ar fudd i ddefnyddwyr a dinasyddion drwy gyfrwng prosesau ymgynghori Ofcom, ac fel rhan hanfodol o broses datblygu polisïau Ofcom. Mae amrywiaeth eang o becynnau a thempledi ar gael i bob cydweithiwr er mwyn eu cynorthwyo i reoli risgiau gyda rhanddeiliaid. Bydd aelodau a chydweithwyr y Pwyllgor Gwaith yn cyfarfod ac yn cysylltu'n rheolaidd â rhanddeiliaid i drafod datblygu polisïau a materion cysylltiedig sy'n ymwneud â'u rhoi ar waith ac er mwyn adnabod y risgiau posibl a fydd yn effeithio ar allu Ofcom i sicrhau budd i ddefnyddwyr ac i ddinasyddion.

Mabwysiadwyd ymagwedd newydd ganolog ym 2008/09 a chymeradwywyd Strategaeth Caffael newydd gan y Pwyllgor Gwaith. Adolygwyd a diweddarwyd telerau ac amodau'r contract safonol ar gyfer gwasanaethau a chyflenwi er mwyn sicrhau gwell eglurdeb o ran cyfrifoldebau dan gontract.

## Datganiad am Reolaeth Fewnol

Mae Ofcom wedi gweithio'n glos gyda chyflenwyr a phartneriaid er mwyn lliniaru risgiau sy'n codi yn sgil yr hinsawdd economaidd bresennol. I gynorthwyo gyda'r gwaith hwn, ceir cofrestr busnes arbennig ar gyfer y risgiau sy'n gysylltiedig â chontractau hollbwysig. Diweddarir hon a chyflwynir adroddiad yn ei chylch i'r Pwyllgor Gwaith bob mis. Er mwyn canfod arbedion effeithlonrwydd a pharhau i wella trefniadau Ofcom ar gyfer trosglwyddo risg, bydd Ofcom yn diwygio'i warchodaeth yswiriant a'i brosesau yn 2009/10.

Bydd Ofcom hefyd yn gweithio'n glos gyda'r Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau ac â Chynrychiolaeth Barhaol y DU yn yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer datblygiadau rhyngwladol ac mae'n cynrychioli'r DU ar ffora rhyngwladol perthnasol. Datblygwyd perthynas gryfach â Phwyllgor Arferion Hysbysebu'r Byd Darlledu (BCAP) er mwyn cynnal deialog adeiladol ar y lefelau priodol.

Mae Ofcom wedi meithrin cryn gysylltiad â'r llywodraeth ac â rhanddeiliaid cyrff cyhoeddus eraill, megis y Weinyddiaeth Amddiffyn, ac wedi mynychu cyfarfodydd Grŵp Gweithredu'r Strategaeth ar gyfer y Sbectrwm a chyfarfodydd Pwyllgor Strategaeth Swyddogol Cabinet y DU ar gyfer y Sbectrwm i gynnig cyngor a chymorth er mwyn rheoli'r sbectrwm yn fwy effeithlon.

### RHEOLI ARGYFWNG A DILYNIANT Y BUSNES

Mae Ofcom dal yn adolygu a gwella'i drefniadau i sicrhau ei wytnwch. Penodwyd tîm rheoli argyfwng craidd a chydlynwyr dilyniant busnes er mwyn sicrhau ymateb priodol os digwydd argyfwng. Adolygwyd y cynlluniau sydd gennym eisoes a chrëwyd cynlluniau newydd er mwyn sicrhau bod Ofcom yn barod ar gyfer amrywiaeth o argyfyngau. Yn y flwyddyn nesaf, byddwn yn cwblhau'n rhaglen i roi'n trefniadau rheoli argyfwng a dilyniant busnes ar brawf ac rydym yn dal i adolygu a diweddaru'n cynlluniau. Cwblheir archwiliad o'r trefniadau er mwyn sicrhau bod arferion sy'n ymwneud â dilyniant y busnes a'n hymateb a'n llywodraethu wrth reoli argyfwng yn briodol.

Cynhaliwyd prawf byw ar gadernid ymateb rheoli argyfwng Ofcom yn ystod 2008/09. Ymgorfforwyd y gwersi a ddysgwyd yn y cynllun ac arweiniodd hynny at benodi Cydlynydd Argyfwng fel rhan o'r tîm ymateb rheoli argyfwng craidd. Sefydlwyd Grŵp o Arbenigwyr Rheoli Argyfwng, sy'n cyfarfod bob mis, i sbarduno'r agenda gwytnwch, i gynllunio ymarferion profi, i roi cyngor arbenigol a chyfrannu at ymatebion. Cynhelir mwy o brofion yn 2009/10.

Wrth brofi ein systemau gwybodaeth er mwyn gweld sut y byddent yn gwrthsefyll argyfwng, gwelwyd ymateb un o'n darparwyr allanol yn ddiffygiol. Cynhaliwyd adolygiad annibynnol er mwyn sicrhau bod cynigion i fynd i'r afael â'r gwendidau'n gadarn a'u bod yn cynnwys y gwersi a ddysgwyd. Rhoddir mwy o drefniadau sicrwydd ansawdd ar waith ym maes cynlluniau i newid y drefn cynhyrchu ac i ddychwelyd y cyfrifoldebau masnachol dros y ddarpariaeth adfer ar ôl argyfwng i ddarparwr y gwasanaeth.

### IECHYD A DIOGELWCH

Cyfarfu'r Pwyllgor Iechyd a Diogelwch (IaD) a'r Is-bwyllgor IaD ar gyfer Gwaith maes ill dau bedair gwaith yn ystod y flwyddyn. Mae'r Pwyllgor IaD yn adrodd i'r Bwrdd Gweithrediadau. Diweddarwyd y Llawlyfr Gwaith Maes er mwyn sicrhau bod yr arweiniad yn rhoi sylw i risgiau iechyd a diogelwch newydd a wynebir gan ein cydweithwyr gwaith maes a gorfodi wrth iddynt wneud eu gwaith. Parhawyd i ddarparu hyfforddiant IaD a manteisiodd 95 y cant ar ein modiwl e-ddysgu ar gyfer IaD.

Adolygir a diweddarir y Polisi IaD yn 2009/10 er mwyn sicrhau ei fod yn gyson â'r arferion gorau, ag anghenion penodol a lleol ac ag amgylcheddau gweithio sy'n newid. Cynhelir hyfforddiant rheoli iechyd a lles ac asesiadau hefyd i gryfhau gwytnwch cydweithwyr ac er mwyn sicrhau bod gan reolwyr y cymhwysedd a'r offer priodol i asesu iechyd cydweithwyr.

### DIOGELWCH

Dechreuodd y Pwyllgor Diogelwch gyfarfod bob mis yn hytrach nag yn chwarterol, er mwyn sicrhau bod trefniadau Diogelwch Ofcom yn cael eu hystyried yn briodol. Bydd y Pwyllgor yn adrodd i'r Pwyllgor Archwilio bob chwarter, drwy gyfrwng Ysgrifennydd y Gorfforaeth.

Diwygiwyd y Polisi Diogelwch er mwyn cyfuno'r elfennau unigol yn un polisi ac er mwyn iddo fod yn gyson â'r arferion gorau o ran diogelwch ffisegol, adeiladau, dogfennau a data yn ogystal ag o ran defnyddio'r rhyngrwyd. Tynhawyd y rheolaeth ar ddiogelwch dogfennau a data a defnyddio'r rhyngrwyd, gan gynnwys diogelwch ein rhaglenni cyllid.

Darparwyd hyfforddiant diogelu data mewn meysydd busnes allweddol a chynhaliwyd sesiynau ymwybyddiaeth ledled Ofcom. Rhoddwyd protocolau dileu ac amgryptio data ar waith hefyd a datblygwyd modiwl e-ddysgu newydd ar ddiogelu data, a fydd yn orfodol i bob cydweithiwr.

#### RHEOLAETH ARIANNOL

Cynhaliwyd ac adolygwyd y trefniadau rheoli ariannol a diwygiwyd nifer ohonynt yn ystod 2008/09. Mae'r maes Ariannol yn dal i ddarparu cyfrifon rheoli misol, ac mae'r rheini'n cael eu hadolygu gan ddeiliaid cyllidebau, gan y Pwyllgor Gwaith a chan y Bwrdd bob mis er mwyn canfod unrhyw amrywiant yn y gwariant y cyllidebwyd ar ei gyfer a'r gwir wariant. Yna, bydd y rhain yn sail ar gyfer llunio ailragolygon gwariant ac allbwn bob chwarter.

Er mwyn i ddeiliaid cyllidebau gael darlun eglurach o'r arian a ddirprwyir iddynt, diwygiodd Ofcom ei Fframwaith Awdurdodi Ariannol, yn ogystal â'r Polisi Treuliau, a Pholisi'r Trysordy a'i Weithdrefnau Rheoli Arian.

Yn ystod y flwyddyn, datblygodd Ofcom brosesau ariannol ar gyfer prosiect Gemau Olympaidd a Pharalympaidd Llundain 2012 ac er mwyn paratoi ar gyfer y posibilrwydd o integreiddio Postcomm, a rhoddwyd y prosesau hynny ar waith. Rhoddodd Ofcom drefn adroddiadau ar waith hefyd ar gyfer treuliau gweithwyr a chardiau corfforaethol, proses i bobl oedd yn dechrau o'r newydd ac yn gadael, a rhaglen a phecyn cynefino ar ffurf modiwlau e-ddysgu sy'n orfodol i bob cydweithiwr. Cychwynnwyd ar brosiect penodol i symud trefniadau contractaidd i un darparwr cyflogres a buddiannau er mwyn i'r drefn fod yn fwy effeithlon ac er mwyn gwella'r trefniadau rheoli.

Cynhaliwyd archwiliadau annibynnol ar ein prosesau ariannol a phennu tariffiau craidd, ar berfformiad a threfniadau codi tâl y darparwr allanol sy'n darparu gwasanaethau gwybodaeth ar ein cyfer, ar y trefniadau ar gyfer rheoli'r gyllideb a pharatoi adroddiadau rheoli, ar drefniadau yswiriant ac ar brosesau Adnoddau'r Gweithlu.

Mae Ofcom wedi parhau i atgyfnerthu ei systemau a'i brosesau busnes drwy eu dwyn ynghyd dan ei brosiect Uno. Fel rhan o Uno, rhoddwyd system trwyddedu rheoli newydd ar waith ar gyfer y sbectrwm. Bellach, mae gan Ofcom lwyfan gadarn a hyblyg er mwyn gweinyddu a chefnogi trwyddedau'n well. Mae cwsmeriaid yn elwa o broses trwyddedu sy'n symlach o lawer, gwybodaeth sy'n haws cael gafael arni ac mewn rhai achosion, ffioedd is.

#### TWYLL ARIANNOL

Mae gan y Prif Swyddog Gweithredol ac Ysgrifennydd y Gorfforaeth rôl yng nghyswllt y polisi datgelu dan warchodaeth (chwythu chwiban).

Ni chafwyd adroddiad am unrhyw weithgaredd twyllodrus yn ystod y flwyddyn.

## Adolygu Effeithiolrwydd

Gan mai fi yw'r Swyddog Atebol, yr wyf yn gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y system rheoli mewnol. Yr wyf yn seilio fy adolygiad ar waith yr archwiliad mewnol ac uwch reolwyr sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheoli mewnol, ac ar sylwadau a wnaeth yr archwilwyr allanol yn eu llythyr rheoli ac mewn adroddiadau eraill.

Yr wyf hefyd wedi fy nghynghori ynglŷn â goblygiadau canlyniadau effeithiolrwydd y system rheoli mewnol drwy gyfrwng yr adolygiad risg blynyddol a gwaith y Pwyllgor Archwilio. Mae cynllun ar y gweill i wella fframwaith rheoli risg Ofcom eto ac i sicrhau bod y system rheoli mewnol yn gwella'n barhaus.

#### Y BWRDD

Y Bwrdd sy'n gyffredinol gyfrifol am fonitro effeithiolrwydd system rheoli mewnol Ofcom a bydd yn cael adroddiadau rheolaidd gan y Pwyllgor Archwilio.

#### PWYLLGOR ARCHWILIO

Rôl y Pwyllgor Archwilio yw cynghori'r Bwrdd ynglŷn â pha mor ddigonol yw polisïau a phrosesau rheoli risg Ofcom, i ba raddau y cânt eu rhoi ar waith, ac adolygu pa mor ddibynadwy a dilys yw'r sicrwydd a roddir. Mae'n gwneud hyn drwy gyfrwng y sicrwydd a geir yn sgil gwaith archwilwyr allanol a mewnol, datganiadau sicrwydd blynyddol gan aelodau'r Pwyllgor Gwaith, canlyniad yr adolygiad risg blynyddol ac yn sgil adroddiadau rheolaidd a roddir i'r Pwyllgor Archwilio ynglŷn â risgiau sy'n ymwneud ag achosion cyfreithiol, cyllid, diogelwch a thwyll. Cyfarfu'r Pwyllgor Archwilio bedair gwaith yn ystod y flwyddyn.

Mae'r Pwyllgor Archwilio wedi'i gyfansoddi'n unol ag arweiniad y Trysorlys, gydag aelodau Anweithredol ar y Bwrdd a Chadeirydd Anweithredol annibynnol a chanddo lwybr uniongyrchol at Gadeirydd y Bwrdd. Er nad wyf yn aelod o'r Pwyllgor Archwilio, byddaf yn mynd i'r rhan fwyaf o'i gyfarfodydd, ac, yn yr un modd,

## Datganiad am Reolaeth Fewnol

bydd ein harchwilwyr mewnol ac allanol yn mynd i'r cyfarfodydd hefyd, ac mae ganddynt lwybr uniongyrchol at Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio.

Adolygwyd cylch gorchwyl y Pwyllgor Archwilio yn ystod y flwyddyn er mwyn sicrhau ei fod yn adlewyrchu datblygiadau o ran arferion gorau i Bwyllgorau Archwilio ac yn dal i ddilyn arweiniad y Llywodraeth.

### ARCHWILIAD MEWNOL

Defnyddir KPMG i wneud yr archwilio mewnol ac mae'n gwneud ei waith yn unol â'r Cynllun Archwilio Mewnol a gymeradwyir gan y Pwyllgor Archwilio. Bydd yr Archwilwyr Mewnol yn mynd i gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio ac yn rhoi adroddiadau rheolaidd i'r Pwyllgor hwnnw.

Wrth adolygu systemau Ofcom yn unol â'r cynllun archwilio, mae'r Archwilwyr Mewnol wedi rhoi sicrwydd rhesymol ond nid absoliwt eu bod yn fodlon bod digon o waith archwilio mewnol wedi'i wneud iddynt allu ffurfio barn bod trefniadau rheoli risg Ofcom yn ddigonol ac yn effeithiol, a bod ganddo brosesau rheoli a llywodraethu digonol i reoli cyflawni ei amcanion. Ni nodwyd dim gwendidau mawr, er bod y gwaith Archwilio Mewnol wedi nodi nifer o gyfleoedd i wella'r trefniadau rheoli a'r gweithdrefnau ac mae Ofcom wedi ymateb yn gadarnhaol i'r rheini.

### ADOLYGIAD RISG BLYNYDDOL

Mae'r adolygiad risg blynyddol yn cynnig cyfle i adolygu pa mor ddigonol ac effeithiol yw trefniadau rheoli risg Ofcom ac i ganfod meysydd i'w gwella. Cadarnhaodd canfyddiadau'r adolygiad fod Ofcom yn dal i wneud camau breision o ran sicrhau bod rheoli risg yn bwrw gwreiddiau yn ei systemau a'i brosesau ac nad oes dim gwendidau o bwys yn y fframwaith rheoli risg. Rhoddwyd argymhellion sy'n canolbwyntio ar sut y gall Ofcom sicrhau bod ymagwedd fwy cadarn, cyson ac integredig at reoli risg yn bwrw gwreiddiau dyfnach drwy ddefnyddio dull cam wrth gam.

### MATERION O BWYS O RAN TREFNIADAU RHEOLI

Nid oedd dim materion rheoli mewnol o bwys wedi codi yn ystod y flwyddyn.

**Ed Richards** Prif Weithredwr

**23 Mehefin 2009**

# Adroddiad Taliadau

Wrth baratoi'r Adroddiad Taliadau a sefydlu'i bolisi, mae'r Bwrdd wedi ystyried darpariaethau'r Côd Cyfun ac yn mabwysiadu'r darpariaethau, lle bo hynny'n briodol ac yn berthnasol. Does dim rhaid i Ofcom gydymffurfio â Rheoliadau Adroddiadau Taliadau Cyfarwyddwyr 2002, ond mae wedi paratoi'r adroddiad hwn i gydymffurfio cyn belled â bod hynny'n ymarferol ac yn briodol.

## Cyfansoddiad Y Pwyllgor Taliadau

Mae cyfansoddiad y Pwyllgor Taliadau i'w weld ar dudalen 65.

## Cynghorwyr

Mae'r Pwyllgor Taliadau'n derbyn cyngor a/neu'n cael gwasanaethau oddi wrth yr endidau allanol canlynol:

- Towers Perrin, ar dâl gweithredwyr; ac
- Allen & Overy LLP, ar gontractau cyflogaeth a materion cyfreithiol cysylltiedig.

Mae Towers Perrin hefyd yn darparu cyngor a gwasanaethau i Ofcom mewn perthynas â phensiynau, ymddiriedolwyr pensiwn a chymorth gweinyddol a materion sefydliadol eraill. Mae'r Pwyllgor hefyd yn derbyn cyngor gan Gyfarwyddwr AD Ofcom. Fel arfer mae'r Pwyllgor Taliadau'n gwahodd y Prif Weithredwr a'r Prif Swyddog Gweithredu i fynychu cyfarfodydd y Pwyllgor. Ni fydd unrhyw unigolyn yn bresennol ar gyfer unrhyw drafodaeth am ei dâl ei hun.

## Polisi Cyffredinol

Wrth bennu polisi tâl Ofcom, cred y Pwyllgor Taliadau y dylai Ofcom, o fewn y cyfyngiadau sydd ar gorfforaeth gyhoeddus, gynnig gwobrau a fydd yn denu ac yn cadw'r rheolwyr o'r safon uchaf y mae'n rhaid eu cael i alluogi Ofcom i gyflawni ei gyfrifoldebau a'i gylch gwaith statudol. Ni ddisgwylir newid yn y cyfeiriad polisi cyffredinol dros y flwyddyn i ddod.

## Elfennau Taliadau

Dyma brif elfennau taliadau'r Aelodau Gweithredol:

### CYFLOG A BUDDION HYBLYG

Pennir cyflog sylfaenol pob Aelod Gweithredol ac uwch reolwr drwy ystyried cyfrifoldebau, perfformiad a phrofiad pob cydweithiwr ynghyd â thueddiadau'r farchnad. Hefyd, darperir lwfans buddion hyblyg i bob Aelod Gweithredol ac uwch reolwr.

Mae cyflog sylfaenol pob cydweithiwr yn cael ei adolygu'n flynyddol ar 1 Gorffennaf bob blwyddyn. Yn dilyn yr adolygiad yn 2009, penderfynwyd peidio â chynnig codiad cyflog i unrhyw gydweithiwr. Yn ogystal, penderfynodd Ofcom beidio â derbyn unrhyw gynnydd yn y ffioedd i'r Aelodau anweithredol neu ddyfarnu unrhyw gynnydd yn y ffioedd i aelodau'r Bwrdd Cynnwys, Y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau a'r Pwyllgorau Ymgynghorol.

## Adroddiad Taliadau

### BUDDION O FATH ARALL

Mae pob Aelod Gweithredol ac uwch reolwr yn derbyn rhai buddion safonol a ddisgrifir yn ddiweddarach yn yr adran hon.

### BONWS BLYNYDDOL

Mae pob Aelod Gweithredol ac uwch reolwyr yn cymryd rhan mewn cynllun bonws, a gaiff ei gyfrifo fel canran o'r cyflog ar sail perfformiad yr unigolyn, hyd at uchafswm o 20 y cant o'r cyflog, ar gyfer aelodau'r Pwyllgor Gweithredol, yn dibynnu ar yr unigolyn dan sylw. Nid yw unrhyw elfen o'r bonws yn bensiynadwy.

Mae pob Aelod Gweithredol a'r uwch reolwyr eraill ar y Pwyllgor Gweithredol wedi ildio'u hawl i gymryd rhan yn y cynllun bonws am y cyfnod adolygu perfformiad 1 Ebrill 2008 i 31 Mawrth 2009.

### TREFNIADAU PENSIWN

#### Rheolwyr Gweithredol

Mae pob Aelod Gweithredol ac uwch reolwr (ac eithrio Chris Banatvala fel y nodir isod) yn cael lwfans, a bennir fel canran o'r cyflog sylfaenol, y gall yr unigolyn ei gymryd fel cyflog ychwanegol neu ei fuddsoddi mewn cynllun pensiwn o'u dewis.

Mae Chris Banatvala yn gymwys i gymryd rhan yng nghynllun Pensiwn â Buddion Diffiniedig Ofcom ar delerau tebyg a oedd yn berthnasol pan oedd wedi'i gyflogi'n flaenorol gan yr ITC. Mae hyn yn darparu buddion pensiwn sy'n gysylltiedig â chyflog ar sail buddion diffiniedig , gyda chyfradd gronni o 1 rhan o 60 o'r cyflog terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth, yn amodol ar Derfyn Enillion Cynllun Ofcom lle bo hynny'n briodol.

#### Aelodau Anweithredol

Ni dderbyniodd yr un Aelod Anweithredol fudd pensiwn gan Ofcom yn ystod y flwyddyn dan sylw.

Mae manylion y taliadau i'r Bwrdd, y Bwrdd Cynnwys a'r Pwyllgor Gweithredol, sydd wedi'u harchwilio gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, ar gael yn y tablau a'r nodiadau ar dudalennau 78 i 81.

## ARWEINIAD I'R RHESTRAU TALIADAU

Mae'r rhestrau hyn yn cyfeirio at y taliadau yn ystod y flwyddyn ariannol. Mae'r rhestr yn adlewyrchu'r taliadau am y rhan honno o'r flwyddyn pan oedd yr unigolion un ai'n darparu gwasanaethau i'r Bwrdd, y Bwrdd Cynnwys neu'r Pwyllgor Gweithredol neu'n Aelodau Gweithredol ohonynt. Roedd yr unigolion â'r nodyn '+' wrth eu henwau yn y rhestrau dim ond yn eu rolau am ran o 2007/8 neu 2008/9. Os yw'r unigolion yn aelodau o fwy nag un Bwrdd/Pwyllgor (fel y nodir ar dudalennau 60 i 66) dim ond unwaith y bydd eu henwau yn ymddangos yn y rhestrau taliadau a rhestrir yr holl Aelodau Gweithredol dan y Pwyllgor Gweithredol. Mae'r pwyntiau wedi'u rhifo sydd wrth enwau unigolion yn cyfeirio at y pwyntiau wedi'u rhifo ar dudalennau 80 ac 81.

### Taliadau Bwrdd Ofcom 2008/9

| Enw | Rôl | Nodyn Cyfarwyddyd | Cyflog 08/09 £ | Lwfans/ Hawl Pensiwn 08/09 £ | Lwfans Buddion Hyblyg 08/09 £ | Buddion o Fath Arall 08/09 £ | Bonws 08/09 £ | Cyfanswm Tâl 08/09 £ | Cyfanswm Tâl 07/08 £ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Millie Banerjee CBE | Aelod Anweithredol | (7,9,11) | 64,357 | | | 672 | | 65,029 | 58,446 |
| Colette Bowe + | Cadeirydd | (1,7,11,16) | 49,585 | | | | | 49,585 | 10,320 |
| David Currie | Cadeirydd | (2,7,11) | 211,801 | | | 672 | | 212,473 | 206,134 |
| Tim Gardam + | Aelod Anweithredol | (7,11,16) | 42,519 | | | | | 42,519 | 10,320 |
| Philip Graf CBE | Dirprwy Gadeirydd | (7,11) | 106,298 | | | 672 | | 106,970 | 103,874 |
| Stephanie Liston + | Aelod Anweithredol | (4,7,11) | 17,200 | | | 280 | | 17,480 | 41,953 |
| Mike McTighe + | Aelod Anweithredol | (7,11, 16) | 42,519 | | | 672 | | 43,191 | 24,417 |
| **Cyfanswm** | | | **534,279** | | | **2,968** | | **537,247** | **455,464** |

Fel canlyniad i'r nifer o newidiadau i Fwrdd Ofcom yn 2007/8 a 2008/9 mae ffigur blynyddol wedi ei gyflwyno er mwyn darparu cymhariaeth gliriach o'r holl gostau.

Holl gostau blynyddol 2007/8 £534,920

Holl gostau blynyddol 2008/9 £561,719

## Adroddiad Taliadau

### Taliadau Bwrdd Cynnwys Ofcom 2008/9

| Enw | Rôl | Nodyn Cyfar-wyddyd | Cyflog 08/09 £ | Lwfans/ Hawl Pensiwn 08/09 £ | Lwfans Buddion Hyblyg 08/09 £ | Buddion o Fath Arall 08/09 £ | Bonws 08/09 £ | Cyfanswm Tâl 08/09 £ | Cyfanswm Tâl 07/08 £ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Richard Ayre | Aelod y Bwrdd Cynnwys | (10-11) | 21,649 | | | 300 | | 21,949 | 26,248 |
| Chris Banatvala | Cyfarwyddwr Safonau | (12-15) | 120,175 | 25,722 | 15,000 | 1,441 | | 162,338 | 174,968 |
| Sue Balsom | Aelod y Bwrdd Cynnwys | (10-11) | 21,649 | | | 672 | | 22,321 | 21,690 |
| Pam Giddy | Aelod y Bwrdd Cynnwys | (10-11) | 21,649 | | | 672 | | 22,321 | 21,690 |
| Anthony Lilley | Aelod y Bwrdd Cynnwys | (10-11) | 21,649 | | | 672 | | 22,321 | 21,690 |
| Dr Paul Moore | Aelod y Bwrdd Cynnwys | (10-11) | 21,649 | | | 672 | | 22,321 | 21,690 |
| Adam Singer | Dirprwy Gadeirydd | (10-11) | 28,865 | | | 672 | | 29,537 | 28,696 |
| Joyce Taylor | Aelod y Bwrdd Cynnwys | (9-11) | 24,649 | | | 672 | | 25,321 | 21,634 |
| Kath Worrall | Aelod y Bwrdd Cynnwys | (10-11) | 28,865 | | | 341 | | 29,206 | 28,396 |
| **Cyfanswm** | | | **310,799** | **25,722** | **15,000** | **6,114** | | **357,635** | **366,702** |

Bu phob aelod wasanaethu am flwyddyn gyfan ar gyfer 2007/8 a 2008/9.

### Taliadau Pwyllgor Gweithredol Ofcom 2008/9

| Enw | Rôl | Nodyn Cyfar-wyddyd | Cyflog 08/09 £ | Lwfans/ Hawl Pensiwn 08/09 £ | Lwfans Buddion Hyblyg 08/09 £ | Buddion o Fath Arall 08/09 £ | Bonws 08/09 £ | Cyfanswm Tâl 08/09 £ | Cyfanswm Tâl 07/08 £ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Jill Ainscough + | Prif Swyddog Gweithredu | (12-14, 16) | 187,000 | 28,050 | 15,000 | 1,742 | | 231,792 | 161,230 |
| Ian Hargreaves + | Partner, Rhyngwladol, Gwledydd a Rhanbarthau | (3,12-14) | 36,923 | 5,538 | 2,462 | 528 | | 45,451 | 247,896 |
| Stuart McIntosh + | Partner, Cystadleuaeth | (5,12-14,16) | 229,500 | 34,425 | 15,000 | 1,742 | | 280,667 | 50,127 |
| Peter Phillips | Partner, Strategaeth a Datblygiadau Marchnad | (5,12-14) | 189,630 | 28,445 | 20,000 | 2,414 | | 240,489 | 266,006 |
| Stewart Purvis + | Partner, Cynnwys a Safonau | (8,12-14,16) | 162,465 | 24,370 | 13,000 | 2,414 | | 202,249 | 60,271 |
| Ed Richards | Prif Weithredwr | (12-14) | 310,336 | 59,220 | 19,953 | 2,547 | | 392,056 | 417,581 |
| Philip Rutnam+ | Partner, Polisi Sbectrwm | (6,12-14) | 185,177 | 27,777 | 14,615 | 1,742 | | 229,311 | 260,753 |
| **Cyfanswm** | | | **1,301,031** | **207,825** | **100,030** | **13,129** | | **1,622,015** | **1,463,864** |

Fel canlyniad i'r nifer o newidiadau i Fwrdd Ofcom yn 2007/8 a 2008/9 mae ffigur blynyddol wedi ei gyflwyno er mwyn darparu cymhariaeth gliriach o'r holl gostau.

Holl gostau blynyddol 2007/8 £1928,046

Holl gostau blynyddol 2008/9 £1835,246

# Nodiadau i'r tablau taliadau

1. Penodwyd Colette Bowe yn Gadeirydd Ofcom i gychwyn ar 12 Mawrth 2009.
2. Ymddeolodd David Currie fel Cadeirydd Ofcom ar 11 Mawrth 2009 ac ymddiswyddodd o'r Bwrdd ar 31 Mawrth 2009.
3. Ymddiswyddodd Ian Hargreaves o Fwrdd Ofcom ar 31 Mai 2008 ac o'r Pwyllgor Gweithredol ar 13 Mehefin 2008. Mae'r tâl a ddangosir yn un ar gyfer y rhan o'r flwyddyn pan oedd Ian Hargreaves yn Aelod o Fwrdd Ofcom a'r Pwyllgor Gweithredol.
4. Ymddiswyddodd Stephanie Liston o Fwrdd Ofcom ar 31 Mawrth 2008. Mae gan Stephanie Liston gyfamodau cyfyngu yn ei chytundeb ag Ofcom sy'n ei rhwystro rhag derbyn rhai mathau o gyflogaeth â thâl neu rhag darparu rhai mathau o wasanaethau i drydydd partïon am gyfnod o chwe mis wedi iddi ymddiswyddo o'i rôl gydag Ofcom. Felly fe barhaodd Ofcom i dalu ei ffioedd i Stephanie Liston tan 31 Awst 2008 yn gydnabyddiaeth am orfodi cyfamodau cyfyngu o'r fath.
5. Penodwyd Stuart McIntosh a Peter Phillips yn Aelodau Gweithredol o Fwrdd Ofcom ar 1 Gorffennaf 2008.
6. Ymddiswyddodd Philip Rutnam o Fwrdd a Phwyllgor Gweithredol Ofcom ar 20 Mawrth 2009. Mae'r tâl a ddangosir yn un ar gyfer y rhan o'r flwyddyn pan oedd Philip Rutnam yn Aelod o Fwrdd Ofcom a'r Pwyllgor Gweithredol.
7. Mae'r ffioedd ar gyfer holl Aelodau Anweithredol Bwrdd Ofcom yn cael eu pennu drwy gytundeb â BIS (BERR gynt) a'r DCMS am gyfnod llawn eu penodiad. Mae'r ffioedd a ddangosir am flwyddyn gyfan neu, lle bo'n briodol, am ran o'r flwyddyn os ymunodd yr Aelod Anweithredol perthnasol â Bwrdd Ofcom neu ymddeol ohono, yn ystod y cyfnod dan sylw. Mae ffioedd yr Aelodau Anweithredol yn gysylltiedig ag argymhellion y Corff Adolygu Cyflogau Uwch-swyddogion ar gyfer cyflogau'r uwch Wasanaeth Sifil ac, o ganlyniad i gysylltiad o'r fath, cafodd y ffioedd eu cynyddu 3 y cant o 1 Ebrill 2008. Y ffi sylfaenol i Aelodau Anweithredol Bwrdd Ofcom (ac eithrio'r Cadeirydd, yr Is-gadeirydd a Millie Banerjee) oedd £42,519 y flwyddyn o 1 Ebrill 2008. Ni chafodd ffi sylfaenol Bwrdd Ofcom gan gynnwys y ffi i'r Cadeirydd, yr Is-gadeirydd a Mille Banerjee ei chynyddu o 1 Ebrill 2009. Telir ffi ychwanegol o £5,000 y flwyddyn i Aelodau Anweithredol sy'n cadeirio un o Bwyllgorau'r Bwrdd.
8. Cyflogwyd Stewart Purvis gan Ofcom ar sail rhan amser tan 1 Rhagfyr 2008 ac ar sail amser llawn wedi hynny. Mae ei dâl a ddangosir am y cyfnod dan sylw yn cynrychioli'r union swm a dalwyd iddo ac nid cyflog cyfwerth ag amser llawn.
9. Yn ystod y cyfnod dan sylw, gwnaeth Joyce Taylor waith ychwanegol i Ofcom ar ben ei dyletswyddau fel aelod o'r Bwrdd Cynnwys a derbyniodd £3,000 yn ychwanegol. Gwnaeth Millie Banerjee gwaith ychwanegol ar ran Ofcom ar ben ei dyletswyddau fel aelod o Fwrdd Ofcom i a derbyniodd £5,000 yn ychwanegol.

## Nodiadau i'r tablau taliadau

**10.** Pennir ffioedd Aelodau Anweithredol y Bwrdd Cynnwys gan Fwrdd Ofcom. Mae'r ffioedd a ddangosir am flwyddyn gyfan neu, lle bo'n briodol, am ran o flwyddyn os ymunodd yr Aelod Anweithredol perthnasol â'r Bwrdd Cynnwys neu ymddeol ohono, yn ystod y cyfnod dan sylw. Fel gyda ffioedd aelodau Bwrdd Ofcom, mae ffioedd Aelodau'r Bwrdd Cynnwys wedi'u cysylltu ag argymhellion y Corff Adolygu Cyflogau Uwch-swyddogion ar gyfer cyflogau'r uwch Wasanaeth Sifil ac, o ganlyniad i gysylltiad o'r fath, cafodd y ffioedd eu cynyddu 3 y cant o 1 Ebrill 2008. Y ffi sylfaenol i Aelodau'r Bwrdd Cynnwys (heblaw am Adam Singer a Kath Worrall, sy'n cael ffioedd uwch am eu rolau ychwanegol fel Dirprwy Gadeirydd a Chadeirydd y Pwyllgor Tegwch) oedd £21,649 y flwyddyn o 1 Ebrill 2008. Ni chafodd ffioedd sylfaenol aelodau'r Bwrdd Cynnwys, gan gynnwys Adam Singer a Kath Worrall, eu cynyddu o 1 Ebrill 2009.

**11.** Ni dderbyniodd Aelodau Anweithredol Bwrdd Ofcom nac Aelodau'r Bwrdd Cynnwys (heblaw am Joyce Taylor a Millie Banerjee fel y nodwyd yn Nodyn 9) daliadau ychwanegol gan Ofcom ar ben eu ffioedd heblaw am yr hawl i gael rhai buddion safonol, sef pecyn digidol i'w ddefnyddio gartref ac ar gyfer busnes, ac, i Aelodau Anweithredol Bwrdd Ofcom yn unig, offer TG ar gyfer gweithio gartref. Nid oedd holl Aelodau Anweithredol Bwrdd Ofcom neu Aelodau'r Bwrdd Cynnwys wedi arfer yr hawl hwn yn ystod y cyfnod dan sylw.

**12.** Mae'r taliadau blynyddol i swyddogion gweithredol Ofcom (Aelodau Gweithredol Bwrdd Ofcom, Aelodau Gweithredol y Bwrdd Cynnwys ac uwch reolwyr ar y Pwyllgor Gweithredol) yn cynnwys cyflog sylfaenol ynghyd â lwfans arian ar gyfer buddion hyblyg a chanran o'r cyflog sylfaenol a delir fel lwfans pensiwn (heblaw am Chris Banatvala).

**13.** Mae holl Aelodau Gweithredol Ofcom ar Fwrdd Ofcom neu uwch reolwyr yn gallu manteisio ar yswiriant bywyd, diogelwch incwm grŵp, pecyn digidol i'w ddefnyddio gartref ac ar gyfer busnes, a'r gallu i gael archwiliad iechyd blynyddol. Nid yw gwerth diogelwch incwm grŵp, yswiriant bywyd ac archwiliadau iechyd blynyddol wedi cael ei ddatgelu yn y rhestrau taliadau gan nad yw Cyllid a Thollau EM yn eu trin fel enillion trethadwy.

**14.** Mae aelodau'r Pwyllgor Gweithredol yn cymryd rhan mewn cynllun bonws, sy'n cael ei dalu ar sail perfformiad yr unigolyn. Mae'r holl daliadau'n cael eu cymeradwyo gan Bwyllgor Taliadau Ofcom ac fe'u cyfrifir fel canran o'r cyflog sylfaenol yn amrywio o 0 i 20 y cant.

**15.** Mae Chris Banatvala yn aelod o Gynllun Pensiwn â Buddion Diffiniedig Ofcom. Mae datgeliad ar wahân yng nghyswllt y cynllun hwn wedi'i wneud yn y tabl ar dudalen 82.

**16.** I ddibenion cymharu, dim ond am ran o 2007/08 yr oedd yr aelodau canlynol mewn swydd: penodwyd Mike McTighe yn Aelod Anweithredol o Fwrdd Ofcom ar 1 Medi 2007; penodwyd Tim Gardam yn Aelod Anweithredol o Fwrdd Ofcom ar 1 Ionawr 2008; penodwyd Jill Ainscough yn Brif Swyddog Gweithredu ar 7 Awst 2007; penodwyd Stuart McIntosh yn Bartner Cystadleuaeth ar 28 Ionawr 2008; penodwyd Colette Bowe yn Aelod Anweithredol o Fwrdd Ofcom ar 1 Ionawr 2008; penodwyd Stewart Purvis yn Bartner Cynnwys a Safonau ac yn Aelod Gweithredol o'r Bwrdd Cynnwys ar 3 Rhagfyr 2007.

Nodiadau i’r tablau taliadau

## Datgeliad Gweithredol ar Gyfer Pensiynau â Buddion Diffiniedig

Dangosir datgeliad ar gyfer pensiwn â buddion diffiniedig i Chris Banatvala yn y tabl isod.

Mae’r gwerth trosglwyddo a’r pensiwn sydd wedi cronni ar gyfer Chris Banatvala yn adlewyrchu’r pensiwn ychwanegol sy’n codi yn sgil trosglwyddo ei fuddion i mewn oddi wrth ei gyflogwr blaenorol.

Mae gwerth trosglwyddo’r croniadau pensiwn yn cynrychioli’r amcangyfrif o’r gost i’r cynllun pensiwn am ddarparu’r buddion pensiwn a gronnwyd hyd yn hyn (wedi’u cyfrifo’n unol â Nodyn Canllaw Actiwaraidd GN11). Mae nifer o ffactorau’n effeithio ar y gwerth, sy’n cynnwys oedran yr unigolyn, cyflog pensiynadwy ac amodau’r farchnad fuddsoddiadau adeg gwneud y cyfrifiad.

## Cytundebau Gwasanaeth

Nid oes gan yr un Aelod Gweithredol o Fwrdd Ofcom na chydweithiwr arall yn Ofcom gytundeb gwasanaeth sy’n cynnwys cyfnod rhybudd o fwy na blwyddyn. Mae’r Pwyllgor Taliadau wedi ystyried y cyfnod rhybudd a’r trefniadau terfynu yng ngoleuni’r Côd Cyfun ac mae o’r farn eu bod yn briodol.

Mae’r Aelodau Anweithredol i gyd wedi’u penodi am dymor penodol i neilltuo amser penodol i Ofcom o hyd at ddau ddiwrnod yr wythnos (heblaw am Colette Bowe a Philip Graf sydd ar hyn o bryd yn neilltuo tri diwrnod yr wythnos a Millie Banerjee sy’n neilltuo dau ddiwrnod a hanner).

### IAWNDAL AM DERFYNU’N GYNNAR

Y Pwyllgor Taliadau sy’n penderfynu ar y trefniadau ar gyfer terfynu contract gwasanaeth yn gynnar yn achos Aelod Gweithredol o Fwrdd Ofcom neu uwch reolwr ac fe’u gwneir yn unol â chontract gwasanaeth y Cyfarwyddwr Gweithredol neu’r uwch reolwr perthnasol. Mae pob contract gwasanaeth yn darparu ar gyfer taliad yn lle rhybudd os terfynir contract yn gynnar fel y gwêl Ofcom yn dda.

Nid oes gan Aelodau Anweithredol hawl i iawndal os terfynir contract yn gynnar.

### CYFARWYDDIAETHAU ALLANOL

Ni chaiff unrhyw Aelod Gweithredol o Fwrdd Ofcom dderbyn penodiad anweithredol heb gael caniatâd ymlaen llaw gan y Bwrdd i sicrhau na fydd hyn yn achosi gwrthdaro rhwng buddiannau.

Rhaid hysbysu Bwrdd Ofcom am bob penodiad a dderbynnir gan Aelodau Anweithredol o’r Bwrdd i sicrhau na cheir gwrthdaro rhwng buddiannau; os credir bod gwrthdaro o’r fath yn codi, bydd yn rhaid i’r Aelod Anweithredol ymddiswyddo o’r swydd dan sylw.

**Ar ran Ofcom,**

**Millie Banerjee** Cadeirydd y Pwyllgor Taliadau

**23 Mehefin 2009**

**Datgeliad Gweithredol ar gyfer Pensiynau â Buddion Diffiniedig**

| Enw | Pensiwn Cronedig ar 31 Mawrth 2009 £ | Cynnydd yn y pensiwn cronedig dros y cyfnod £ | Gwerth trosglwyddo’r pensiwn cronedig ar 31 Mawrth 2009 (sail trosglwyddo 2009) £ | Gwerth trosglwyddo’r pensiwn cronedig ar 31 Mawrth 2009 (sail trosglwyddo 2008) £ | Gwerth trosglwyddo’r pensiwn cronedig ar 31 Mawrth 2008 (sail trosglwyddo 2008) £ | Cynnydd yn y gwerth trosglwyddo llai cyfraniadau’r aelodau (cyn y newid yn y sail trosglwyddo) £ | Cyfanswm y cynnydd yn y gwerth tros-glwyddo, llai cyfraniadau’r aelodau £ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Chris Banatvala | 13,000 | 2,000 | 246,000 | 106,000 | 85,000 | 21,000 | 156,000 |

# Adran D

## Cyfrifon ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2008 i 31 Mawrth 2009. Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol i Ddau Dŷ'r Senedd

**Tystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol y Swyddfa Gyfathrebiadau am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2009 dan Ddeddf y Swyddfa Gyfathrebiadau 2002. Mae'r rhain yn cynnwys y Cyfrif Incwm a Gwariant, y Datganiad o Gyfanswm yr Enillion a Cholledion Cydnabyddedig, y Fantolen, y Datganiad Llif Arian a'r nodiadau cysylltiedig. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn dan y polisïau cyfrifyddu a nodir ynddynt. Yr wyf hefyd wedi archwilio'r wybodaeth yn yr Adroddiad Taliadau a ddisgrifir yn yr adroddiad hwnnw fel gwybodaeth a archwiliwyd.**

### Cyfrifoldebau unigol y Bwrdd, y Prif Weithredwr a'r Archwilydd

Mae'r Bwrdd a'r Prif Weithredwr, fel y Swyddog Atebol, yn gyfrifol am baratoi'r Adroddiad Blynyddol, sy'n cynnwys yr Adroddiadau Taliadau a'r datganiadau ariannol yn unol â Deddf y Swyddfa Gyfathrebiadau 2002 a'r cyfarwyddiadau a wnaed yn unol â hi gan yr Ysgrifenyddion Gwladol am sicrhau cysondeb y trafodion ariannol. Mae'r cyfrifoldebau hyn wedi eu nodi yn y Datganiad o Gyfrifoldebau.

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Taliadau sydd i'w harchwilio yn unol â'r gofynion cyfreithiol a rheoleiddio perthnasol, ac â'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon).

Rhoddaf i chi fy marn ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg ac a yw'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Taliadau a archwilir wedi cael eu paratoi'n iawn yn unol â Deddf y Swyddfa Gyfathrebiadau 2002 a chyfarwyddiadau a wnaed oddi tani gan yr Ysgrifenyddion Gwladol. Adroddaf i chi ynghylch a yw'r wybodaeth sy'n cynnwys y Perfformiad Ariannol, y Rhagair ac adrannau Bwrdd Ofcom, sydd wedi'u cynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol, yn gyson â'r datganiadau ariannol yn fy marn i. Rwyf hefyd yn nodi, ymhob modd perthnasol, a yw'r gwariant a'r incwm wedi cael eu defnyddio at y dibenion y'u bwriadwyd gan y Senedd ac a yw'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Yn ogystal, adroddaf i chi os nad yw'r Swyddfa Gyfathrebiadau wedi cadw cofnodion cyfrifo cywir, os nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad, neu os nad yw gwybodaeth sy'n ofynnol gan awdurdodau perthnasol ynghylch taliadau a thrafodion eraill wedi cael ei datgelu.

Yr wyf yn adolygu a yw'r Datganiad ar Reolaeth Fewnol yn dangos bod y Swyddfa Gyfathrebiadau yn cydymffurfio â chanllawiau Trysorlys EM, ac yn rhoi gwybod os na fydd. Nid oes raid imi ystyried a yw'r datganiad hwn yn cwmpasu'r holl risgiau a rheolaethau na llunio barn am effeithiolrwydd gweithdrefnau llywodraethu corfforaethol y Swyddfa Gyfathrebiadau na'i gweithdrefnau risg a rheoli.

# Tystysgrif ac Adroddiad
## y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol i Ddau Dŷ'r Senedd

Darllenaf yr wybodaeth arall sydd yn yr Adroddiad Blynyddol, ac ystyried a yw'n gyson â'r datganiadau ariannol archwiliedig. Y mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr adrannau nas archwiliwyd yn yr Adroddiad Taliadau a gweddill yr adrannau yn yr Adroddiad Blynyddol. Yr wyf yn ystyried y goblygiadau i'm hadroddiad os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau o bwys yn y datganiadau ariannol. Nid yw fy nghyfrifoldebau yn ymestyn i unrhyw wybodaeth arall.

### Sail Barn yr Archwilydd

Yr wyf wedi cynnal fy archwiliad yn unol â'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon) a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio. Mae fy archwiliad yn cynnwys edrych yn fanwl, ar sail prawf, ar dystiolaeth sy'n berthnasol i symiau, datgeliadau a chysondeb y trafodion ariannol yn y datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Taliadau i'w harchwilio. Mae hefyd yn cynnwys asesiad o'r amcangyfrifon a'r dyfarniadau o bwys a wneir gan y Bwrdd a'r Prif Weithredwr wrth baratoi'r datganiadau ariannol, ac ynghylch ai'r polisïau cyfrifyddu yw'r rhai mwyaf priodol i amgylchiadau'r Swyddfa Gyfathrebiadau, sy'n cael eu cymhwyso'n gyson ac yn cael eu datgelu'n ddigonol.

Bu i mi gynllunio a chynnal f'archwiliad er mwyn i mi dderbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau yr oeddwn yn eu hystyried yn angenrheidiol i gael tystiolaeth ddigonol er mwyn cael sicrwydd rhesymol nad yw'r datganiadau ariannol na'r rhan o'r Adroddiad Taliadau i'w harchwilio'n cynnwys unrhyw gamddatganiad o bwys, pa un a achoswyd hynny trwy gamgymeriad, neu dwyll, bod y gwariant a'r incwm ym mhob modd o bwys wedi cael eu defnyddio i'r dibenion y bwriadwyd hwy gan y Senedd, a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu. Wrth ffurfio fy marn, yr wyf hefyd wedi gwerthuso a yw'r wybodaeth a gyflwynir yn y datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Taliadau a archwilir, yn gyffredinol, wedi'u cyflwyno'n ddigonol.

### Barn

**Barn archwilio**

Yn fy marn i:

- mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun teg a gwir yn unol â Deddf y Swyddfa Gyfathrebiadau 2002 a chyfarwyddiadau a wnaed yn ôl y gofynion hynny gan yr Ysgrifenyddion Gwladol;
- mae'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Taliadau sydd i'w archwilio wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â Deddf Gyfathrebiadau 2002 a chyfarwyddiadau a wnaed yn ôl y gofynion hynny gan yr Ysgrifenyddion Gwladol; ac
- mae'r wybodaeth, sef y Perfformiad Ariannol, y Rhagair a'r adrannau am Fwrdd Ofcom, sydd wedi'u cynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol, yn gyson â'r datganiadau ariannol.

**Y Farn Archwilio ynghylch Cysondeb**

Yn fy marn i, ym mhob cyswllt o bwys, mae'r gwariant a'r incwm wedi cael eu defnyddio i'r pwrpas y bwriadodd y Senedd iddynt gael eu defnyddio ac mae'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

### Adroddiad

Nid oes gennyf sylwadau i'w cynnig am y datganiadau ariannol hyn.

**Amyas C E Morse**
**Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol**

**30 Mehefin 2009**

**Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol**
**151 Buckingham Palace Road**
**Victoria**
**Llundain**
**SW1W 9SS**

# Cyfrif Incwm a Gwariant
## ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2009

| | Nodiadau | **Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2009 £'000** | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2008 £'000 |
|---|---|---|---|
| Incwm | 2,3 | **132,099** | 142,396 |
| **Gwariant gweithredu** | | | |
| Costau staff | 4 | **(58,281)** | (60,781) |
| Costau gweithredu eraill | 6 | **(67,032)** | (73,161) |
| **Gwarged gweithredu** | | **6,786** | **8,454** |
| (Ffi) / credyd eithriadol | 7 | **(3,786)** | 126 |
| Amhariad ar Asedau | 9a,b | **(426)** | (1,520) |
| Llog sydd i ddod i law | | **1,315** | 1,663 |
| Llog taladwy | 8 | **-** | (176) |
| Costau cyllid eraill | 15,22 | **(1,670)** | (237) |
| Cost dybiannol credyd cyfalaf | 18 | **1,370** | 1,378 |
| **Gwarged ar weithgareddau arferol** | | **3,589** | **9,688** |
| Gwrthdroad cost dybiannol cyfalaf | 18 | **(1,370)** | (1,378) |
| **Gwarged ar gyfer y flwyddyn ariannol** | | **2,219** | **8,310** |

Mae'r polisïau a'r nodiadau cyfrifyddu ar dudalennau 89 i 108 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

# Datganiad Cyfanswm Enillion a Cholledion Cydnabyddedig
## ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2009

| | **Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2009 £'000** | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2008 £'000 |
|---|---|---|
| **Gwarged ar gyfer y flwyddyn** | **2,219** | 8,310 |
| **Cynlluniau Pensiwn Buddion Diffinedig Ofcom** | | |
| Adenillion gwirioneddol heb gynnwys yr adenillion a ddisgwylir ar asedau'r cynllun | **(40,390)** | 4,660 |
| (Colledion)/enillion a brofwyd ar rwymedigaethau'r cynllun pensiwn | **(1,207)** | (1,855) |
| Newidiadau mewn tybiaethau sy'n sail i werth cyfredol rhwymedigaethau'r cynllun pensiwn | **4,151** | 24,018 |
| Gostyngiad/(Cynnydd) o ran gwarged anadferadwy | **31,600** | (26,600) |
| Newid yn y dull prisio o ganol y farchnad i'r pris cynnig presennol | **-** | 50 |
| **Cyfanswm y (colledion)/enillion cydnabyddedig ar gyfer y flwyddyn** | **(3,627)** | **8,583** |

Gweler rhagor o fanylion am bensiynau yn Nodyn 22.

Mae'r polisïau a'r nodiadau cyfrifyddu ar dudalennau 89 i 108 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

# Y Fantolen
## ar 31 Mawrth 2009

| | Nodiadau | **Ar 31 Mawrth 2009 £'000** | Ar 31 Mawrth 2008 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Asedau sefydlog** | | | |
| Asedau anniriaethol | 9a | **17,694** | 15,301 |
| Asedau diriaethol | 9b | **11,374** | 13,697 |
| | | **29,068** | **28,998** |
| **Asedau cyfredol** | | | |
| Dyledwyr | 10 | **11,145** | 9,932 |
| Arian yn y banc ac mewn llaw | 11 | **39,055** | 52,346 |
| | | **50,200** | **62,278** |
| Credydwyr – symiau sy'n dod yn ddyledus ymhen blwyddyn | 13 | **(46,174)** | (56,516) |
| **Asedau cyfredol net** | | **4,026** | 5,762 |
| **Cyfanswm yr asedau llai rhwymedigaethau cyfredol** | | **33,094** | 34,760 |
| Credydwyr – symiau sy'n dod yn ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn | 14 | **(763)** | (299) |
| Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau | 15 | **(4,659)** | (3,852) |
| **Asedau net ac eithrio rhwymedigaethau ac asedau pensiwn** | | **27,672** | **30,609** |
| Asedau pensiwn | 12 | **9,200** | 9,890 |
| Rhwymedigaethau pensiwn | 12 | **(876)** | (876) |
| **Asedau net gan gynnwys rhwymedigaethau ac asedau pensiwn** | 16 | **35,996** | **39,623** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Arian wrth gefn** | | | |
| Cyfrif incwm a gwariant | 16 | **35,996** | 39,623 |
| | | **35,996** | **39,623** |

Mae'r polisïau a'r nodiadau cyfrifyddu ar dudalennau 89 i 108 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol hyn gan y Bwrdd ar 2 Mehefin 2009.

Colette Bowe
Cadeirydd

Ed Richards
Prif Weithredwr

# Datganiad Llif Arian
## ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2009

| | Nodiadau | **Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2009** | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2008 |
|---|---|---|---|
| | | **£'000** | £'000 |
| **Mewnlif / (all-lif) arian net o weithgareddau gweithredol** | 17 | **(6,297)** | 16,482 |
| **Adenillion ar fuddsoddiadau a chynnal cyllid** | | | |
| Llog a dderbyniwyd | | **1,315** | 1,619 |
| Llog a dalwyd | 8 | **-** | (176) |
| **Mewnlif arian net ar gyfer adenillion ar fuddsoddiadau a chynnal cyllid** | | **1,315** | **1,443** |
| **Buddsoddiad ariannol a gwariant cyfalaf** | | | |
| Taliadau i brynu asedau sefydlog | | **(8,348)** | (7,099) |
| Elw o gael gwared ag asedau sefydlog | | **39** | 16 |
| **All-lif arian net o wariant cyfalaf a buddsoddi ariannol** | | **(8,309)** | **(7,083)** |
| | | | |
| **Arian net (all-lif)/mewnlif cyn cyllido** | | **(13,291)** | **10,842** |
| **Ariannu** | | | |
| Benthyciadau wedi'u had-dalu | 8 | **-** | (5,186) |
| **All-lif arian net o gyllido** | | **-** | **(5,186)** |
| **(Gostyngiad)/cynnydd mewn arian yn ystod y flwyddyn** | | **(13,291)** | **5,656** |
| | | | |
| **Cysoni llif arian net i'r symudiadau yn y cronfeydd net** | | | |
| (Gostyngiad)/cynnydd mewn arian yn ystod y flwyddyn | | **(13,291)** | 5,656 |
| Gostyngiad mewn dyled yn ystod y flwyddyn | 8 | **-** | 5,186 |
| Oronfeydd net agoriadol | | **52,346** | 41,504 |
| **Cronfeydd net terfynol** | | **39,055** | **52,346** |

Mae'r polisïau a'r nodiadau cyfrifyddu ar dudalennau 89 i 108 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

# Nodiadau i'r Cyfrifon
## ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2009

## 1. Y Sail dros Gyflwyno a'r Prif Bolisïau Cyfrifyddu

Mae Ofcom wedi'i leoli yn y Deyrnas Unedig ac mae'n darparu amrediad eang o wasanaethau rheoleiddio. Paratowyd datganiadau ariannol y Sefydliad ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2009 dan y confensiwn cost hanesyddol ar sail busnes byw, wedi'i addasu drwy ailbrisio rhai asedau sefydlog penodol, yn unol ag Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig; ar sail yr holl safonau a'r dehongliadau cyfrifyddu; ac yn unol â Deddf Cwmnïau 1985, ac eithrio lle caiff y rhain eu diystyru gan Ddeddf y Swyddfa Gyfathrebiadau 2002. Caiff y datganiadau ariannol hyn eu paratoi dan gyfarwyddyd adroddiad blynyddol yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Arloesi a Sgiliau (BERR gynt) a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) a gyhoeddwyd ar 30 Ebrill 2008 sy'n ffurfio rhan o'r Memorandwm Ariannol fel y cymeradwywyd gan BERR a DCMS.

Caiff symiau yn y Datganiadau Ariannol eu nodi mewn punnoedd sterling, sef yr arian y mae'r sefydliad yn delio ag ef.

### a) CYDNABOD INCWM

#### Cymorth grant

Mae'r incwm hwn yn cynnwys cymorth grant gan BIS i dalu costau rheoli sbectrwm, dyfarnu sbectrwm, clirio sbectrwm, ôl- gystadleuaeth, diddordeb y cyhoedd, integreiddio'r gwasanaeth post, a'r adolygiad defnyddiwr i ddefnyddiwr; a gan DCMS o ran llythrennedd yn y cyfryngau. Caiff cymorth grant a geir gan BIS a DCMS ei ddyrannu a'i gyfateb i'r costau yn y flwyddyn sy'n berthnasol iddynt.

#### Ffioedd gweinyddu gwasanaethau a rhwydweithiau

Rhoddir cyfrif am incwm ar sail gronnus sy'n cynnwys ffioedd gweinyddol a anfonebwyd gan Ofcom. Caiff incwm sy'n uwch na chostau arian rhwydweithiau a gwasanaethau ei nodi fel incwm gohiriedig ar y fantolen. Caiff costau arian sy'n uwch na'r incwm a dderbyniwyd eu trin fel dyledwr ar ddyddiad y fantolen.

#### Ffioedd trwydded ddarlledu

Mae incwm o ffioedd trwyddedu darlledu'n cynrychioli'r swm a anfonebwyd i ddeiliaid trwydded ac fe gaiff ei gyfrifo ar sail gronnus. Caiff incwm sy'n uwch na chostau arian darlledu ei nodi fel incwm gohiriedig ar y fantolen. Caiff costau arian sy'n fwy na'r incwm a dderbyniwyd ei drin fel dyledwr ar ddyddiad y fantolen.

#### Ffioedd ymgeisio

Ni ellir ad-dalu ffioedd darlledu a rhwydweithiau na gwasanaethau un-tro, felly cânt eu cofnodi fel incwm adeg derbyn cais y rhanddeiliad.

#### Incwm arall

Caiff incwm arall ei gyfrif ar sail gronnus ac fe gaiff ei gyfateb i'r gwariant y mae'n cyfrannu ato.

### b) DERBYNIADAU A GASGLWYD GAN OFCOM O FEWN CWMPAS ADRAN 400 DEDDF CYFATHREBIADAU 2003

Yn unol ag Adran 400 Deddf Cyfathrebu 2003, caiff Taliadau Ychwanegol y Ddeddf Darlledu a chosbau a dirwyon y mae Ofcom yn eu codi eu had-dalu i'r Gronfa Gyfunol. Hefyd, caiff ffioedd trwydded y mae Ofcom yn eu codi, sy'n deillio o gyhoeddi neu adnewyddu trwyddedau dan y Deddfau Telegraffiaeth Ddi-wifr, eu had-dalu i BIS i'w talu i'r Gronfa Gyfunol.

Ni wneir unrhyw gofnodion yn y Datganiadau Ariannol hyn o ran trafodion sy'n gysylltiedig ag Adran 400, ac eithrio taliadau a ffioedd sydd wedi'u casglu a'u rhoi ym mhrif gyfrif banc Ofcom ar ddyddiad y fantolen. Dangosir y rhain fel eu bod yn ddyledus i'r Gronfa Gyfunol yn y Credydwyr sy'n ddyledus cyn pen blwyddyn.

Mae Ofcom yn paratoi cyfres o gyfrifon ariannol ar wahân hyd at 31 Mawrth bob blwyddyn at ddibenion Adran 400 Deddf Cyfathrebiadau 2003. Caiff y rhain eu cyflwyno gerbron y Senedd.

### c) PRYDLESI

Caiff taliadau a wnaed ac a dderbyniwyd dan brydlesi gweithredol eu cydnabod yn y cyfrif Incwm a Gwariant ar sail llinell syth dros gyfnod y brydles. Caiff cymhellion

# Nodiadau i'r Cyfrifon
## ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2009

prydlesu eiddo eu derbyn a'u cydnabod fel rhan greiddiol o gyfanswm gwerth y brydles, dros gyfnod y brydles pan na ellir ei chanslo tan yr adolygiad rhent nesaf.

### ch) ASEDAU SEFYDLOG

Mae cyfarwyddyd gan y Trysorlys ar asedau nad ydynt yn eiddo yn caniatáu i Ofcom ddefnyddio costau hanesyddol dibrisiedig i gynrychioli gwerth presennol asedau nad ydynt yn eiddo sydd ag oes ddefnyddiol economaidd byr neu werth isel. Mae holl asedau Ofcom yn disgyn i'r categori hwn. Caiff Asedau Sefydlog dros £2,500 eu cyfalafu.

#### Asedau anniriaethol

Nodir asedau anniriaethol ar yr union gost, llai amorteiddiad cronedig ac unrhyw golledion amhariad cronedig. Caiff gwariant ar feddalwedd cyfrifiadur ei gyfalafu i'r graddau ei bod yn debygol y bydd yr ased yn creu buddion economaidd yn y dyfodol. Mae'r gwariant a gyfalafwyd yn cynnwys costau rhaglenni meddalwedd a ffioedd datblygu a thrwyddedau cysylltiedig.

Caiff asedau sefydlog anniriaethol a gynhyrchwyd yn fewnol, megis meddalwedd, eu cydnabod ddim ond os gellir adnabod yr ased a grëwyd; os yw'n debygol y bydd yr ased a grëwyd yn creu budd economaidd yn y dyfodol; ac os gellir mesur cost datblygu'r ased yn ddibynadwy. Os na ellir cydnabod ased anniriaethol a gynhyrchwyd yn fewnol, caiff gwariant datblygu ei gofnodi fel cost yn y Cyfrif Incwm a Gwariant yn y cyfnod y mae'n daladwy.

Caiff amorteiddiad ar gostau datblygu a gyfalafwyd ei nodi ar y cyfrif Incwm a Gwariant ar sail llinell syth, o'r mis yn dilyn y mis lle mae ased yn cael ei roi ar waith, dros amcan oes ddefnyddiol yr ased. Amcangyfrifir mai rhwng tair a phum mlynedd yw'r oes ddefnyddiol.

Mae asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu yn cynnwys costau a geir wrth ddatblygu systemau cyfrifiadurol a fydd yn disodli rhai o'r rhaglenni presennol. Nid yw dibrisiant yn effeithio ar asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu.

Caiff gwariant ar ymchwil a datblygu ei ddiddymu fel gwariant a godir ar y cyfrif Incwm a Gwariant.

#### Asedau diriaethol

Mae asedau diriaethol yn cynnwys prynu asedau newydd ac ymestyn, ehangu neu ddisodli asedau presennol.

Caiff asedau diriaethol eu dibrisio, ar sail llinell syth, ar gyfraddau a amcangyfrifwyd i ddiddymu eu gwerth llyfr dros eu hamcan oes economaidd ddefnyddiol. Wrth asesu amcan oes ddefnyddiol economaidd, a gaiff ei adolygu'n rheolaidd, rhoddir ystyriaeth i unrhyw drefniadau contract a gofynion gweithrediadol sy'n ymwneud ag asedau penodol.

Caiff dibrisiant ei gyfrifo o'r mis yn dilyn y mis lle mae ased yn cael ei roi ar waith dros amcan oes ddefnyddiol yr ased. Oni bai bod gofynion gweithrediadol yn pennu fel arall, nodir yn y tabl isod, yn gyffredinol, y cyfnodau dibrisiant ar gyfer y prif gategorïau o asedau diriaethol:

| |
|---|
| Gosodiadau a Ffitiadau – Gwelliannau Prydles |
| Cyfnod y brydles |
| Gosodiadau a Ffitiadau – Dodrefn |
| 7 mlynedd |
| Offer Swyddfa a Maes |
| 4 i 7 mlynedd |
| Caledwedd Cyfrifiadurol |
| 3 i 5 mlynedd |
| Cerbydau Modur |
| 5 mlynedd |

Caiff amhariad asedau ei gyfrifo fel y gwahaniaeth rhwng gwerth llyfr yr ased a'i swm adferadwy, os yw'n llai. Caiff profion ar gyfer amhariad eu gwneud ddim ond os oes rhyw arwydd yr amharwyd o bosibl ar werth llyfr yr asedau. Caiff amhariadau materol eu cydnabod yn y cyfrir Incwm a Gwariant.

#### Darpariaethau Prydles Eiddo Beichus

Mae Ofcom yn darparu ar gyfer ymrwymiadau sy'n ymwneud â lle dros ben ar brydles ac adferiadau yn ei eiddo, llai cyfradd ddisgownt y Trysorlys, sy'n 2.2% ar hyn o bryd. Mae'r darpariaethau hyn yn cynrychioli gwerth presennol net amcan gostau yn y dyfodol ar ôl cydnabod

# Nodiadau i'r Cyfrifon
## ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2009

yr incwm rhent eithaf sicr yn y dyfodol. Wrth i'r disgownt ddod i ben, mae hwn wedi'i gynnwys o fewn y taliadau cyllid yn y cyfrif Incwm a Gwariant.

### d) BUDDION GWEITHWYR

Mae gan Ofcom amrediad o gynlluniau pensiwn sy'n cynnwys: cynlluniau cyfraniadau diffiniedig; cynlluniau buddion diffiniedig a chynlluniau na chânt eu hariannu.

#### Cynlluniau cyfraniadau diffiniedig

Cynllun buddion ôl-gyflogaeth yw cynllun cyfraniadau diffiniedig lle mae endid yn talu cyfraniadau penodedig i endid ar wahân ac nid oes ymrwymiad cyfreithiol nac adeiladol arno i dalu symiau ychwanegol. Caiff ymrwymiadau i dalu cyfraniadau i gynlluniau pensiwn cyfraniadau diffiniedig eu cydnabod fel gwariant er budd gweithwyr yn y cyfrir Incwm a Gwariant pan fyddant yn ddyledus. Caiff cyfraniadau rhagdalu eu cydnabod fel ased i'r graddau bod ad-daliad ariannol neu leihad mewn taliadau i'r dyfodol ar gael.

Gall staff newydd ymuno â chynllun pensiwn rhanddeiliaid, sy'n gynllun cyfraniadau diffiniedig.

#### Cynlluniau buddion diffiniedig

Mae'r cynllun buddion diffiniedig hefyd yn gynllun buddion ôl-gyflogaeth ond mae'n wahanol i gynllun cyfraniadau diffiniedig. Caiff ymrwymiadau net Ofcom mewn perthynas â chynlluniau pensiwn buddion ei gyfrifo ar wahân ar gyfer pob cynllun drwy amcangyfrif swm y budd y bydd gweithwyr wedi'i ennill yn y dyfodol am eu gwasanaeth yn y cyfnodau presennol a blaenorol; tynnir disgownt oddi ar y budd hwnnw er mwyn pennu ei werth cyfredol. Caiff unrhyw gostau gwasanaeth yn y gorffennol nas cydnabuwyd a gwerth teg asedau unrhyw gynllun eu didynnu. Y gyfradd ddisgownt yw'r incwm ar y dyddiad adrodd o'r bondiau â sgôr credyd AA sydd â dyddiadau aeddfedu sy'n debyg i delerau ymrwymiadau Ofcom ac sydd wedi'u trosi i'r un math o arian y disgwylir talu'r buddion ynddo. Os bydd Ofcom ar ei ennill ar ôl gwneud y cyfrifiad, caiff yr ased a gydnabuwyd ei gyfyngu i gyfanswm net unrhyw gostau gwasanaeth yn y gorffennol nas cydnabuwyd a gwerth presennol unrhyw ad-daliadau i'r dyfodol o'r cynllun neu leihad mewn cyfraniadau i'r cynllun yn y dyfodol.

Mae Ofcom yn cyfranogi mewn dau gynllun pensiwn buddion diffiniedig sy'n gysylltiedig â staff a drosglwyddodd i Ofcom o sefydliadau blaenorol. Nid yw'r cynlluniau hyn ar gael i aelodau newydd.

Mae'r cynllun Cyntaf, Cynllun Pensiwn Buddion Diffiniedig Ofcom, yn darparu buddion sy'n gyfwerth i raddau helaeth â Phrif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Mae Ofcom yn cyfranogi ar y cyd â'r Awdurdod Safonau Hysbysebu yn y cynllun hwn. Yr ail gynllun yw Cynllun Pensiwn Staff Ofcom (ITC gynt) ac mae Ofcom yn un o'r pedwar cyflogwr sy'n cyfranogi. Caiff asedau'r cynllun hwn eu dal mewn ymddiriedolaeth a weinyddir ar wahân. Glynir wrth FRS 17 – Cyfrifyddu ar gyfer Rhwymedigaethau Cynllun Pensiwn – a chaiff asedau net y cynllun eu cynnwys yn y fantolen. Dangosir cyfanswm y symudiad yn asedau net y ddau gynllun yn y Datganiad Cyfanswm Enillion a Cholledion Cydnabyddedig.

#### Cynlluniau na chânt eu hariannu

Mae gan Ofcom rwymedigaethau hefyd o ran taliadau pensiwn i dri chyn-gadeirydd y Comisiwn Teledu Annibynnol, dau gyn-gadeirydd yr Awdurdod Radio a dau gyn-Gyfarwyddwr Cyffredinol y Swyddfa Rheoliadau Telathrebu. Mae'r rhain yn gynlluniau na chânt eu hariannu ac fe gyfrifir amdanynt dan FRS 17 gyda darpariaeth wedi'i chynnwys ym mantolen Ofcom ar gyfer prisiad yr actiwari o'r rhwymedigaethau.

#### Costau pensiynau yn y dyfodol ac ymddeoliad cynnar

Roedd yr Asiantaeth Radiogyfathrebiadau ac Oftel yn gweithredu Cynllun Ymddeoliad Cynnar a roddodd fuddion ymddeoliad i rai gweithwyr cymwys. Mae'r buddion hyn yn cydymffurfio â rheolau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Trosglwyddwyd rhwymedigaeth yr Asiantaeth ac Oftel i dalu costau'r buddion hyn i Ofcom ar 29 Rhagfyr 2003. Mae'r rhwymedigaeth yn parhau nes oedran ymddeol arferol y gweithwyr a wnaeth ymddeol dan y Cynllun Ymddeoliad Cynnar. Darperir ar gyfer y costau ychwanegol hyn, yn seiliedig ar werth y symiau blynyddol wedi'i ddisgowntio sy'n daladwy ar ddyddiad y fantolen. Mae'r gwir symiau sy'n daladwy yn cynyddu'n flynyddol yn unol â rheolau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil.

# Nodiadau i'r Cyfrifon
## ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2009

### Buddion tymor hir eraill

Mae hawl gan gydweithwyr sydd wedi cwblhau pum mlynedd o wasanaeth di-dor gael gwyliau sabothol â thâl am 5 wythnos. O 1af Ionawr 2008 ymlaen, diddymwyd y budd hwn ar gyfer y rheini sydd newydd ddechrau. Caiff croniad ei gynnwys fel rhan o'r croniadau, sy'n seiliedig ar amcangyfrifon gorau'r rheolwyr gan ddefnyddio data cyfredol ar gyflog a chyfraddau trosiant. Caiff y rhwymedigaeth hon ei fesur yn unol ag FRS12 – Darpariaethau.

### dd) SETLO HAWLIADAU

Gwneir darpariaeth ar gyfer iawndal ac amcan gostau cyfreithiol trydydd parti o ran herio penderfyniadau rheoleiddiol Ofcom a'i sefydliadau blaenorol os bernir ei bod yn debygol y bydd y rhain yn daladwy.

### e) CYFNEWID ARIAN TRAMOR

Caiff trafodion a ddynodir mewn arian tramor eu trosi'n sterling yn ôl y gyfradd gyfnewid sydd mewn grym ar ddyddiad y trafodyn. Caiff asedau a rhwymedigaethau ariannol a ddynodir mewn arian tramor eu trosi yn ôl y cyfraddau sydd mewn grym ar ddyddiad y fantolen a chydnabyddir yr elw neu'r golled ddilynol yn y cyfrif Incwm a Gwariant ar gyfer y flwyddyn.

### f) OFFERYNNAU A RISG CREDYD

### Benthyciadau

Mae gan Ofcom bwerau cyfyngedig i fenthyg arian i ariannu amrywiadau tymor byr mewn llif arian.

### Arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod

Mae arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod yn cynnwys arian yn y banc ac mewn llaw, a blaendaliadau tymor byr hylifol iawn sy'n aeddfedu cyn pen deuddeg mis. Caiff incwm llog ar arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod ei gydnabod wrth iddo gael ei ennill.

### Dyledwyr

Ni cheir llog ar ddyledwyr masnach na dyledwyr eraill ac fe'u nodir ar eu gwerth teg. Gwneir darpariaeth os oes tystiolaeth na chaiff yr arian sy'n weddill ei dalu'n llawn.

### Credydwyr

Ni cheir llog ar gredydwyr ac fe'u nodir ar eu gwerth teg.

### ff) TRETH

Mae Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi wedi barnu nad yw swyddogaethau rheoleiddio Ofcom yn golygu ei fod yn fusnes sy'n masnachu. O'r herwydd, ni all Ofcom adennill TAW ar wariant sy'n rhan o'i weithgareddau rheoleiddio.

Gellir asesu Treth Gorfforaeth ar log a dderbynnir, ac o ran incwm rhent net y gwariant ar eiddo sy'n deillio o osod eiddo dros ben. Ar ddyddiad y fantolen, roedd gan Ofcom golledion treth nas defnyddiwyd i'w osod yn erbyn incwm yn y dyfodol y byddai'n rhaid talu Treth Gorfforaeth arno. Daw'r colledion hyn yn bennaf o ganlyniad i ddarpariaethau les beichus ar eiddo a etifeddwyd gan gyrff blaenorol nad oedd mo'u hangen pan ymgorfforwyd Ofcom. Ni chydnabuwyd ased treth wedi'i ohirio oherwydd nad oes digon o dystiolaeth y byddai'n adferadwy oherwydd yr ansicrwydd ynghylch incwm trethadwy yn y dyfodol.

### g) TÂL CYFALAF

Dan delerau Memorandwm Ariannol Ofcom a gyhoeddwyd gan BIS (BERR gynt), a gan adlewyrchu'r adenillion ar gyfalaf Ofcom (yn unol ag arfer cyfrifyddu safonol y llywodraeth), rhoddir credyd ar y gwarged cyn trethiant. Cyfrifir y tâl yn unol ag arweiniad Trysorlys Ei Mawrhydi ar 3.5 y cant ar y swm i'w gario ar yr holl asedau perthnasol heb rwymedigaethau perthnasol. Caiff hwn ei wyrdroi i bennu'r gwarged wrth gefn ar weithgareddau arferol ar ôl trethiant.

### ng) DADANSODDIAD SEGMENTOL

Fel corfforaeth gyhoeddus, nid oes gofyn i Ofcom gyflwyno gwybodaeth yn unol ag SSAP25. Fodd bynnag, er mwyn bodloni gofynion Deddf Cyfathrebu 2003 i ddarparu gwybodaeth am gostau a ffioedd, mae Nodyn 2 i'r datganiadau ariannol hyn yn cyflwyno'r cyfrif Incwm a Gwariant ar gyfer y flwyddyn dan sylw fesul sector rheoleiddio.

# Nodiadau i'r Cyfrifon
## ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2009

## 2. Dadansoddiad Sectoraidd

Mae'r dadansoddiad isod yn cyfeirio at incwm fesul sector ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2009, ynghyd â'r costau a briodolir.

| | Rheoli Sbectrwm £'000 | Clirio Sbectrwm £'000 | Dyfarn-iadau Sbectrwm £'000 | Rhwyd-weithiau a gwasan-aethau £'000 | Darlledu £'000 | Incwm arall £'000 | Cyfanswm 31 Mawrth 2009 £'000 | Cyfanswm 31 Mawrth 2008 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Refeniw** | | | | | | | | |
| Ffioedd gweinyddu a thrwyddedau | - | - | - | 26,746 | 25,569 | - | **52,315** | 54,781 |
| Ffioedd ymgeisio | - | - | - | 30 | 577 | - | **607** | 680 |
| Cymorth Grant | 74,641 | 746 | 2,932 | - | - | 2,768 | **81,087** | 81,566 |
| Incwm arall | - | - | - | - | - | 2,004 | **2,004** | 2,047 |
| Incwm Cronedig/(Gohiriedig) | (3,355) | - | (495) | 530 | (1,045) | (842) | **(5,207)** | 1,907 |
| **Cyfanswm Refeniw** | **71,286** | **746** | **2,437** | **27,306** | **25,101** | **3,930** | **130,806** | **140,981** |
| Incwm rhent ac incwm arall | 723 | - | - | 277 | 254 | 39 | **1,293** | 1,415 |
| **Incwm gweithredu** | **72,009** | **746** | **2,437** | **27,583** | **25,355** | **3,969** | **132,099** | **142,396** |
| Llog sydd i ddod i law | 735 | - | - | 281 | 259 | 40 | **1,315** | 1,663 |
| **Cyfanswm incwm** | **72,744** | **746** | **2,437** | **27,864** | **25,614** | **4,009** | **133,414** | **144,059** |
| Ad-dalu benthyciadau | - | - | - | - | - | - | - | (5,186) |
| Llog taladwy | - | - | - | - | - | - | - | (176) |
| **Incwm Gweithredu Net** | **72,744** | **746** | **2,437** | **27,864** | **25,614** | **4,009** | **133,414** | **138,697** |
| Eiddo beichus ac incwm rhent cronedig | 424 | - | - | 163 | 149 | 25 | **761** | (86) |
| **Incwm Ariannol** | **73,168** | **746** | **2,437** | **28,027** | **25,763** | **4,034** | **134,175** | **138,611** |
| **Cyfanswm costau** | **(73,168)** | **(746)** | **(2,437)** | **(28,027)** | **(25,763)** | **(4,034)** | **(134,175)** | **(138,611)** |
| **Gwarged ar sail cost ariannol** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Costau cymharol fesul sector | | | | | | | |
| **Blwyddyn yn gorffen Mawrth 2009** | **(73,168)** | **(746)** | **(2,437)** | **(28,027)** | **(25,763)** | **(4,034)** | **(134,175)** |
| Blwyddyn yn gorffen Mawrth 2008 | (74,741) | (3,000) | (2,617) | (25,512) | (28,280) | (4,461) | (138,611) |

Mae'r incwm arall yn cynnwys:

- ymholiadau am gystadlaethau a ariennir drwy gymorth grant;
- gwaith llythrennedd yn y cyfryngau a ariennir drwy gymorth grant;
- gweithgareddau masnachol, gan gynnwys gwaith ymyrraeth ar y sbectrwm; ac
- incwm rhent o is-osod lleoedd mewn eiddo gwag.

Yn unol â pholisïau cyfrifyddu Ofcom, fel y nodir yn Nodyn 1(a) y cyfrifon hyn, cyfrifir am gymorth grant yn y cyfnod y'i derbynnir.

# Nodiadau i'r Cyfrifon
ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2009

## 2. Dadansoddiad sectoraidd (parhâd)

Cafodd y tabl ar y dudalen flaenorol ei baratoi ar sail arian a addaswyd, sy'n cynnwys gwariant cyfalaf a chyfraniadau gwirioneddol i gynlluniau pensiwn, ond nid yw'n cynnwys dibrisiant.

Mae Datganiad Egwyddorion Codi Tâl Ofcom yn dweud:

- bod ffioedd gweinyddol a thrwyddedau yn seiliedig ar amcangyfrif o'r costau arian;
- lle ceir incwm sy'n fwy na'r gwariant, bydd y gwarged yn cael ei ad-dalu i'r rhanddeiliaid perthnasol; a
- lle ceir gwariant sy'n fwy na'r incwm, bydd y diffyg yn cael ei gasglu gan y rhanddeiliaid perthnasol.

### Cysoni'r Gwariant Gweithredu â'r Alldro Gweithredu Gwirioneddol

| | Nodiadau | 2009 £'000 | 2008 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Gwariant gweithredu – cyfrif incwm a gwariant** | | **125,313** | 133,942 |
| Addasiadau yng nghyswllt rhwymedigaethau ac asedau pensiwn | | **6,740** | 3,620 |
| Costau eiddo gwag | 15 | **134** | 63 |
| Gwariant cyfalaf llai dibrisiant | | **559** | 1,272 |
| Taliadau rhent gwirioneddol llai gwariant | | **22** | 1,399 |
| Addasiadau eraill | | **1,446** | (1,669) |
| Elw o asedau sefydlog | | **(39)** | (16) |
| **Gwariant arian gweithredu** | | **134,175** | **138,611** |
| Clirio Sbectrwm | | **(746)** | (3,000) |
| Dyfarniadau sbectrwm | | **(2,437)** | (2,617) |
| Incwm Anweithredol | | **(3,370)** | (2,992) |
| **Alldro Costau Gweithredu Gwirioneddol** | | **127,622** | **130,002** |

# Nodiadau i'r Cyfrifon
## ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2009

## 3. Incwm

| | 2009 £'000 | 2008 £'000 |
|---|---|---|
| Cymorth Grant – BIS – Rheoli sbectrwm | **71,286** | 73,059 |
| Cymorth Grant – BIS – Cynllun clirio sbectrwm | **746** | 3,000 |
| Cymorth Grant – BIS – Rhaglen arwerthiannau sbectrwm | **2,437** | 2,617 |
| Cymorth Grant – BIS – Gorfodi'r gyfraith gystadleuaeth | **752** | 1,414 |
| Cymorth Grant – Yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon – Llythrennedd yn y cyfryngau | **559** | 673 |
| Cymorth Grant – BIS – Prawf Budd y Cyhoedd | **-** | 246 |
| Cymorth Grant – BIS – Integreiddio rheoleiddio'r gwasanaeth post | **633** | - |
| Cymorth Grant – BIS – Y Ddeddf Menter – Cydymffurfio'n Llwyr | **142** | - |
| Cymorth Grant – BIS – Rhannu Ffeiliau Defnyddiwr i Ddefnyddiwr yn Anghyfreithlon | **179** | - |
| **Cyfanswm cymorth grant gan y llywodraeth** | **76,734** | **81,009** |
| Ffioedd gweinyddol a ffioedd gwneud cais ar gyfer rhwydweithiau a gwasanaethau | **27,306** | 27,498 |
| Ffioedd trwyddedu a ffioedd gwneud cais yng nghyswllt y Ddeddf Darlledu | **25,101** | 30,445 |
| Incwm rhent | **1,173** | 1,352 |
| Incwm arall | **1,785** | 2,092 |
| **Cyfanswm Incwm** | **132,099** | **142,396** |

## 4. Costau staff

| | 2009 £'000 | 2008 £'000 |
|---|---|---|
| Roedd y costau staff, gan gynnwys y ffioedd a dalwyd i Aelodau'r Bwrdd, fel a ganlyn: | | |
| Cyflogau a buddion | **47,106** | 47,270 |
| Costau Yswiriant Gwladol | **5,535** | 5,044 |
| Costau pensiwn | **5,331** | 6,330 |
| Costau ailstrwythuro | **309** | 2,137 |
| **Cyfanswm Costau Staff** | **58,281** | **60,781** |

Mae'r costau ailstrwythuro yn cynnwys darpariaeth ar gyfer 4 (2008: 32) o staff. Gweler gwybodaeth fanylach yng nghyswllt taliadau a hawliau pensiwn y cyfarwyddwyr a'r uwch weithredwyr yn yr Adroddiad Taliadau ar dudalennau 76 i 82.

## 5. Nifer y gweithwyr

| | 2009 | 2008 |
|---|---|---|
| **Nifer gyfartalog y gweithwyr** | **817** | **810** |

Ar 31 Mawrth 2009, roedd gan Ofcom 853 o weithwyr (2008: 812). Nid yw nifer y gweithwyr yn cynnwys Aelodau Anweithredol Bwrdd Ofcom, y Bwrdd Cynnwys, y Pwyllgorau Ymgynghori na gweithwyr sydd wedi'u secondio i Ofcom.

# Nodiadau i'r Cyfrifon
## ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2009

## 6. Costau gweithredu eraill

| | 2009<br>£'000 | 2008<br>£'000 |
|---|---|---|
| Taliadau i archwilwyr – ffioedd archwilio statudol | **90** | 85 |
| Taliadau i archwilwyr – IFRS | **10** | - |
| Ffioedd proffesiynol | **11,556** | 15,816 |
| Gwasanaethau a ddarperir yn allanol | **8,886** | 10,249 |
| Ymchwil i'r gynulleidfa a'r defnyddwyr | **5,834** | 5,154 |
| Ymchwil technolegol a phrosiectau effeithlonrwydd sbectrwm | **2,526** | 2,795 |
| Staff ar secondiad | **215** | 93 |
| Staff dros dro a recriwtio | **3,600** | 5,190 |
| Teithio a chynhaliaeth | **1,764** | 1,711 |
| Costau gwybodaeth a thechnoleg | **3,873** | 2,623 |
| Cerbydau | **267** | 254 |
| Treuliau gweinyddol a swyddfa | **8,641** | 9,017 |
| Cynllun clirio sbectrwm | **746** | 3,000 |
| Costau adeiladau | **11,211** | 10,825 |
| Colled / (Elw) wrth gael gwared ag asedau sefydlog | **13** | (1) |
| Amorteiddio | **4,322** | 2,462 |
| Dibrisiant | **3,478** | 3,888 |
| **Cyfanswm y Costau Gweithredol Eraill** | **67,032** | **73,161** |
| Mae'r costau uchod yn cynnwys: | | |
| Prydlesi gweithredol – tir ac adeiladau | **8,145** | 7,971 |
| Prydlesi gweithredol – arall | **128** | 115 |

## 7. (Ffi) / credyd eithriadol

| | 2009<br>£'000 | 2008<br>£'000 |
|---|---|---|
| **Costau eiddo gwag yn y dyfodol** | **(3,786)** | 126 |

Yn ystod y flwyddyn, daeth tri eiddo yn wag am fod Ofcom wedi arddel polisi o ddefnyddio gweithwyr maes sy'n gweithio gartref. Hefyd, roedd un o'r tenentiaid ar eiddo sy'n cael ei is-osod gan Ofcom wedi methu â thalu taliadau prydles. Disgwylir y bydd y tenant hwn yn gadael yr eiddo yn ystod 2009 ac y bydd angen sicrhau tenant newydd. Mae amodau'r farchnad ar hyn o bryd yn dangos y bydd telerau'r brydles nesaf yn llai ffafriol. O ganlyniad i hynny, mae ffi eithriadol wedi'i gwneud ar gyfer 2008/9 ac mae darpariaeth gyfatebol wedi'i gwneud fel y'i disgrifir yn Nodyn 15.

## 8. Llog taladwy

| | 2009<br>£'000 | 2008<br>£'000 |
|---|---|---|
| **Ar fenthyciad BIS (BERR gynt)** | **-** | **176** |

Yn unol â'r cytundeb dyddiedig 14 Hydref 2003, darparodd BIS (BERR gynt) gyllid benthyciad ar gyfradd sefydlog yn y cyfnodau cyn i Ofcom gynhyrchu incwm. Gwnaethpwyd taliad terfynol o £5.186m yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2008.

# Nodiadau i'r Cyfrifon
## ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2009

## 9. Asedau sefydlog

(a) Anniriaethol

| | Meddalwedd cyfrifiadurol £'000 | Asedau sy'n cael eu hadeiladu £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|
| **COST** | | | |
| Ar 1 Ebrill 2008 | 16,756 | 4,105 | **20,861** |
| Ychwanegiadau yn ystod y flwyddyn | 3,519 | 3,216 | **6,735** |
| Amhariad | (1,863) | - | **(1,863)** |
| Trosglwyddiadau | 6,982 | (6,982) | **-** |
| **Cost ar 31 Mawrth 2009** | **25,394** | **339** | **25,733** |
| **AMORTEIDDIO** | | | |
| Ar 1 Ebrill 2008 | 5,560 | - | **5,560** |
| Tâl am y flwyddyn | 4,322 | - | **4,322** |
| Amhariad | (1,843) | - | **(1,843)** |
| **Amorteiddiad cronedig ar 31 Mawrth 2009** | **8,039** | **-** | **8,039** |
| | | | |
| **Gwerth Llyfr Net 31 Mawrth 2009** | **17,355** | **339** | **17,694** |
| Gwerth Llyfr Net 31 Mawrth 2008 | 11,196 | 4,105 | 15,301 |

Mae'r Asedau sy'n Cael eu Hadeiladu wedi cael eu hail-ddosbarthu fel asedau anniriaethol i adlewyrchu eu natur sylfaenol. Mae'r balans yn adlewyrchu'r gwaith o ddatblygu meddalwedd ar gyfer Gemau Olympaidd a Pharalympaidd 2012 a phrosiect e-gydweithio.

# Nodiadau i'r Cyfrifon
## ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2009

## 9. Asedau sefydlog (parhâd)

(b) Diriaethol

| | Gwelliannau prydles £'000 | Gosodion a ffitiadau £'000 | Offer swyddfa a maes £'000 | Caledwedd cyfrifiadurol £'000 | Cerbydau modur £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **COST** | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2008 | 11,570 | 2,997 | 13,352 | 4,901 | 1,307 | **34,127** |
| Ychwanegiadau yn ystod y flwyddyn | 324 | 165 | 313 | 811 | - | **1,613** |
| Amhariad | - | (152) | (3,057) | (1,346) | - | **(4,555)** |
| Cwblhawyd | (6) | (14) | - | (29) | (235) | **(284)** |
| Trosglwyddiadau | 2,258 | (2,258) | - | - | - | **-** |
| **Cost ar 31 Mawrth 2009** | **14,146** | **738** | **10,608** | **4,337** | **1,072** | **30,901** |
| **DIBRISIANT** | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2008 | 5,601 | 1,171 | 9,415 | 3,070 | 1,173 | **20,430** |
| Tâl am y flwyddyn | 825 | 70 | 1,509 | 978 | 96 | **3,478** |
| Amhariad | - | (104) | (2,765) | (1,280) | - | **(4,149)** |
| Cwblhawyd | - | (1) | - | (2) | (229) | **(232)** |
| Trosglwyddiadau | 719 | (719) | - | - | - | **-** |
| **Dibrisiadau cronedig ar 31 Mawrth 2009** | **7,145** | **417** | **8,159** | **2,766** | **1,040** | **19,527** |
| | | | | | | |
| **Gwerth Llyfr Net 31 Mawrth 2009** | **7,001** | **321** | **2,449** | **1,571** | **32** | **11,374** |
| Gwerth Llyfr Net 31 Mawrth 2008 | 5,969 | 1,826 | 3,937 | 1,831 | 134 | 13,697 |

Mae asedau sydd â gwerth llyfr net o £1.5m wedi cael eu trosglwyddo i'r Gwelliannau Prydles er mwyn adlewyrchu natur yr asedau yn gywir. Yn dilyn adolygiad dilysu ac amhariad asedau blynyddol, mae asedau nad ydynt yn cael eu defnyddio bellach wedi cael eu dibrisio i ddim.

# Nodiadau i'r Cyfrifon
## ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2009

## 10. Dyledwyr

| | 2009 £'000 | 2008 £'000 |
|---|---|---|
| Dyledwyr masnach | **3,651** | 1,354 |
| Dyledwyr eraill | **195** | 270 |
| Blaendaliadau | **5,415** | 3,322 |
| Benthyciadau a blaendaliadau staff | **255** | 270 |
| Incwm cronedig | **1,629** | 4,716 |
| **Cyfanswm Dyledwyr** | **11,145** | **9,932** |

Mae'r incwm cronedig uchod yn cynnwys £0.3m (2008: £0.7m) o ddyledwyr sy'n adferadwy ar ôl mwy na blwyddyn. Mae'r benthyciadau staff yn cynnwys 183 (2008: 207) benthyciadau ar gyfer tocyn tymor.

## 11. Arian yn y banc ac mewn llaw

| | 2009 £'000 | 2008 £'000 |
|---|---|---|
| Arian yn y banc ac mewn llaw | **39,055** | 52,247 |
| Swyddfa Tâl-Feistr Cyffredinol EM | **-** | 99 |
| **Cyfanswm yr Arian yn y banc ac mewn llaw** | **39,055** | **52,346** |

Mae'r holl weithgareddau a'r balansau ariannol sy'n ymwneud â Chosbau a Ffioedd Trwyddedau ar wahân i gyfrifon Ofcom ac wedi'u cynnwys yng nghyfrifon Adran 400.

## 12. Rhwymedigaethau ac asedau pensiwn

| | 2009 £'000 | 2008 £'000 |
|---|---|---|
| **Statws noddedig net** | **9,200** | **9,890** |
| **Rhwymedigaethau pensiwn di-nawdd** | **(876)** | **(876)** |

Gweler rhagor o fanylion yng nghyswllt cynlluniau pensiwn Ofcom yn Nodyn 22 y cyfrifon hyn.

# Nodiadau i'r Cyfrifon
## ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2009

## 13. Credydwyr – symiau sy'n dod yn ddyledus ymhen blwyddyn

| | **2009**<br>**£'000** | 2008<br>£'000 |
|---|---|---|
| Credydwyr masnach | **1,829** | 7,654 |
| Treth a nawdd cymdeithasol arall | **-** | 1,613 |
| Credydwyr eraill | **1,001** | 508 |
| Treth ar werth sy'n daladwy | **375** | 1,083 |
| Cymorth Grant BIS | **28,385** | 28,084 |
| Croniadau | **12,626** | 16,674 |
| Incwm gohiriedig | **1,958** | 900 |
| **Cyfanswm Credydwyr – symiau sy'n dod yn ddyledus ymhen blwyddyn** | **46,174** | **56,516** |

Mae nifer y Credydwyr Masnach wedi lleihau'n sylweddol o ganlyniad i bolisi'r Llywodraeth i dalu i bob busnes bach a chanolig cyn pen 10 diwrnod calendr. Rhoddodd Ofcom y polisi hwn ar waith ddechrau mis Rhagfyr 2008.

## 14. Credydwyr – symiau sy'n dod yn ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn

| | **2009**<br>**£'000** | 2008<br>£'000 |
|---|---|---|
| Incwm gohiriedig | **763** | 299 |
| **Cyfanswm Credydwyr – symiau sy'n dod yn ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn** | **763** | **299** |

# Nodiadau i'r Cyfrifon
## ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2009

## 15. Darpariaethau ar gyfer rhwymediagaethau a thaliadau

| | Ymddeoliad Cynnar £'000 | Eiddo gwag £'000 | Ailstrwythuro £'000 | Darpariaeth Gyfreithiol £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Ar 1 Ebrill 2008 | 853 | 259 | 1,685 | 1,055 | **3,852** |
| Disgownt wedi'i ddad-ddirwyn yn ystod y flwyddyn | 19 | 6 | - | - | **25** |
| Defnyddiwyd yn ystod y flwyddyn | (327) | (134) | (1,685) | (210) | **(2,356)** |
| Darpariaeth (wedi'i ryddhau)/wedi cynyddu | 90 | 3,786 | 107 | (845) | **3,138** |
| **Cyfanswm y Darpariaethau ar 31 Mawrth 2009** | **635** | **3,917** | **107** | **-** | **4,659** |

Caiff y darpariaethau eu cyfrifo yn unol â gofynion FRS 12. Bydd disgownt o 2.2 y cant ar y darpariaethau (2008: 2.2 y cant) bob blwyddyn.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer ymddeol yn gynnar, sef £0.6m (2008: £0.9m), ar gyfer costau ymddeoliad cynnar cyn-weithwyr Oftel, yr Asiantaeth Radiogyfathrebiadau, ac Ofcom, ac mae'n daladwy yn bennaf yn y blynyddoedd hyd at 2014.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer eiddo gwag yn cynnwys chwe eiddo (2008: dau) nad oes mo'u hangen mwyach. Cymerwyd cyngor proffesiynol wrth farchnata'r eiddo gwag, a bydd llifoedd incwm y dyfodol yn cael eu pennu pan fydd eiddo yn eithaf sicr o gael ei is-osod. Y ddarpariaeth yw gwerth net cyfredol yr all-lif arian disgwyliedig a gyfrifir hyd at yr egwyl nesaf yn y brydles, net o werth gostyngedig llifoedd incwm y dyfodol a gaiff eu sicrhau o gytundebau is-osod ar gyfer y dyfodol sydd wedi ymrwymo ac yn eithaf sicr. Mae amodau presennol y farchnad yn dangos y bydd telerau prydlesi'r dyfodol yn llai ffafriol, a dyma sydd wedi arwain at y cynnydd yn y ddarpariaeth.

Disgwylir y bydd darpariaeth o £0.1m (2008: £1.7m) ar gyfer costau dileu swyddi yn y dyfodol yn cael ei thalu yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf.

Mae'r darpariaethau cyfreithiol yn adlewyrchu asesiad o gostau sy'n ymwneud â'r heriau i benderfyniadau rheoleiddiol y disgwylir eu crisialu yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf. Ar ddiwedd mis Mawrth 2009, nid yw cwnsler Ofcom yn ymwybodol o unrhyw gostau ymgyfreitha tebygol o'r fath.

## 16. Arian wrth gefn

| | **2009 £'000** | 2008 £'000 |
|---|---|---|
| Ar 1 Ebrill 2008 | **39,623** | 31,040 |
| Newid yn y dull prisio o ganol y farchnad i'r pris cynnig presennol ar gyfer y cynlluniau pension buddion diffinedig | **-** | 50 |
| Enillion / (colledion) actiwaraidd ar y cynlluniau pensiwn buddion diffiniedig | **(5,846)** | 223 |
| Gwarged ar gyfer y flwyddyn ariannol | **2,219** | 8,310 |
| **Cyfanswm Wrth Gefn** | **35,996** | **39,623** |
| | | |
| Incwm a gwariant wrth gefn, ac eithrio rhwymedigaethau ac asedau pensiwn | **37,791** | 35,572 |
| Arian pensiwn wrth gefn | **(1,795)** | 4,051 |
| **Cyfanswm Wrth Gefn** | **35,996** | **39,623** |

# Nodiadau i'r Cyfrifon
## ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2009

## 17. Cysoni'r gwarged gweithredol â'r mewnlif ariannol net o weithgareddau gweithredu

| | **2009 £'000** | 2008 £'000 |
|---|---|---|
| Gwarged gweithredu | **6,786** | 8,454 |
| Amorteiddio | **4,322** | 2,462 |
| Dibrisiant | **3,478** | 3,888 |
| Elw wrth gael gwared ag asedau sefydlog | **13** | (1) |
| Cynnydd mewn dyledwyr | **(1,213)** | (2,351) |
| (Gostyngiad)/Cynnydd mewn credydwyr | **(9,878)** | 6,505 |
| (Gostyngiad)/Cynnydd mewn darpariaethau | **(3,004)** | 1,203 |
| Cynnydd mewn rhwymedigaethau ac asedau pensiwn | **(6,801)** | (3,678) |
| **Mewnlif / (all-lif) arian net o weithgareddau gweithredol** | **(6,297)** | **16,482** |

## 18. Cost cyfalaf

Cyfrifir bod cost cyfalaf yn 3.5 y cant (2008: 3.5 y cant) y flwyddyn, yn unol â chanllawiau Trysorlys EM. Mae credydwyr y Gronfa Gyfunol wedi'u heithrio yn unol ag arfer cyfrifyddu safonol y Llywodraeth.

## 19. Rhwymedigaethau dan brydlesau gweithredol

| | **Tir ac Adeiladau £'000** | **Cerbydau £'000** | **Arall £'000** | **Cyfanswm £'000** |
|---|---|---|---|---|
| Yr ymrwymiadau blynyddol dan brydlesi gweithredol sy'n dod i ben: | | | | |
| ymhen blwyddyn | 38 | - | 80 | **118** |
| rhwng dwy a phum mlynedd | 723 | 341 | 5 | **1,069** |
| ar ôl pum mlynedd | 8,180 | - | - | **8,180** |
| **Cyfanswm yr ymrwymiadau dan brydlesi gweithredol** | **8,941** | **341** | **85** | **9,367** |

## 20. Is-gwmnïau

Ymgorfforwyd Broadcast Training and Skills Regulator Ltd ar 6 Gorffennaf 2005. Prif weithgaredd y cwmni yw rheoleiddio hyfforddiant yn y diwydiant darlledu. Mae'r cwmni yn gyfyngedig drwy warant, ac Ofcom yw ei unig aelod. Yn ystod y flwyddyn, roedd gan y cwmni drosiant o £0.3 m (2008: £0.3m), ac elw gweithredol ar ôl treth o £0.0m (2008: colled o £0.2m) a £0.0m wrth gefn (2008: £0.0m). Oherwydd maint ac ystod gweithrediadau'r is-gwmni yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol, nid yw canlyniadau gweithredu'r cwmni wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn.

## 21. Y Gwasanaeth Cyfryngau Gaeleg

Yn unol ag Adran 210 Deddf Cyfathrebiadau 2003 ac Adran 183 Deddf Darlledu 1990, talodd Gweinidogion yr Alban £12.4m (2008: £12.1m) i Ofcom. Nid yw'r swm hwn wedi'i adlewyrchu yn y cyfrifon hyn ond fe'i talwyd gan Ofcom i'r Gronfa Darlledu Gaeleg dan reolaeth y Seirbheis nam Meadhanan Gàidhlig (y Gwasanaeth Cyfryngau Gaeleg). Mae'r Gwasanaeth Cyfryngau Gaeleg yn paratoi adroddiadau a chyfrifon ar wahân hyd at 31 Mawrth bob blwyddyn. Bydd Ofcom yn anfon y rhain at Ysgrifennydd Gwladol yr Alban ac at Weinidogion yr Alban i'w cyflwyno ger bron Senedd yr Alban.

# Nodiadau i'r Cyfrifon
## ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2009

## 22. Pensiynau

**a) Cynllun pensiwn rhanddeiliaid**

Prif ffordd Ofcom o ddarparu buddion pensiwn i'w gydweithwyr yw drwy gyfrannu at gynllyn pensiwn rhanddeiliaid, sef cynllun pensiwn cyfraniadau diffiniedig. Gwnaeth y cyflogwr gyfraniadau o £3.4m yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2009 (2008: £3.1m).

**b) Cynlluniau pensiwn caeedig**

Mae Ofcom yn gweithredu dau gynllun pensiwn buddion diffinedig caeedig:

- Sefydlwyd Cynllun Pensiwn Buddion Diffinedig Ofcom ar 29 Rhagfyr 2003. Cyfanswm y cyfraniadau cyflogwr a wnaethpwyd i'r Cynllun Pensiwn Buddion Diffinedig ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2009 oedd £3.8m (2008: £1.8m). Mae hyn yn cynnwys taliad ymlaen llaw o £2.8m (2008:dim). Mae Ofcom hefyd yn rhedeg adran cyfraniadau penodol yn y cynllun, a gwnaeth gyfraniadau gwerth £0.1m yn 2009 (2008: £0.1m); a
- Cynllun Pensiwn Ofcom (ITC gynt), y mae Ofcom yn rhan ohono ar y cyd â thri mudiad arall, sef S4C, S4C Masnachol a'r Awdurdod Safonau Hysbysebu. Gwerth cyfraniadau'r cyflogwr a wnaethpwyd i Gynllun Pensiwn Ofcom (ITC gynt) yn 2009 oedd £2.1m (2008: £3.3m). Mae hyn yn cynnwys blaendaliad o £2m (2008:£3m).

Diwygiodd y bwrdd safonau cyfrifyddu FRS17 ynghylch llywodraethu cyfrifyddu ar gyfer Buddion Ymddeoliad. Rhoddwyd y newidiadau ar waith yn ystod y flwyddyn ariannol hon, ac maent wedi arwain at adfer ffurfiau cymharol y flwyddyn flaenorol lle bo hynny'n briodol.

### Rhwymedigaethau Buddion i Weithwyr

| Dyma'r symiau a gydnabyddir yn y fantolen: | 2009<br>£'000 | 2008<br>£'000 |
|---|---|---|
| Statws noddedig, ddiwedd y flwyddyn | | |
| Gwerth Teg asedau'r cynllun | **180,870** | 213,700 |
| Newid yn y dull prisio o ganol y farchnad i'r pris cynnig presennol | - | (260) |
| Rhwymedigaethau'r Buddion | **(171,080)** | (171,360) |
| **Statws noddedig** | **9,790** | **42,080** |
| Cyfyngiadau ar Asedau | **(590)** | (32,500) |
| Newid yn y dull prisio o ganol y farchnad i bris y cynnig presennol | - | 310 |
| **Statws Noddedig Net** | **9,200** | **9,890** |

Oherwydd y rhagdybiaethau hyn, mae Ofcom wedi cofnodi ased pensiwn cyfrifyddu yn unol â FRS 17. Fodd bynnag, mae'r prisiadau actiwaraidd wedi dangos bod diffyg yng Nghynllun Pensiwn Ofcom, ac mae Ofcom yn gwneud cyfraniadau yn unol ag argymhellion yr actiwari er mwyn ariannu'r diffyg.

Mae'n ofynnol yn ôl FRS 17, lle bydd cynllun mewn gwarged, mai dim ond os yw'r gwarged ar gael i'r cyflogwr fel ad-daliad o gyfraniadau neu fel "gwyliau cyfrannu" y gellir ei gydnabod ar y fantolen. Lleihaodd nifer yr aelodau gweithredol yn y cynllun, felly mae'r actiwarïaid wedi cyfrifo gwarged anadferadwy o £0.6m (2008: £32.5m). Mae hyn wedi'i bennu i'r Datganiad o enillion a cholledion cydnabyddedig.

Mae'r Datganiad o enillion a cholledion cydnabyddedig yn cynnwys newidiadau actiwaraidd mewn rhithiau o £4.15m a lleihad mewn gwarged anadenilladwy o £31.6m.

# Nodiadau i'r Cyfrifon
## ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2009

### 22. Pensiynau (parhâd)

| Dyma'r symiau a gydnabyddir yn yr elw a'r colledion: | 2009 £'000 | 2008 £'000 |
|---|---|---|
| Cost gyfredol y gwasanaeth | 1,680 | 3,290 |
| Llog ar rwymedigaeth | 10,920 | 10,170 |
| Adenillion disgwyliedig ar asedau'r cynllun | (9,330) | (10,020) |
| Cost y gwasanaeth yn y gorffennol | 80 | 130 |
| Colledion/(enillion) ar gwtogi a setliadau o gostau'r gwasanaeth yn y gorffennol | (80) | (130) |
| Cwtogi neu setliad (enillion)/colled | - | 1,100 |
| Gwarged nas gwelwyd gynt wedi'i dynnu o'r golled ar y cwtogiad | - | (1,100) |
| **Cost budd net yn yr elw a'r colledion** | **3,270** | **3,440** |
| Adenillion gwirioneddol ar asedau'r cynllun | (31,070) | 14,700 |

| Newidiadau yng ngwerth cyfredol meysydd rhwymedigaeth y buddion diffinedig: | 2009 £'000 | 2008 £'000 |
|---|---|---|
| Rhwymedigaeth buddion diffinedig agoriadol | 171,360 | 190,430 |
| Cost y gwasanaeth | 1,680 | 3,290 |
| Costau llog | 10,920 | 10,170 |
| Cyfraniadau cyfranogwyr y cynllun | 210 | 220 |
| Colledion/(enillion) actiwaraidd | (2,950) | (22,570) |
| Cost y gwasanaeth yn y gorffennol | - | 130 |
| Colledion/(enillion) ar y cwtogi | - | 300 |
| **Buddion a dalwyd** | **(10,140)** | (10,610) |
| **Rhwymedigaeth buddion diffinedig terfynol** | **171,080** | **171,360** |

| Dyma'r newidiadau yng ngwerth teg asedau'r cynllun: | 2009 £'000 | 2008 £'000 |
|---|---|---|
| Gwerth teg agoriadol yr asedau | 213,440 | 202,500 |
| Newid yn y dull prisio o ganol y farchnad i'r pris cynnig presennol | - | (260) |
| Adenillion disgwyliedig | 9,330 | 10,020 |
| Enillion/(colledion) actiwaraidd | (40,390) | 4,660 |
| Cyfraniadau gan y cyflogwr (gan gynnwys y rheini heb eu talu ar y dyddiad mesur) | 8,420 | 6,910 |
| Cyfraniadau cyfranogwyr y cynllun | 210 | 220 |
| Buddion a dalwyd | (10,140) | (10,610) |
| **Gwerth teg terfynol yr asedau** | **180,870** | **213,440** |

Mae cyfraniadau'r cyflogwr yn cynnwys £2.5m (2008: £1.8m) sydd wedi'i roi mewn cyfrif ymddiriedolaeth. Dim ond i un o'r ddau Gynllun Pensiwn Buddion Diffinedig y ceir talu arian a drosglwyddir i'r cyfrif ymddiriedolaeth ac a gedwir ynddo, ac ni ellir eu defnyddio at unrhyw ddiben arall.

# Nodiadau i'r Cyfrifon
## ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2009

### 22. Pensiynau (parhâd)

| Dyma brif gategorïau asedau'r cynllun fel canran o gyfanswm asedau'r cynllun: | 2009 % | 2008 % |
|---|---|---|
| Ecwitïau | **17** | 18 |
| Bondiau Corfforaethol | **2** | 4 |
| Bondiau Mynegrifol | **9** | 66 |
| Bondiau Llog Sefydlog y Llywodraeth | **3** | 9 |
| Blwydd-daliadau | **65** | - |
| Arall (gan gynnwys asedau yn Ymddiriedolaeth Bensiwn Ofcom) | **4** | 3 |
| | **100** | **100** |

Yn ystod y flwyddyn, mae Ymddiriedolwyr Cynllun Ofcom (ITC gynt) wedi trafod gwerth £150m mewn cyfraniadau gan bensiynwyr lle mae'r ymddiriedolwyr yn dal y polisi yswiriant fel buddsoddiad yn y cynllun pensiwn. Mae buddion pensiynwyr wedi aros yr un fath, ond mae gofyn i'r cwmni yswiriant dalu symiau'r pensiwn yn llawn ar gyfer pensiynwyr presenol yn uniongyrchol i'r Ymddiriedolwyr.

| Y prif ragdybiaethau actiwaraidd ar ddyddiad y fantolen (wedi'u mynegi mewn cyfartaleddau wedi'u pwysoli): | 2009 % | 2008 % |
|---|---|---|
| Cyfradd disgownt | **6.3** | 6.5 |
| Adenillion disgwyliedig ar asedau'r cynllun ar gyfer y flwyddyn (Cynllun Buddion Diffinedig Ofcom) | **6.3** | 5.4 |
| Adenillion disgwyliedig ar asedau'r cynllun ar gyfer y flwyddyn (Cynllun Ofcom (ITC gynt)) | **5.0** | 5.0 |
| Cynnydd mewn cyflogau yn y dyfodol | **4.0** | 4.9 |
| Cynnydd mewn pensiwn yn y dyfodol | **3.0** | 3.4 |
| Chwyddiant prisiau manwerthu | **3.0** | 3.4 |

| Dyma'r symiau ar gyfer y flwyddyn bresennol a'r pedair blynedd blaenorol: | 2009 £'000 | 2008 £'000 | 2007 £'000 | 2006 £'000 | 2005 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwerth teg asedau'r cynllun | **180,870** | 213,440 | 202,500 | 198,100 | 168,400 |
| Gwerth presennol y rhwymedigaethau buddion diffinedig | **(171,080)** | (171,360) | (190,430) | (187,900) | (157,800) |
| **Statws Noddedig** | **9,790** | 42,080 | 12,070 | 10,200 | 10,600 |
| | | | | | |
| Addasiadau a brofwyd ar rwymedigaethau'r cynllun | **(1,200)** | (1,800) | 2,920 | (4,740) | 6,430 |
| Addasiadau a brofwyd ar asedau'r cynllun | **(40,390)** | 4,660 | (380) | 13,660 | 3,390 |

# Nodiadau i'r Cyfrifon
## ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2009

## 22. Pensiynau (parhâd)

**c) Rhwymedigaethau pensiwn di-nawdd**

Mae darpariaeth y pensiwn yn gysylltiedig â'r rhwymedigaethau pensiwn di-nawdd sy'n berthnasol i Ofcom ar ran cyn-Gadeiryddiol y Comisiwn Teledu Annibynnol a'r Awdurdod Radio a chyn-Gyfarwyddwyr Cyffredinol Telathrebu. Mae darpariaeth y pensiwn yn ddi-nawdd, ac mae'r buddion yn cael eu talu wrth iddynt ddod yn ddyledus ac yn cael eu gwarantu gan Ofcom. Nid oes cronfa, ac felly nid oes gwarged na diffyg. Ceisiwyd cyngor actiwaraidd er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth wedi'i phennu ar lefel realistig.

| **Dadansoddiad o'r swm a gredydir i gostau cyllid eraill** | **2009**<br>**£'000** | 2008<br>£'000 |
|---|---|---|
| Llog ar rwymedigaethau pensiwn | **(55)** | **(48)** |
| **Adenillion net** | **(55)** | **(48)** |

| **Dadansoddiad o'r swm a gydnabyddir yn y Datganiad o Gyfanswm yr Enillion a'r Colledion Cydnabyddedig (STRGL)** | **2009**<br>**£'000** | 2008<br>£'000 |
|---|---|---|
| Colledion a brofwyd ar rwymedigaethau'r cynllun | **(7)** | (55) |
| Newidiadau mewn rhagdybiaethau sy'n sail i werth cyfredol rhwymedigaethau'r cynllun pensiwn | **1** | 78 |
| **(Colledion)/enillion actiwaraidd a gydnabyddir yn STRGL** | **(6)** | **23** |

| **Symudiad mewn gwarged yn ystod y flwyddyn** | **2009**<br>**£'000** | 2008<br>£'000 |
|---|---|---|
| Diffyg yn y cynlluniau ar 1 Ebrill | **876** | 909 |
| Cyfanswm cost gyfredol y gwasanaeth | **-** | - |
| Cyfraniadau'r cyflogwr (gan gynnwys y rheini heb eu talu ar y dyddiad mesur) | **(61)** | (58) |
| Cyfraniadau staff | **-** | - |
| Costau cyllid eraill | **55** | 48 |
| Colledion/(enillion) actiwaraidd | **6** | (23) |
| **Diffyg yn y cynlluniau** | **876** | **876** |

# Nodiadau i'r Cyfrifon
## ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2009

## 23. Partïon cysylltiedig

Nid yw Ofcom yn ystyried bod ei swyddogaeth rheoleiddio a thrwyddedu'n creu perthynas parti cysylltiedig rhwng ei hun a deiliaid trwydded, fel y diffiniwyd gan FRS 8, "Trafodion Partïon Cysylltiedig".

Mae Aelodau'r Bwrdd yn cyflwyno datganiad blynyddol yn cadarnhau nad oes ganddynt fuddiant a fyddai'n dylanwadu ar eu swyddogaeth fel Aelod o Ofcom. Ni wnaethpwyd yr un trafodyn prynu na gwerthu rhwng Ofcom a'i aelodau.

Ystyrir mai Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau BIS (BERR gynt) ac Ysgrifennydd Gwladol yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) yw'r partïon cysylltiedig sy'n rheoli Ofcom dan delerau Deddf y Swyddfa Gyfathrebiadau 2002.

Darperir manylion am yr holl incwm cymorth grant gan BIS a DCMS yn Nodyn 3 a Nodyn 13 y datganiadau ariannol hyn.

Ar 31 Mawrth 2009, cadwyd y credydwyr canlynol o ran cymorth grant a ddarparwyd gan BIS:

- Rheoli sbectrwm – £25.5m (2008: £25.0m);
- Clirio sbectrwm – dim (2008: £0.7m);
- Rhaglen dyfarnu sbectrwm – £1.9m (2008: £1.5m);
- Gorfodi'r gyfraith gystadleuaeth – £0.6m (2008: £0.5m);
- Radio Cymunedol – dim (2008:£0.01m);
- Prawf diddordeb y cyhoedd – dim (2008:£0.3m);
- Integreiddio rheoleiddio'r gwasanaeth post – £0.3m (2008: dim).

## 24. Offerynnau ariannol

Nid yw Ofcom yn sylweddol agored i beryglon o ran cyfraddau llog, credyd na chyfraddau newid arian. Mae FRS 25, Offerynnau Ariannol, yn gofyn bod endid yn datgelu rôl offerynnau ariannol yn ystod y flwyddyn o ran creu neu newid y risgiau a wynebir ganddo wrth gyflawni ei weithgareddau. Am fod ei weithgareddau yn rhai di-fasnach yn bennaf, ac oherwydd y modd y caiff Ofcom ei gyllido, nid yw'n agored i'r un risgiau ariannol a wynebir gan endidau busnes.

Ychydig iawn o bwerau sydd gan Ofcom i fenthyg neu fuddsoddi cronfeydd dros ben. Nid yw asedau a rhwymedigaethau ariannol a gynhyrchir gan weithgareddau gweithredol beunyddiol yn newid y risgiau y mae Ofcom yn eu hwynebu wrth gyflawni ei weithgareddau.

Nid oes gwahaniaeth o bwys ar ddyddiad y fantolen rhwng gwerth teg a gwerth llyfr y rhwymedigaethau a'r asedau ariannol.

## 25. Ymrwymiadau cyfalaf

Ar 31 Mawrth 2009, roedd ymrwymiadau cyfalaf o £1.0m (2008: £1.1m), yn ymwneud yn bennaf â'r rhaglen adnewyddu Systemau Gwybodaeth.

## 26. Derbyniadau a drosglwyddwyd i'r Gronfa Gyfunol

Yn unol ag Adran 400 Deddf Cyfathrebiadau 2003, anfonodd Ofcom £43.5m (2008: £57.3m) o Ddirwyon a Thaliadau Ychwanegol y Ddeddf Darlledu i'r Gronfa Gyfunol.

Anfonwyd £182.9m (2008: £173.6m) o ffioedd trwydded y Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr i BIS i'w drosglwyddo i'r Gronfa Gyfunol. Datgelir manylion y symiau sy'n ddyledus i'r Gronfa Gyfunol ar 31 Mawrth 2009 yn Nodyn 13 y datganiadau ariannol hyn.

# Nodiadau i'r Cyfrifon
## ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2009

### 27. Rhwymedigaethau wrth gefn

O dro i dro, bydd Ofcom yn destun her gyfreithiol ac adolygiad barnwrol yn sgil penderfyniadau a wnaed wrth gyflawni ei fusnes arferol fel rheoleiddiwr y sector gyfathrebiadau. Gallai dyfarniadau cyfreithiol arwain at rwymedigaethau ar gyfer costau cyfreithiol. Mae darpariaeth wedi'i wneud yn y datganiadau ariannol hyn (gweler Nodyn 15) ar gyfer costau mesuradwy ac i'r graddau eu bod yn debygol. Fodd bynnag, mewn rhai achosion ni ellir mesur costau, oherwydd na wyddys canlyniad yr achos, ac felly ceir cryn ansicrwydd ynghylch natur a graddau unrhyw rwymedigaeth ddilynol.

### 28. Cyfrifon y llywodraeth gyfan

Ar 31 Mawrth 2009, roedd £28.0m (2008: £29.2m) yn ddyledus gan Ofcom i gyrff llywodraeth ganolog. Nid oes symiau'n ddyledus i awdurdodau lleol, Ymddiriedolaethau GIG, na chorfforaethau cyhoeddus a chronfeydd masnachu.

Mae Adran 400 yn dangos bod £1.2m (2008: £4.5m) yn ddyledus i gyrff llywodraeth ganolog.

OF461 (Gorff 2009)


**Y Swyddfa Gyfathrebiadau**
Tŷ Riverside
2a Heol Bont Southwark
Llundain SE1 9HA

**www.ofcom.org.uk**

Switsfwrdd
+44 (0)20 7981 3000 neu
+44 (0)300 123 3000
Ffacs
+44 (0)20 7981 3333
Ffôn testun
+44 (0)20 7981 3043 neu
+44 (0)300 123 2024

2 Pentir Caspian
Ffordd Caspian
Caerdydd CF10 4DQ

Switsfwrdd
+44 (0)29 2046 7200
Ffacs
+44 (0)29 2046 7233